Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd
protecting the public through statutory supervision of midwives





# Goruchwyliaeth, cefnogaeth a diogelwch: Adroddiad blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) gan gynnwys Adroddiad Archwilio Blynyddol yr AGLl yng Nghymru

2014-2015

1 Ebrill 2014 – 31 Mawrth 2015





Awst 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu trwy'r canlynol


| | |
|---|---|
| **Ffôn:** | 0300 062 8163 |
| **Ebost:** | **hiw@wales.gsi.gov.uk** |
| **Ffacs:** | 0300 062 8387 |
| **Gwefan:** | **www.hiw.org.uk** |



OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG26090


ISBN Digidol 978 1 4734 4632 8

# Cynnwys


**Rhagair** ..... 5

**Cyflwyniad a chefndir** ..... 6

**Ein swyddogaeth fel Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru a sut rydym yn ei chyflawni** ..... 6

**AGLI Cymru** ..... 7

**Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol** ..... 7

**1. Darparu goruchwyliaeth effeithiol** ..... 10

1.1 Cyd-destun gwleidyddol a rheoleiddiol ehangach goruchwylio stadudol ..... 13

1.2 Y Gymhareb o oruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd ..... 14

1.3 Tabl 1 Cymhareb goruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd yng Nghymru ar 31 Mawrth 2015 ..... 15

1.4 Penodi goruchwylwyr bydwragedd, dad-ddethol, ymddiswyddo, a chaniatâd i fod yn absennol ..... 15

Tabl 2. Tueddiadau penodi a dad-ddethol ar gyfer y tair blynedd diwethaf ..... 15

1.5 Dulliau ar gyfer mynediad parhaus at oruchwylydd bydwragedd ..... 17

**2. Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y broses o oruchwylio** ..... 20

2.1 Tabl 3 – Meysydd o ddarpariaeth goruchwylwyr bydwragedd a oedd yn rhan o archwiliad adolygwyr lleyg yr AGLI ..... 22

2.2 Trosolwg o weithgarwch archwilio'r AGLI – nodi risgiau a gwireddu manteision ..... 23

2.3 Crynodeb o amddiffyn y cyhoedd, cyd-destun a chanfyddiadau ..... 25

2.4 Ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch ..... 26

**3. Tueddiadau sy'n effeithio neu a allai effeithio ar arfer bydwragedd yn y dyfodol** 28

3.1 Gofynion gweithlu bydwreigiaeth ac aciwtedd ..... 28

3.2 1000 o Fywydau a Mwy ..... 30

3.3 Rhwydwaith Mamolaeth Cymru Gyfan ..... 30

3.4 Menter Cymru ar gyfer Lleihau Marw-enedigaethau ..... 31

3.5 Llwybr Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer Esgor Naturiol ..... 32

3.6 Strategaethau a dangosyddion mamolaeth ..... 32

3.7 Lleihau cyfraddau toriad Cesaraidd ..... 33

3.8 Polisïau lleol a chenedlaethol yn ymwneud â Goruchwyliaeth ..... 33

Yn genedlaethol ..... 33

Yn lleol ..... 34

**4. Sicrhau y cynhelir ymchwiliadau i ymarfer is-optimaidd** ..... 35

4.1 Gwella'r broses o gynnal ymchwiliadau goruchwylio ..... 36

4.2 Cwynion ynglŷn â chyflawni'r swyddogaeth oruchwylio ..... 40

4. Arfer nodedig ac arloesol ... 41
5.1 Rhannu arfer da ... 42
5.2 Materion allweddol ar gyfer yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn 2014-2015 ac edrych i'r dyfodol ... 43
Atodiad 1 – Cymhareb gyfwerth â goruchwylydd bydwragedd yng Nghymru ... 45
Tabl 1 - Cyfrifiadau Penodol y Bwrdd Iechyd wedi'u Diweddaru – Chwarter 4 2014-15 45
1. Crynodeb Gweithredol ... 48
1. Rôl Adolygwyr Lleyg a Chynnig Archwilio ... 49
1.1 Trosolwg o rôl adolygwyr lleyg yn ystod 2014-2015 ... 49
1.2 Cynnig ar gyfer model newydd goruchwyliaeth yng Nghymru ... 50
2. Canlyniadau Archwiliad Adolygwyr Lleyg 2014-2015 ... 52
2.1 Gwerthusiad o brofiad defnyddwyr gwasanaeth ... 52
2.1.1 Amcanion ... 52
2.1.2 Cwestiynau'r gwerthusiad ... 52
2.1.3 Dulliau ... 52
2.1.4 Cyfrinachedd ... 53
2.1.5 Amcan 1: Canfyddiadau a thrafodaeth ... 53
2.1.6 Amcan 2: Canfyddiadau a thrafodaeth ... 57
2.1.7 Amcan 3: Canfyddiadau a thrafodaeth ... 60
2.1.8 Casgliad ac argymhellion ... 66
2.2 Archwiliad o oruchwyliaeth grŵp a datblygiad proffesiynol parhaus ... 67
2.2.1 Amcan ... 67
2.2.2 Cwestiynau'r archwiliad ... 67
2.2.3 Dulliau ... 68
2.2.4 Cyfrinachedd ... 68
2.2.5 Canfyddiadau a thrafodaeth ... 68
Themâu sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â Datblygiad Proffesiynol Parhaus ... 74
Cynnwys adborth gan fenywod (ac adborth gan gydweithwyr/cymheiriaid) ... 75
Effeithiolrwydd y broses ... 76
2.2.6 Casgliadau ... 77
2.2.7 Argymhellion ... 78
2.3 Gwerthuso pa mor hygyrch yw goruchwylwyr bydwragedd ... 79
2.3.1 Amcanion ... 79
2.3.2 Dulliau ... 79
2.3.3 Canfyddiadau a thrafodaethau ... 80

Gwefannau byrddau iechyd – argymhellion ..... 82
Chwiliadau Google ..... 82
Chwiliadau Google – argymhellion ..... 83
Mumsnet ..... 83
Mumsnet – argymhellion ..... 84
Tudalennau Facebook ar gyfer byrddau iechyd a Phwyllgorau Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ..... 85
Tudalennau Facebook ar gyfer Byrddau Iechyd a Phwyllgorau Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth – argymhellion ..... 85
Ffynonellau gwybodaeth eraill ..... 86
Cymru gyfan: ..... 86
Betsi Cadwaladr: ..... 86
Cwm Taf: Ysbyty'r Tywysog Siarl ..... 86
Hywel Dda: Ysbyty Glangwili ..... 86
Abertawe Bro Morgannwg: ..... 87
Aneurin Bevan: ..... 87
Caerdydd a'r Fro: ..... 87
Powys: ..... 87
Ffynonellau gwybodaeth eraill – argymhellion ..... 87
Archwiliad ffôn cyffredinol ..... 89
Archwiliad ffôn cyffredinol – argymhellion ..... 91
Archwiliad o'r rhif ar alwad ..... 91
2.3.4 Casgliad ac argymhellion ..... 92
**3. Casgliad cyffredinol ..... 93**

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2014-2015, ar sicrhau ansawdd Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cyflawni swyddogaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ar ran Gweinidogion a dinasyddion Cymru – o'r herwydd, hi sy'n gyfrifol am sicrhau bod goruchwyliaeth statudol pob bydwraig yn cael ei chyflawni i safon foddhaol ledled Cymru.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn edrych yn ôl ar yr Awdurdod Goruchwylio Lleol a gweithgareddau goruchwylio yn ystod 2014-2015, yn ogystal ag edrych ymlaen at y newidiadau sydd i ddod. Eleni, bydd yr adroddiad blynyddol yn darparu mewnwelediad i effaith gweithredu'r model newydd ar gyfer goruchwylio, a ddaeth i rym ar 4 Awst 2014. Yn ôl Adroddiad Sicrhau Ansawdd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2014, roedd y model newydd yn arloesol ac yn effeithiol. Yn ôl y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, roedd y model yn enghraifft o reoli newid ar ei orau, a oedd yn cynnwys y rhanddeiliaid perthnasol mewn gwasanaethau mamolaeth, AGIC, a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth[1]. Cadarnhaodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fod safonau proffesiynol o ran goruchwyliaeth statudol yn cael eu bodloni yng Nghymru.

Rwy'n hyderus bod yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yng Nghymru yn gryfach o ganlyniad i geisio ffordd newydd a gwell ar gyfer goruchwylio bydwragedd. Mae'r sicrwydd hwn yn bwysig o ystyried y materion a nodwyd yn Adroddiad Kirkup (Mawrth 2015)[2] ynglŷn â'r angen i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Adran Iechyd weithredu argymhellion The Kings Fund[3] mewn perthynas â risgiau a nodwyd ynglŷn â goruchwyliaeth statudol. O ganlyniad i'r newidiadau yng Nghymru, mae'r Awdurdod Goruchwylio Lleol mewn sefyllfa gref er mwyn cynnal darpariaeth wrth i newidiadau cyfreithiol gael eu gwneud.





Kate Chamberlain
Prif Weithredwr

[1]Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015), AGLl AGIC – Adolygiad monitro perfformiad wrth leihau risgiau allweddol a nodwyd yn Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer gwasanaethau goruchwylio bydwreigiaeth awdurdodau goruchwylio lleol.
[2]Kirkup (2015), The Report of the Morecambe Bay Investigation https://www.gov.uk/government/.../47487_MBI_Accessible_v0.1.pdf
[3] Papur Cyngor y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i dderbyn argymhellion The Kings Fundhttp://www.nmc.org.uk/news/news-and-updates/nursing-and-midwifery-regulator-calls-for-supervision-to-be-removed-from-its-legislation/

# Cyflwyniad a chefndir

Er mwyn sicrhau arfer bydwreigiaeth ddiogel ac effeithiol, mae'n ofynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001,[4] gynnal cofrestr o fydwragedd cymwysedig, a sefydlu rheolau a safonau o fedrusrwydd.

Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 hefyd yn cyflwyno gofynion statudol bod pob bydwraig yn destun goruchwyliaeth. Diben sylfaenol goruchwyliaeth yw gwella amddiffyn menywod a babanod trwy hyrwyddo a chefnogi safonau diogel o ymarfer bydwreigiaeth mewn ffordd weithredol.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ar ran Gweinidogion Cymru, sy'n cyflawni swyddogaeth Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru. Mae'n gyfrifol felly am sicrhau bod goruchwyliaeth statudol pob bydwraig, fel sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001) a Rheolau a Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012), yn cael eu harfer i safon foddhaol ledled Cymru.

# Ein swyddogaeth fel Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru a sut rydym yn ei chyflawni

Mae gan Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru gyfrifoldeb i:

- Fod ar gael i fenywod os ydynt yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar eu gofal bydwreigiaeth y maent o'r farn na roddwyd sylw iddi trwy sianelau eraill
- Darparu fframwaith o gefnogaeth ar gyfer ymarfer goruchwylio a bydwreigiaeth
- Derbyn data Bwriad i Ymarfer ar gyfer pob bydwraig sy'n ymarfer yn yr Awdurdod Goruchwylio Lleol
- Sicrhau bod pob bydwraig yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer ymarfer
- Darparu addysg a hyfforddiant cychwynnol a pharhaus i oruchwylwyr
- Ymchwilio i achosion o gamymddwyn honedig neu ddiffyg cymhwysedd
- Penderfynu a ddylid gwahardd bydwraig rhag ymarfer, yn unol â Rheol 14[5] Rheolau a Safonau Bydwragedd (Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2012)
- Arwain datblygiad safonau ac archwilio goruchwyliaeth

[4] Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (Y Gorchymyn). http://www.legislation.gov.uk/uksi/2002/253/contents/made

[5] Mae Rheol 14 Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn ymwneud â gwaharddiad rhag ymarfer gan awdurdod goruchwylio lleol.

## AGLI Cymru


AGLI Cymru
Darparu fframwaith o gefnogaeth ar gyfer ymarfer goruchwylio a bydwreigiaeth
Derbyn data bwriad i ymarfer ar gyfer pob bydwraig sy'n ymarfer yn ardal yr Awdurdod Goruchwylio Lleol
Sicrhau bod bob bydwraig yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer ymarfer
Penderfynu a ddylid gwahardd bydwraig rhag ymarfer (Rheol 14, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2012)
Ymchwilio i achosion o gamymddwyn honedig/diffyg cymhwysedd
Darparu addysg a hyfforddiant cychwynnol a pharhaus i oruchwylwyr
Ar gael i ddarparu cyngor/cymorth ar gyfer menywod os ydynt am drafod eu gofal bydwreigiaeth

# Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol

Er mwyn ei galluogi i ddarparu yn unol â'r cyfrifoldebau uchod, mae AGIC wedi penodi dau Swyddog Bydwreigiaeth sy'n gyfrifol am wneud y canlynol ar ran AGIC:

- Arwain datblygiad safonau ac archwilio goruchwyliaeth ar draws yr Awdurdod Goruchwylio Lleol
- Penodi Goruchwylwyr Bydwragedd
- Darparu cyswllt ffurfiol rhwng bydwragedd, goruchwylwyr bydwragedd a'r cyrff statudol
- Darparu fframwaith ar gyfer cefnogi goruchwyliaeth bydwragedd ac ymarfer bydwreigiaeth o fewn ei ffin
- Cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a hwyluso rhaglenni paratoi goruchwylwyr bydwragedd, a'u datblygu'n barhaus
- Sicrhau bod goruchwylwyr bydwragedd yn gallu bodloni'r cymwyseddau a nodir yn y Safonau ar Gyfer Paratoi Goruchwylydd Bydwragedd [(Rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd ) Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2014[6]]
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a hybu gwaith partneriaeth gyda menywod a'u teuluoedd

Mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl yn cynrychioli AGLl Cymru yn fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLl y Deyrnas Unedig, a chyfarfodydd Grŵp Cyfeirio Strategol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth/Swyddogion Bydwreigiaeth AGLl, gan sicrhau bod materion a safbwyntiau Cymru yn cael eu hystyried yn llawn. Maent yn gyfrifol hefyd am gynnal perthynas waith dda â Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am bolisïau mamolaeth, Prif Swyddog Nyrsio Cymru, y Cynghorydd Proffesiynol ar Fwrdd Cymru Coleg Brenhinol Bydwragedd y DU, Penaethiaid Grŵp Cynghori Bydwreigiaeth Cymru Gyfan, a'r Grŵp Bydwragedd Arweiniol ar gyfer Addysg yng Nghymru.

Mae'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r ddarpariaeth o oruchwyliaeth ar draws byrddau iechyd ac ardaloedd daearyddol penodol Cymru wedi'i roi i Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl, fel y nodir isod:

Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl Julie Richards yn gyfrifol am:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

[6] Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2014), Safonau ar Gyfer Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd http://www.nmc.org.uk/globalassets/siteDocuments/NMC-Publications/NMC-Standards-for-preparation-of-supervisors-of-midwives.pdf

- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl Vinny Ness yn gyfrifol am:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cwblhaodd Vinny Ness ei daliadaeth benodedig o bedair blynedd ar secondiad gyda Llywodraeth Cymru, a daeth yn ôl i'r GIG ym mis Mai 2015. Sue Jose yw ei olynydd fel Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, ac mae hi’n gyfrifol am yr un ardal ddaearyddol. Dechreuodd ei swydd yn llawn amser ar 1 Ebrill 2015. Yn flaenorol, bu Sue yn oruchwylydd bydwragedd a oedd wedi'i phenodi yn ôl y model newydd ar gyfer goruchwylio, a oedd yn eu galluogi, yn sgil ei phenodiad, i gysgodi Swyddogion Bydwreigiaeth y AGLl rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2015, er mwyn paratoi ar gyfer y trosglwyddiad.

# 1. Darparu goruchwyliaeth effeithiol

Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2013-2014, roedd yr AGLl yn disgrifio'r gwaith hynod bwysig yr oedd wedi bod yn ei wneud er mwyn moderneiddio ac ailffurfio darpariaeth goruchwyliaeth statudol yng Nghymru. Roedd hyn yn ganlyniad i'r gwaith a gyflwynwyd mewn papur arfarnu opsiynau, 'Yr Achos dros Newid', i Gyfarwyddwyr Nyrsio o GIG Cymru ym mis Ebrill 2013, a oedd yn nodi'r heriau a'r risg i ddarpariaeth goruchwyliaeth bydwragedd statudol ddiogel ac effeithiol ledled Cymru. Roedd yr heriau a’r risgiau hyn yn cynnwys:

- Diffyg adnoddau’r GIG i gefnogi Goruchwylwyr Bydwragedd i addasu i agenda newid yr Awdurdod Goruchwylio Lleol
- Her amhosibl i Oruchwylwyr Bydwragedd o ran cydbwyso’r swyddogaeth Goruchwylydd Bydwragedd â gofynion cynyddol eu prif swydd
- Anghysondebau o ran defnydd o safonau’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar draws pob agwedd ar weithgarwch Goruchwylwyr Bydwragedd
- Mae codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn cynyddu disgwyliadau ymhlith y cyhoedd ond nid oes capasiti i ymateb
- Mae nifer fawr o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi eu gwasgaru ar draws ardal ddaearyddol fawr yn gweithio yn erbyn cydlyniant tîm a chyfathrebu dwy ffordd effeithiol gyda’r Awdurdod Goruchwylio Lleol
- Yr her o gydbwyso atebolrwydd Goruchwylwyr Bydwragedd i’r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer pob mater yn ymwneud â goruchwyliaeth statudol a’u cyfrifoldeb i’w cyflogwr
- Y diffyg didueddrwydd o ran goruchwylio ymrwymiadau cytundebol Goruchwylwyr Bydwragedd
- Y potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau rhwng swyddogaethau Goruchwylwyr Bydwragedd a chyflogaeth, yn enwedig i reolwyr gwasanaethau mamolaeth
- Cynnydd yn yr achosion o ganiatâd i fod yn absennol a dad-ddetholiadau gan oruchwylwyr bydwragedd o’r swyddogaeth goruchwylydd bydwragedd oherwydd pwysau cynyddol ar y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Oediadau sylweddol a difrifol wrth gwblhau ymchwiliadau goruchwylio ac oediadau cydredol wrth roi camau adferol ar waith ar gyfer bydwragedd a gweithredu gwersi a ddysgwyd gan y sefydliad
- Amrywiad eang o ran sgiliau a galluoedd goruchwylwyr bydwragedd i gynnal ymchwiliad cadarn ac ysgrifennu adroddiad cryf a allai wrthsefyll craffu allanol a chyfreithiol
- Anallu pob goruchwylydd bydwragedd i ddangos cydymffurfiad effeithiol â holl safonau’r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer ymarfer goruchwylydd bydwragedd
- Methiant i gydymffurfio â chwblhad 100% o’r adolygiad goruchwylio blynyddol

Roedd yr heriau a’r risgiau a nodwyd yn gwanhau’r swyddogaeth oruchwylio, a oedd yn peri risgiau sylweddol i brif ddiben goruchwylio statudol, sef amddiffyn menywod, babanod a’u teuluoedd. O ganlyniad, gofynnodd y Cyfarwyddwyr Nyrsio i’r Awdurdod Goruchwylio Lleol lunio model o oruchwyliaeth statudol a oedd yn cynnwys tair prif elfen, sef Fframwaith Sicrwydd, cynllun gweithlu manwl, a model goruchwylio wedi ei gostio’n llawn a fyddai’n sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru yn bodloni eu gofynion statudol yn unol â Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). Daeth y model diwygiedig i gael ei adnabod fel Sicrhau Goruchwylio ar gyfer y Dyfodol. Crëwyd grŵp llywio i ddarparu'r rhaglen waith hon, a gafodd ei hestyn er mwyn cynnwys darpariaeth fframwaith 'Atebolrwydd a Chyfrifoldeb’ i sicrhau y byddai'r AGLl a’r byrddau iechyd yn cyflawni eu gwahanol ddyletswyddau yn hyn o beth.

Lleisiwyd pryder hefyd ynglŷn â lle roedd swyddogaeth yr AGLl yn cael ei lletya, a chynhaliwyd gwaith gyda chyfreithwyr Llywodraeth Cymru er mwyn dod o hyd i leoliad addas arall ar gyfer yr AGLl y tu allan i AGIC. Roedd yr ail elfen hon o bryder yn fwy cymhleth, gan ei bod yn golygu newid i’r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ddirprwyo eu pwerau. Fodd bynnag, ers cyhoeddi adroddiad The Kings Fund i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth[7] ym mis Ionawr 2015, mae'r llif gwaith hwn wedi cael ei atal, gan fydd swyddogaeth yr AGLl yn cael ei diddymu yn y pen draw. Gosodir manylion pellach ar y newid sylweddol hwn nes ymlaen yn adran hon yr adroddiad.

Gweithiodd yr AGLl a'r Cyfarwyddwyr Nyrsio gyda chyfreithwyr o gydwasanaethau'r GIG a Llywodraeth Cymru er mwyn llunio Cytundeb Cydweithredu, Proffil Swydd a Manyleb Gwasanaeth, ac mae pob un wedi cael ei fabwysiadu. Diben y ddogfennaeth hon yw sicrhau bod goruchwylwyr bydwragedd yn glir ynglŷn â'u swyddogaeth a’r llinellau atebolrwydd yn y gwahanol sefydliadau, wrth iddynt weithio gyda'r AGLl ond parhau i gael eu cyflogi gan eu gwahanol fyrddau iechyd.

Aeth y model Sicrhau Goruchwylio ar gyfer y Dyfodol yn fyw ar 4 Awst 2014, â'r nod trosfwaol o wella ansawdd goruchwyliaeth statudol yng Nghymru, trwy benodi goruchwylwyr i weithio’n llawn amser gyda goruchwylwyr bydwragedd, am gyfnod cylchdroi o 18 mis. Mae'r goruchwylwyr bydwragedd yn ymroddedig i'r swyddogaeth goruchwylio, gan gynyddu eu hamlygrwydd a’u hygyrchedd i fydwragedd a defnyddwyr gwasanaeth.

---

[7] Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2014), Kings Fund independent review into the regulation of midwives. http://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/councilpapersanddocuments/council-2015/kings-fund-review.pdf?_t_id=1B2M2Y8AsgTpgAmY7PhCfg%3d%3d&_t_q=kings+fund&_t_tags=language%3aen%2csiteid%3ad6891695-0234-463b-bf74-1bfb02644b38&_t_ip=46.254.200.66&_t_hit.id=NMC_Web_Models_Media_DocumentFile/_9406792f-f891-484d-895f-f95dcd5fb82e&_t_hit.pos=1

Mae mynediad 24 awr at oruchwylydd bydwragedd trwy rif ar-alwad Cymru gyfan, 0300 062 8049, ar gyfer cyngor ar faterion yn ymwneud â goruchwyliaeth a safonau proffesiynol. Mae bydwragedd yn elwa mwy ar broses adolygu goruchwyliaeth flynyddol fwy cadarn, trwy oruchwyliaeth grŵp a rhannu arfer da. Mae gwerthuso goruchwyliaeth grŵp wedi bod yn gadarnhaol iawn hyd yn hyn, wrth i fydwragedd nodi dysgu cynyddol gan eu cymheiriaid. Mae proses archwilio AGLl yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio ar dreialu goruchwyliaeth grŵp gan yr arolygwyr lleyg, a'i chyfraniad at wella gofal bydwreigiaeth – sy'n cael ei ddisgrifio'n fanwl yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol sydd ynghlwm yn Atodiad 2.

Bydd y model Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol yn cael ei werthuso gan Grŵp Monitro a Gwerthuso, sy'n cwrdd yn chwarterol er mwyn asesu cynnydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol, sydd fel a ganlyn:

- **DPA 1** Yr AGLl i adolygu a diweddaru rhagolygon cynllunio'r gweithlu
- **DPA 2** Bydd cronfa ddata'r AGLl yn cael ei defnyddio i fonitro cwblhad goruchwylwyr bydwragedd o'r cynllun datblygu proffesiynol perthnasol
- **DPA 3** Bydd gan 100% o oruchwylwyr bydwragedd adolygiad goruchwylio blynyddol ac adolygiad perfformiad unigol sefydliadol
- **DPA 4** Bydd 100% o fydwragedd yn cydymffurfio â'r broses adolygu goruchwylio blynyddol – hap-archwiliadau o ansawdd gan yr AGLl
- **DPA 5** Bydd 100% o fydwragedd dan hyfforddiant yn gallu cadarnhau eu bod wedi cyfarfod â goruchwylydd bydwragedd o leiaf ddwywaith y flwyddyn
- **DPA 6** Bydd 100% o fydwragedd sydd newydd gymhwyso yn cyfarfod â goruchwylydd bydwragedd o leiaf ddwywaith o fewn chwe mis a thair gwaith o fewn blwyddyn i gytuno a monitro rhaglen preceptoriaeth
- **DPA 7** Cadw a storio cofnodion goruchwylwyr bydwragedd
- **DPA 8** Hap-archwiliadau o amseroedd ymateb ar-alwad goruchwylwyr bydwragedd – asesu tueddiadau a themâu er mwyn llywio datblygiadau gwasanaeth
- **DPA 9** Monitro prydlondeb ac ansawdd yr holl broses ymchwilio

Dylid darllen gweddill yr adroddiad hwn yng nghyd-destun darparu goruchwyliaeth mewn ffordd wahanol iawn i'r hyn sy'n cael ei ddarparu mewn mannau eraill ar draws y DU. Mae'r cymarebau goruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd yn cael eu cyfrifo â fformiwla arbennig, yn seiliedig ar oriau un goruchwylydd bydwragedd cyfwerth ag amser llawn, yn hytrach na rhaniad syml o'r nifer o fydwragedd wedi'u cyflogi gan y nifer o oruchwylwyr bydwragedd. Gellir gweld y ffigurau ar gyfer cyfrifo'r cymarebau goruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd yn Atodiad 1.

## 1.1 Cyd-destun gwleidyddol a rheoleiddiol ehangach goruchwylio stadudol

Yn 2013, cyhoeddwyd adroddiad gan Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaethau Iechyd Lloegr adroddiad, Goruchwylio a Rheoleiddio Bydwreigiaeth: *Argymhellion ar gyfer newid*[8]. Lleisiwyd pryderon yn yr adroddiad ynglŷn â’r amddiffyniad o’r cyhoedd roedd y trefniadau unigryw ar gyfer rheoleiddio bydwreigiaeth yn ei ganiatáu. Argymhellodd yr Ombwdsman i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth y dylai'r swyddogaeth rheoleiddio goruchwyliaeth statudol gael ei didoli oddi ar y swyddogaeth gynorthwyol, ac y dylai'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth reoli gweithgarwch rheoleiddio yn uniongyrchol.

O ganlyniad i adroddiad Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaethau Iechyd, comisiynodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth The Kings Fund i gynnal adolygiad annibynnol o reoleiddio bydwreigiaeth, a gwneud argymhellion i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Cynhaliwyd yr adolygiad ym mis Rhagfyr 2014, a gyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor ym mis Ionawr 2015. Gwnaeth The Kings Fund ddarganfod ‘*bod diffyg tystiolaeth ynglŷn â diogelwch ac effeithiolrwydd y gwahanol ddulliau o reoleiddio, ac nid oedd rheoleiddio bydwreigiaeth cyfredol i'w weld yn fwy neu yn llai diogel ar gyfer mamau a babanod na dulliau eraill o reoleiddio*’.

Aeth yr adroddiad rhagddo i ddarganfod ‘bod yr haen ychwanegol o reoleiddio ar gyfer bydwragedd yn ddryslyd i gleifion ac i’r cyhoedd, ac yn arwain at ddiffyg eglurdeb ar gyfer darparwyr gwasanaethau mamolaeth mewn perthynas â chyfrifoldebau pan fydd pethau yn mynd o'u lle, gan arwain at ddyblygu ymchwiliadau’.

Gwnaeth The Kings Fund argymell i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ‘y dylai'r haen ychwanegol o reoleiddio a oedd ar waith ar gyfer bydwragedd ddod i ben’, ond argymhellwyd hefyd ‘y dylai'r elfennau o oruchwyliaeth a datblygiad proffesiynol a ystyrir yn ddefnyddiol gael eu hystyried gan lywodraethau'r pedair gwlad, gan geisio ffyrdd o sicrhau bod y swyddogaethau gwerthfawr hyn yn cael eu hymgorffori o fewn y system iechyd’.

Derbyniodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth adroddiad The Kings Fund a'r argymhellion a wnaed ynddo. Fodd bynnag, er mwyn gweithredu’r newidiadau a argymhellir yno, bydd angen ailddrafftio sylweddol i'r ddeddfwriaeth a geir yn y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001). Y disgwyl yw, o ystyried y gwahanol gamau a fydd eu hangen er mwyn pasio'r fath newid i ddeddfwriaeth, ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw ddeddf newydd yn cael ei phasio am rhwng 18 mis a dwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r

---

[8] Parliamentary & Health Service Ombudsman (2013) Midwifery supervision and regulation: recommendations for change. The Stationery Office, London England

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi pwysleisio, tra bod y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn y llyfrau statudau, mai busnes fel arfer fydd hi ar gyfer goruchwylio bydwragedd.

Mae Cymru yn credu ei bod mewn sefyllfa gref i gynnal y *status quo,* gan ei bod wedi mynd trwy gyfnod sylweddol o reoli newid er mwyn cyflwyno'r model diwygiedig. Mae goruchwylwyr bydwragedd yn gallu bod yn sicr, wrth iddynt gwblhau eu cyfnod cylchdroi ar gyfer y model, y byddant yn mynd yn ôl i'w swydd wreiddiol. Mae swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl hefyd yn cyflawni'r swyddogaeth trwy secondiad, ac felly yn derbyn yr un lefel o ddiogelu swydd. Fodd bynnag, ac yn bwysicaf oll, roedd yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yng Nghymru wedi nodi llawer o'r risgiau a'r heriau a nodwyd gan yr Ombwdsmon y llynedd, ac fe weithredwyd y model diwygiedig er mwyn mynd i'r afael â nhw.

## 1.2 Y Gymhareb o oruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd

Mae Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru yn gyfrifol am benodi nifer briodol o oruchwylwyr bydwragedd er mwyn sicrhau bod gan bob bydwraig sy'n ymarfer yng Nghymru fynediad at oruchwyliaeth. Mae Rheol 9[9] Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ei gwneud yn ofynnol nad yw'r gymhareb Goruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd yn llai nag 1:15 fel rheol, ond mae'n rhaid iddi, o leiaf, adlewyrchu angen ac amgylchiadau lleol, heb beryglu diogelwch menywod. Ar 31 Mawrth 2015, roedd 16 o oruchwylwyr bydwragedd yn cael eu cyflogi, ac roedd 1,786 o fydwragedd wedi hysbysu'r Awdurdod Goruchwylio Lleol am eu bwriad i ymarfer bydwreigiaeth yng Nghymru yn ystod 2014-2015. Gan ddefnyddio'r gymhareb a gyfrifwyd, wedi'i chymhwyso, a geir yn Atodiad 1, y gymhareb ar gyfer Cymru gyfan, ar gyfartaledd, oedd 1.11. Mae Tabl 1 yn nodi'r gwir gymhareb ar gyfer pob un o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru.

[9]Mae Rheol 9 Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi cyfrifoldebau'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer goruchwylio bydwragedd.

## 1.3 Tabl 1 Cymhareb goruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd yng Nghymru ar 31 Mawrth 2015

| Bwrdd iechyd | Bydwragedd | Goruchwylwyr bydwragedd cyfwerth ag amser llawn | Oriau goruchwylwyr bydwragedd bob mis | Cymhareb wedi'i chymhwyso |
|---|---|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | 300 | 2.2 | 265 awr | 1:12 |
| Aneurin Bevan | 300 | 2.4 | 289 awr | 1:11 |
| Betsi Cadwaladr | 405 | 3.0 | 360 awr | 1:12 |
| Caerdydd a'r Fro | 282 | 2.2 | 265 awr | 1:11 |
| Cwm Taf | 210 | 1.6 | 192 awr | 1:12 |
| Hywel Dda | 205 | 1.8 | 216 awr | 1:10 |
| Powys | 43 | 0.4 | 48 awr | 1:11 |

## 1.4 Penodi goruchwylwyr bydwragedd, dad-ddethol, ymddiswyddo, a chaniatâd i fod yn absennol

Ym mis Awst 2014, penodwyd 13.6 goruchwylwyr bydwragedd cyfwerth ag amser llawn (16 o bobl) ar draws Gymru. Daeth pob person o gronfa o fydwragedd a oedd wedi mynd trwy broses ddethol gadarn ym mis Ionawr 2014, er mwyn paratoi ar gyfer model Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol.

### Tabl 2. Tueddiadau penodi a dad-ddethol ar gyfer y tair blynedd diwethaf

| Y nifer o oruchwylwyr bydwragedd | 2012-2013 | 2013-2014 | 2014-2015 |
|---|---|---|---|
| **A benodwyd yn ystod y flwyddyn** | **8** | **7** | **16 (13.6 cyfwerth ag amser llawn)** |
| **Wedi'u symud o'r swydd (dad-ddethol gan yr AGLl)** | **0** | **0** | **0** |
| **Wedi ymddiswyddo (dad-ddethol eu hunain)** | **21** | **27** | **85** |
| **Wedi'u gwahardd rhag y swydd (gwaharddiad gan yr AGLl)** | **0** | **0** | **0** |
| **Wedi'u hatal o'r swydd (hunan-ataliad)** | **0** | **0** | **0** |
| **Wedi dechrau ar y cwrs paratoi (mis Medi)** | **9 (2012)** | **0 (2013)** | **5 (2014)** |
| **Caniatâd i fod yn absennol** | **9** | **13** | **2** |
| **Nifer y goruchwylwyr bydwragedd mewn swyddi** | **130** | **101** | **16** |

Mae Tabl 2 yn dangos y nifer o oruchwylwyr bydwragedd sy'n dad-ddethol o'r rôl. Roedd y cynnydd sylweddol yn y nifer o ddad-ddetholiadau yn anochel yn sgil gweithredu arfaethedig y model Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol. Yn ystod y flwyddyn ymarfer hon, gwnaeth 85 o oruchwylwyr bydwragedd ymddeol o'r rôl flaenorol, ac mae dau o'r goruchwylwyr bydwragedd a benodwyd ar gyfer y model newydd wedi cymryd cyfnod o absenoldeb – un yn sgil cyfnod estynedig o salwch ac un ar gyfer cyfnod mamolaeth. Gwnaeth y gronfa o oruchwylwyr bydwragedd wrth gefn ddarparu'r staff angenrheidiol ar gyfer y newidiadau hyn, heb roi unrhyw bwysau ychwanegol ar gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn sicrhau bod goruchwylwyr bydwragedd yn bodloni gofynion Rheol 8,[10] mae'r AGLl wedi ymrwymo i sicrhau y gall yr holl oruchwylwyr bydwragedd a benodir yng Nghymru gael mynediad at o leiaf 6.5 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus bob blwyddyn, a chyfleoedd i ddiweddaru eu hymarfer. Mae pob goruchwylydd bydwragedd newydd ei benodi ar gyfer y model diwygiedig yn cwblhau modiwl lefel meistr gyda Phrifysgol Abertawe, i'w cynorthwyo i baratoi ar gyfer eu rôl newydd, a datblygu ynddi. Roedd hyn yn golygu eu bod yn rhagori ar safonau gofynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus trwy gwblhau'r rhaglen hon. Roedd pwyslais penodol ar y meysydd penodol o risg a nodwyd yn y model cyfredol, fel y nodwyd uchod, gan gynnwys hyfforddiant ychwanegol ar hwyluso goruchwyliaeth grŵp fel ffordd o ddarparu dysgu rhagweithiol drwy’r broses adolygu goruchwylio blynyddol, a sesiwn yn seiliedig ar sefyllfaoedd ar ddysgu o ddigwyddiadau a llunio amcanion dysgu effeithiol. Mae'r AGLl yn ddiolchgar i Brifysgol Abertawe am ei hyblygrwydd wrth gefnogi'r goruchwylwyr bydwragedd i addasu i ofynion y rôl ddiwygiedig.

Mae pob un o oruchwylwyr bydwragedd y model Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol wedi cael yr un cyfleoedd i fynychu cynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol, er mwyn sicrhau eu bod yn ehangu eu gwybodaeth ac yn cael profiad o weithio ar lefel strategol. Er enghraifft, mae goruchwylwyr bydwragedd wedi cysgodi Swyddogion Bydwragedd yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, yn eu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn â'r Prif Swyddog Nyrsio, Coleg Brenhinol Bydwragedd, a Grŵp Cyfeirio Strategol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae goruchwylwyr bydwragedd hefyd wedi cael y cyfle i fynychu'r cyfarfodydd rhannu gwybodaeth ar gyfer llywio adolygiad The Kings Fund, i gyfarfod â chynghorwyr Cronfa Risg Cymru er mwyn dysgu gwersi a ddysgwyd ar draws Cymru, ac i fynychu Grŵp Cynghori Penaethiaid Bydwreigiaeth, yn ogystal â Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdod Goruchwylio Lleol y DU, lle mae polisïau mamolaeth cenedlaethol yn cael eu trafod.

Roedd y digwyddiadau datblygu a rhannu gwybodaeth hyn yn cynnig cyfleoedd allweddol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i oruchwylwyr bydwragedd, ac roeddent yn arbennig o

[10]Mae Rheol 8 Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn gosod y gofyniad ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus fel goruchwylydd bydwragedd.

ddefnyddiol o ran galluogi goruchwylwyr bydwragedd i fireinio'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r newidiadau arfaethedig ar draws gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Ar ôl mynychu digwyddiadau o'r fath, gofynnir i bob goruchwylydd bydwragedd gwblhau adroddiad byr ar y fformat Sefyllfa, Cefndir, Gweithredu, Adolygu ar y dysgu allweddol, a all wedyn gael ei rannu â'r grŵp cyfan er mwyn sicrhau bod pob goruchwylydd bydwragedd yn elwa ar y dysgu.

Roedd yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn ystyriol o effaith bosibl gweithredu'r model Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol. Felly, gohiriwyd gweithdy blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer y flwyddyn ymarfer hon. Fodd bynnag, mae'r tîm presennol o oruchwylwyr bydwragedd wedi sefydlu is-grŵp ar gyfer cynllunio cynadleddau, sydd wedi arwain at ddatblygu cynhadledd Cymru gyfan, a gynhelir ym mis Mai 2015. Mae ar agor i bob bydwraig a phob myfyriwr bydwreigiaeth, nid goruchwylwyr bydwragedd yn unig fel yn y gorffennol. Themâu'r gynhadledd yw atebolrwydd proffesiynol, cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth,[11] a chyfrif y dyddiau i Ailddilysiad.[12]

## 1.5 Dulliau ar gyfer mynediad parhaus at oruchwylydd bydwragedd

Mae Rheol 9 Rheolau a Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi'r gofynion ar gyfer goruchwylio bydwragedd, ac mae'n nodi y bydd yr AGLl yn sicrhau:

- Bod gan bob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal oruchwylydd bydwragedd wedi ei enwi
- Bod pob goruchwylydd bydwragedd yn cyfarfod pob bydwraig y mae'n oruchwylydd bydwragedd a enwir ar ei chyfer o leiaf unwaith y flwyddyn, i adolygu ymarfer y fydwraig a nodi ei hanghenion hyfforddiant
- Bod pob goruchwylydd bydwragedd yn ei ardal yn cadw cofnodion o'i weithgareddau goruchwylio, gan gynnwys unrhyw gyfarfodydd gyda bydwraig
- Bod gan bob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal fynediad 24 awr at oruchwylydd bydwragedd

Neilltuir goruchwylydd bydwragedd a enwir i bob bydwraig ar ddechrau ei chyflogaeth. Mewn egwyddor, gall bydwragedd ddewis eu goruchwylydd bydwragedd a enwir, ond yn ymarferol, byddant yn cael eu neilltuo i'r goruchwylydd bydwragedd â'r llwyth gwaith

[11] Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015), Y Cod, Safonau proffesiynol o arfer ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd.

[12] Mae ailddilysiad yn broses a fydd yn cael ei gweithredu ym mis Ebrill 2016 gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Bydd yn rhaid i bob nyrs a phob bydwraig gymryd rhan er mwyn dangos eu bod yn ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol trwy gydol eu gyrfa.

ysgafnaf fel rheol. Os bydd bydwraig yn hunangyflogedig, byddai'r AGLl yn gofyn i oruchwylydd bydwragedd sy'n byw a/neu'n gweithio'n agos at leoliad y fydwraig, neu'n gallu teithio i'r lleoliad hwnnw, i gynnwys y fydwraig hunangyflogedig yn ei lwyth gwaith goruchwylio fel rheol. Hysbysir pob bydwraig a phob goruchwylydd bydwragedd y gallant wneud cais i newid eu goruchwylydd bydwragedd neu eu bydwraig, os nad yw'r berthynas yn effeithiol i'r naill ochr neu'r llall.

Yn ystod 2014-15, parhaodd yr AGLl i fonitro ei gronfa ddata bob tri mis ac, ar sail ad hoc, i sicrhau bod gan bob bydwraig yng Nghymru oruchwylydd bydwragedd a enwir. Gallwn hysbysu bod pob bydwraig a oedd yn ymarfer yng Nghymru yn ystod 2014-15 wedi bodloni'r gofyniad hwn. Defnyddiodd yr AGLl y gronfa ddata i fonitro hefyd, yn unol â'r safonau, a oedd adolygiadau goruchwylio blynyddol wedi cael eu cynnal. Cynhelir dadansoddiad o gronfa ddata'r AGLl bob tri mis i fonitro cydymffurfiad ag adolygiadau goruchwylio blynyddol. Ar 31 Mawrth 2015 roedd cydymffurfiad 100% â'r broses adolygu goruchwylio blynyddol, ac ar adeg yr adroddiad, roedd gan 99.2% o fydwragedd yng Nghymru adolygiad goruchwylio blynyddol wedi'i lanlwytho i gronfa ddata AGLl. Mae hon yn effaith gadarnhaol gan y model newydd, sy'n dangos tueddiad uwch na ffigur y llynedd o 97% yn cael ei adrodd i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Yn ystod y flwyddyn, mae cyfarfodydd chwarterol â phenaethiaid bydwreigiaeth, goruchwylwyr bydwragedd a swyddogion bydwragedd yr AGLl wedi defnyddio cerdyn sgorio wedi'i seilio ar y dangosyddion perfformiad allweddol er mwyn monitro cydymffurfiad â'r broses adolygu goruchwylio blynyddol. Mae pob goruchwylydd bydwragedd a phob bydwraig wedi cael eu hatgoffa'n barhaus am bwysigrwydd cydymffurfio â gofyniad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth am adolygiad goruchwylio blynyddol ystyrlon, ac ymrwymo iddo. Mae'r AGLl yn defnyddio'r gronfa ddata i gynnal adroddiadau ar unrhyw oruchwylwyr bydwragedd sydd ag adolygiadau goruchwylio blynyddol heb eu cyflawni, a rhoddir monitro perfformiad cadarn ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r broses adolygu goruchwylio blynyddol. Roedd yr AGLl yn gweithio'n galed gyda'r timau goruchwylwyr bydwragedd i drosglwyddo'r llwythi achosion, er mwyn sicrhau nad oedd goruchwylwyr bydwragedd y model Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol yn ymdrin â llwythi achosion trwm ar adeg y newid. Ar y cyfan, roedd y trosglwyddo'n weddol esmwyth, ac un sefydliad yn unig wedi gwneud llai o gynnydd na'r chwech arall.

Mae goruchwyliaeth grŵp, er mwyn mynd i'r afael â'r adolygiadau goruchwylio blynyddol, wedi bod yn llwyddiant heb ei ail, gan ennill calonnau llawer o fydwragedd, ac mewn rhai achosion goruchwylwyr bydwragedd, a oedd yn amheus am y cysyniad. Mae gwerthuso rheolaidd ar ôl pob sesiwn wedi nodi agweddau cadarnhaol megis dysgu gan bobl eraill a chael mewnwelediad i'r heriau mae grwpiau gwahanol o staff yn eu hwynebu, yn ogystal â darparu data cyfoethog er mwyn llywio datblygiad yn y dyfodol. Mae'r arloesedd hwn mewn

ymarfer goruchwylio yn rhagflaenydd pwysig i ailddilysiad, a fydd yn gofyn i bob person cofrestredig ymgymryd â 40 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus – mae'n rhaid i 20 o’r oriau hyn fod yn gyfranogol. Wrth feddwl am yr elfennau o oruchwyliaeth yr hoffai Cymru eu cadw, a'u rhoi ar waith yn y gymuned nyrsio, gellid gweld goruchwyliaeth grŵp fel rhaglen beilot er mwyn llywio a datblygu'r ffordd ymlaen.

Mae'r rota ar alwad Cymru gyfan bellach yn gweithio'n dda, ar ôl cael nifer o broblemau cychwynnol ynglŷn â system ar-alwad Llywodraeth Cymru ar y dechrau un. Mae pob cyfathrebiad, boed hynny gan ddefnyddwyr gwasanaeth, aelodau o'r cyhoedd neu fydwragedd, yn cael eu cofnodi ar fformat Sefyllfa, Cefndir, Gweithredu, Adolygu, ac mae tueddiadau a themâu'n cael eu coladu'n fisol er mwyn llywio gwella neu newid gwasanaethau yn ôl yr angen. Mae tueddiadau a themâu'n cael eu coladu mewn adroddiadau pob chwe mis, sydd wedyn yn cael eu monitro yng nghyfarfod misol goruchwylwyr bydwragedd. Mae adolygwyr lleyg yr AGLl wedi gwneud gwaith ychwanegol ar y dangosydd perfformiad allweddol hwn er mwyn sicrhau y gellir craffu ar gasglu data trwy ymchwilio ansoddol pellach gyda menywod a bydwragedd, ynglŷn ag a yw'r cyfathrebu wedi cyflawni'r canlyniad a geisiwyd. Mae darllen adroddiad archwilio adolygwyr lleyg yr AGLl yn datgelu data diddorol ar gynnydd y dangosydd perfformiad allweddol hwn, yn ogystal â nodi meysydd pellach i'w gwella.

Cwblhawyd yr archwiliad ffôn, a gynhaliwyd gan dîm o adolygwyr lleyg, yn ystod y flwyddyn ac unwaith eto ar ddiwedd y flwyddyn, fel rhan o'r broses archwilio flynyddol, ac er mwyn cymharu'r hen system â rhif Cymru gyfan. Gwnaeth yr arolygwyr lleyg ehangu cylch gwaith eu harchwiliad ar ddiwedd y flwyddyn, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ba mor hawdd roedd defnyddiwr gwasanaeth neu aelod o'r cyhoedd yn gallu dysgu am oruchwyliaeth i ddechrau, ac wedyn dysgu sut i gysylltu â goruchwylydd bydwragedd.  Roedd hyn yn cynnwys cysylltu â goruchwylydd bydwragedd yn ystod oriau gwaith arferol rhwng 9 a.m. a 5 p.m., o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ogystal ag y tu allan i oriau gwaith arferol ac ar y penwythnos. Unwaith eto, mae manylder cyflawn gwaith yr arolygwyr lleyg – sydd ar gael yn yr adroddiad archwilio goruchwyliaeth blynyddol ynghlwm – yn ei wneud yn ddiddorol ei ddarllen. Roedd hefyd rhai argymhellion pwysig er mwyn gwella arfer. Bydd yr AGLl yn eu rhoi ar waith trwy gynllun gwella fel rhan o gynllun gwaith 2015-2016.

Mae swyddogion bydwreigiaeth y AGLl yn cynnal cyfarfodydd rheoli perfformiad misol â goruchwylwyr bydwragedd ar draws Cymru. Mae'r cyfarfod misol hwn, sydd â'r prif nod o reoli cydymffurfiad â'r dangosyddion perfformiad allweddol a nodir yn y fanyleb wasanaeth, hefyd yn galluogi goruchwylwyr bydwragedd i adeiladu tîm cydlynol ac i ffurfio rhwydwaith cefnogol. Mae hyn yn hanfodol gan fod bellach nifer lai o oruchwylwyr bydwragedd – sy'n gweithio mewn ffordd wahanol iawn i'r model blaenorol.

## 2. Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y broses o oruchwylio

Gwnaeth yr AGLl yng Nghymru benodi pedwar adolygydd lleyg newydd yn 2013 i gefnogi'r AGLl yn ei waith. Dewiswyd y rhain o 15 ymgeisydd uchel eu hansawdd. Roedd pob adolygydd lleyg yn cael ei gefnogi gan gynllun ymsefydlu cadarn, ac roedd ganddo'r cyfle i gysgodi'r adolygwyr a oedd yn gadael y swydd cyn iddo weithio ar ei ben ei hun. Diben swyddogaeth yr adolygydd lleyg yw sicrhau bod safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth wedi ei ymgorffori yng ngwaith goruchwylwyr bydwragedd. Gadawodd y garfan gyntaf o adolygwyr lleyg ar ôl cwblhau eu daliadaeth ym mis Gorffennaf 2014. Maent ei gyd wedi cael eu gwahodd i ddefnyddio eu sgiliau a'u profiad mewn swyddogaethau adolygydd lleyg AGIC, wrth reoleiddio ac arolygu gwasanaethau'r GIG.

Mae adolygwyr lleyg yr AGLl wedi cymryd rhan yn ei waith yn ystod 2014-2015 yn y ffyrdd canlynol:

- Cyfrannu at recriwtio goruchwylwyr bydwragedd ar gyfer y model newydd, arsylwi ar oruchwylwyr bydwragedd mewn amgylchedd gweithdy, ac eistedd ar y panel cyfweld. Roedd adolygwyr lleyg yn asesu agwedd y goruchwylwyr bydwragedd a'u hagwedd tuag at ddewisiadau menywod a gofal wedi ei bersonoli
- Datblygu taflen i esbonio'r model newydd ar gyfer goruchwylio yng Nghymru, ac yn fwy cyffredinol, codi ymwybyddiaeth defnyddwyr gwasanaeth o rôl goruchwylwyr
- Cyfrannu at Grŵp Monitro a Gwerthuso Cymru Gyfan yr AGLl, a sefydlwyd er mwyn monitro a gwerthuso'r dystiolaeth a geir gan y dangosyddion perfformiad allweddol, â'r nod o ddangos gwerth goruchwyliaeth. Fel rhan o'r aelodaeth hon, cynigiodd yr arolygwyr lleyg ehangu'r dangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaeth. Cafodd hyn ei gymeradwyo a'i ehangu'n rhaglen archwilio arolygwyr lleyg, fel yr amlinellir yn Adran 1.2
- Mynychu cyfarfodydd misol goruchwylwyr bydwragedd er mwyn gwybod y diweddaraf am eu gweithgareddau, monitro cydymffurfiad â'r fanyleb wasanaeth ar gyfer goruchwyliaeth, ac adolygu cynnydd tuag at gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol
- Cyfrannu at y wybodaeth wedi'i diweddaru yn y model newydd ar gyfer goruchwyliaeth yng Nghymru, a fydd yn cael ei chynnwys yn y cofnodion cleifion llaw ar gyfer menywod beichiog
- Cymryd rhan yn adolygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ym mis Rhagfyr 2014, a oedd yn cynnwys gweithdy gyda thîm adolygu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, er mwyn rhannu persbectif adolygwyr lleyg ar gynnydd goruchwyliaeth bydwragedd statudol yng Nghymru

- Cyfweld darpar oruchwylwyr bydwragedd a wnaeth gais i ymuno â'r model newydd ar gyfer goruchwylio bydwragedd, a goruchwylwyr bydwragedd sydd wrthi'n gwneud cais i gymryd rhan yn rhaglen paratoi goruchwylwyr bydwragedd Prifysgol Abertawe. Roedd yr adolygwyr lleyg yn arsylwi ar y myfyrwyr a'r goruchwylwyr bydwragedd a'u hasesu yn y corlannau gwaith. Roeddent hefyd yn rhan o'r panel cyfweld
- Cynorthwyo yn y broses ddethol ar gyfer rôl swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl

Roedd cyfathrebu uniongyrchol rhwng defnyddwyr gwasanaeth â'r AGLl neu oruchwylwyr bydwragedd yn gymharol gyfyng o hyd, cyn gweithredu'r model newydd ar gyfer goruchwylio. Fodd bynnag, yn ystod y broses archwilio flynyddol, gwelodd yr adolygwyr lleyg nifer o enghreifftiau lle roedd menywod yn cael eu cyfeirio at oruchwylwyr bydwragedd gan fydwragedd. Gwnaeth archwiliad o gyfathrebiadau Sefyllfa, Cefndir, Gweithredu, Adolygu, fel rhan o'r archwiliad blynyddol o bersbectif menywod ar oruchwyliaeth, hefyd nodi bod nifer gynyddol o fenywod wedi cysylltu â goruchwylydd bydwragedd ers mis Awst 2014. Mae adroddiad archwilio adolygwyr lleyg yr AGLl, sydd ynghlwm yn Atodiad 2, yn nodi'r manylion ynglŷn â hyn ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Canfuwyd mai’r rheswm mwyaf cyffredin pam mae menyw angen siarad â goruchwylydd bydwragedd yw ei bod eisiau gwneud dewisiadau y tu allan i’r llwybrau gofal arferol. Mae angen i ddefnyddwyr gwasanaeth gael eglurder o hyd o ran swyddogaeth goruchwylio, gan y gall fod yn aneglur weithiau a yw unigolyn yn cael ei gysylltu fel goruchwylydd bydwragedd neu reolwr. Gwnaeth yr adolygwyr lleyg lunio taflen Cymru gyfan er mwyn esbonio’r model Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol, ac yn fwy cyffredinol codi ymwybyddiaeth defnyddwyr gwasanaeth yng Nghymru o rôl goruchwylwyr (ar gael yn **http://www.hiw.org.uk/supervise-midwives**).

Cyn gweithredu'r model diwygiedig ar gyfer goruchwyliaeth, roedd y broses archwilio flynyddol yn cynnwys ymweliadau archwilio gan yr AGLl, gydag arolygwyr lleyg, â phob un o'r saith bwrdd iechyd – a oedd yn cynnwys cyfarfodydd, cyflwyniadau, a thaith o gwmpas er mwyn gwneud arsylwadau cyffredinol. Roedd y broses hon yn sicrhau ciplun ar weithrediad goruchwyliaeth ym mhob rhanbarth. O ystyried bod y goruchwylwyr bydwragedd yn dîm bach o 15 o bobl, sydd bellach yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r AGLl o dan y Cytundeb Cydweithiol, ni fyddai'r broses hon yn ddigon cadarn nac yn ddigon diduedd ar gyfer archwilio safon goruchwyliaeth yng Nghymru.

Hefyd, ym mis Rhagfyr 2014, cynhaliodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth adolygiad cyflawn o oruchwyliaeth yng Nghymru. Roedd canlyniad yr adolygiad hwn yn hollol gadarnhaol – ac ni chafodd un maes o bryder ei leisio. Cytunwyd felly nad oedd gwerth mewn dyblygu adolygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth – ond roedd yn bwysig nodi prif rannau'r model newydd na chraffwyd arnynt yn flaenorol. Nodwyd nad oedd ond ychydig o waith wedi'i

wneud yn y flwyddyn flaenorol ar bersbectif y defnyddiwr gwasanaeth, na sut roedd menywod yn teimlo ynglŷn â chysylltu â goruchwylydd bydwragedd. Gan fod adolygydd lleyg yn eistedd ar Grŵp Monitro a Gwerthuso Cymru Gyfan, cytunwyd ar gynnig i estyn y dangosydd perfformiad allweddol sy'n ymwneud â phrofiad defnyddwyr gwasanaeth. Roedd y cynnig yn nodi rhannau o'r model a allant gael eu hadolygu gan adolygwyr lleyg, fel y gwelir yn Nhabl 5. Gosodir canlyniadau proses archwilio'r adolygwyr lleyg yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol (gweler Atodiad 2).

## 2.1 Tabl 3 – Meysydd o ddarpariaeth goruchwylwyr bydwragedd a oedd yn rhan o archwiliad adolygwyr lleyg yr AGLl

| Maes i'w Archwilio | Trosolwg |
|---|---|
| A1) Profiad y Defnyddiwr Gwasanaeth | Mae'n hanfodol bod goruchwyliaeth bydwragedd yn darparu cyngor priodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth (defnyddwyr sy'n fydwragedd a'r rhai nad ydynt yn fydwragedd), a bod defnyddwyr gwasanaeth yn fodlon ar y gwasanaeth maent wedi'i dderbyn. Roedd y maes hwn o'r archwiliad yn edrych ar y broses o ddarparu cyngor trwy'r system ar-alwad newydd, a bodlonrwydd cyffredinol defnyddwyr gwasanaeth ar y cyngor a roddwyd gan oruchwylwyr. |
| A2) Goruchwyliaeth Grŵp a Datblygiad Proffesiynol Parhaus | Mae adolygiadau blynyddol rhwng bydwragedd unigol a'u goruchwylwyr wedi cael eu disodli o dan y model newydd, i raddau helaeth, gan oruchwyliaeth grŵp sy'n defnyddio dull gweithredol o ddysgu. Mae cynlluniau datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer bydwragedd yn cael eu datblygu o ganlyniad i oruchwyliaeth grŵp. Roedd y maes hwn o archwilio yn ystyried a yw ansawdd y prosesau newydd hyn yn ddigon uchel i wella amddiffyn y cyhoedd trwy ddilysu datblygiad proffesiynol parhaus bydwragedd, ac a yw hyn yn gwella'r gwasanaeth a gynigir i fenywod a'u teuluoedd. |
| A3) Mynediad Hygyrch gan Oruchwylwyr Bydwragedd at Fenywod a'u Teuluoedd | Mae'r model newydd ar gyfer goruchwyliaeth yng Nghymru'n cynnwys rhif ar-alwad sengl cyffredin, er mwyn i fenywod a'u teuluoedd gysylltu â goruchwylydd. Roedd yr agwedd hon ar archwilio'n ystyried a yw'r wybodaeth ynglŷn â goruchwylio bydwragedd yng Nghymru yn gyfredol ac yn hygyrch, ac a oes cyfeiriadau teg at y rhif ar-alwad newydd. |

Roedd canlyniadau'r uchod yn dangos bodlonrwydd cadarnhaol ymhlith defnyddwyr y rhif cyswllt hwn. Yn benodol, roedd y defnyddwyr gwasanaeth yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth

roedd y goruchwylwyr bydwragedd yn ei ddarparu, gan gynnwys yr ateb prydlon, nodweddion personol y goruchwylwyr bydwragedd, a'u gallu i ddarparu cysur emosiynol. Tynnodd defnyddwyr gwasanaeth sylw at y mater parhaus ynglŷn â chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaeth goruchwylwyr bydwragedd. Nododd yr archwiliad adborth cadarnhaol ynglŷn â defnyddio goruchwyliaeth grŵp ar gyfer bydwragedd. Daeth yr adolygwyr lleyg i'r casgliad bod y cysyniad o oruchwyliaeth grŵp yn fecanwaith effeithiol i sicrhau bod arfer bydwragedd yn cael ei adolygu er mwyn gwella amddiffyn y cyhoedd, a'i fod yn caniatáu rhannu arfer da a dysgu ar y cyd.

Yn ystod y flwyddyn, mae tîm goruchwylwyr bydwragedd hefyd wedi gweithio'n agos gyda dŵlas lleol ar draws Cymru er mwyn sefydlu gwasanaeth sy'n hyrwyddo pwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd, a gwerthfawrogi rolau ein gilydd, er mwyn sicrhau'r amcan terfynol o ddiogelu iechyd mamau a'u babanod. Gwnaeth goruchwylwyr bydwragedd lleol gysylltu â dŵlas ar draws Cymru, a'u gwahodd i fynychu un o gyfarfodydd misol y goruchwylwyr bydwragedd. Derbyniwyd y gwahoddiad hwn gan nifer o ddŵlas, ac ym mis Ebrill 2015, gwnaethant fynychu cyfarfod er mwyn trafod gweithio mewn partneriaeth. Cytunodd pawb a oedd yn bresennol eu bod i gyd wedi cyrraedd dealltwriaeth glir o rolau ei gilydd. Er mwyn cryfhau'r bartneriaeth hon, cytunwyd y byddai goruchwylydd bydwragedd yn cael ei ddynodi fel cyswllt a enwir ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru er mwyn cefnogi'r dŵlas yn eu rôl. Byddai'r goruchwylydd bydwragedd a enwir yn sicrhau bod y sianeli cyfathrebu rhwng y fenyw, y ddŵla, y fydwraig a rheolwyr yn glir, er mwyn sicrhau bod gofynion y fenyw yn cael eu trafod ac yn derbyn sylw, o fewn y cylch gwaith o gynnal iechyd a lles y fenyw a'r baban.

## 2.2 Trosolwg o weithgarwch archwilio'r AGLl – nodi risgiau a gwireddu manteision

Nid oedd y broses archwilio flynyddol a gyflwynwyd yn 2011 yn cael ei hystyried yn addas i'r diben erbyn hyn, gan fod goruchwylwyr bydwragedd bellach yn gweithio fel rhan o'r AGLl, a fyddai hyn yn gyfystyr â'r AGLl yn ei archwilio ei hun. Fel rhan o drefn gychwynnol y model diwygiedig ar gyfer goruchwyliaeth, roedd yr AGLl wedi cytuno y byddai'n rhaid iddo ystyried y ffordd orau o gynnal adroddiad archwilio blynyddol cadarn a fyddai'n dangos tryloywder, ac yn osgoi'r posibilrwydd o wrthdrawiad buddiannau canfyddedig. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn arbennig o bwysig gan mai hwn fyddai'r archwiliad cyntaf o'r model diwygiedig, a byddai angen lefel uwch o sicrwydd ar randdeiliaid nad oedd y newid i sut roedd goruchwyliaeth yng Nghymru'n cael ei chyflawni'n cael unrhyw ganlyniadau niweidiol, anfwriadol. Hefyd, roedd adroddiadau diweddar wedi beirniadu goruchwylio statudol mewn mannau eraill yn y DU, gan ei chanfod yn fewnblyg a rhywfaint yn ynysol, neu ar wahân i strwythurau llywodraethu prif ffrwd o fewn y GIG. Roedd Cymru yn awyddus i osgoi beirniadaeth debyg o'r model diwygiedig.

O ganlyniad, gwnaeth yr AGLl gynllunio proses archwilio i efelychu'r hyn a ddefnyddir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, lle y byddai tîm allanol, a oedd yn cynnwys swyddog bydwreigiaeth yr AGLl, goruchwylydd bydwragedd profiadol, pennaeth bydwreigiaeth ac adolygydd lleyg, pob un ohonynt o'r tu allan i Gymru, yn cael ei wahodd i gynnal y broses archwilio, gan ddefnyddio Rheolau a Safonau Bydwragedd fel y meincnod ar gyfer yr archwilio. Mewn gwirionedd, ni ddigwyddodd y broses hon yn ystod y flwyddyn archwilio hon, gan i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei hun ddewis  Cymru ar gyfer adolygiad gan y tîm Sicrhau Ansawdd, wedi'i hwyluso gan Mott MacDonald. Yn y bôn, ni fyddai'r AGLl ond wedi bod yn dyblygu'r un broses. Nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn ddefnydd da o amser ac adnoddau. Mae'n bwysig nodi, gan fod y tîm archwilio'n cael ei ddewis yn annibynnol i'r AGLl yng Nghymru, y byddai hyn yn rhoi gwell sicrwydd i'r cyhoedd ynglŷn ag a oedd y model diwygiedig yn bodloni'r safonau a osodir gan y rheoleiddiwr neu beidio.

Cyflwynir adroddiad archwilio blynyddol adolygwyr lleyg yr AGLl yn llawn o fewn y ddogfen hon yn Atodiad 2, a gellir gweld yr Adroddiad Sicrhau Ansawdd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn http://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/midwifery-lsa-reports/lsa-reports-2014-2015/healthcare-inspectorate-wales_9-11dec2014_lsa-review-report_final_nmc-approved.pdf. Mae proses adolygiad Mott MacDonald a phrif bwyntiau'r canfyddiadau'n cael eu hadrodd isod.

Fframwaith Sicrhau Ansawdd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yw'r dull mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Goruchwylio Lleol yn parhau i fodloni'r rheolau a'r safonau. Yn benodol, mae Rheol 11 Rheolau a Safonau Bydwragedd (2012) yn amlinellu'r fframwaith sicrhau ansawdd, ac yn darparu dull strwythuredig ar gyfer adolygu AGLl, er mwyn dangos effeithiolrwydd goruchwyliaeth bydwragedd ar arfer da, wrth dynnu sylw at feysydd sy'n peri pryder. Mae adolygiadau'n ystyried hunan-adrodd gan yr AGLl, ac yn cynnwys gwybodaeth o nifer o ffynonellau eraill, a allai tynnu sylw at risgiau posibl sy'n gysylltiedig â goruchwyliaeth bydwragedd. Nid yw ffocws y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer adolygiadau, fodd bynnag, yn seiliedig ar risg yn unig. Gall AGLl gael ei ddewis ar gyfer adolygiad ar sail ffactorau thematig neu ddaearyddol, fel roedd yn wir yn achos yr AGLl yng Nghymru, gan ei fod wedi mynd trwy newidiadau sylweddol i'r rheolaeth yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae'r tîm adolygu'n nodi sut mae'r AGLl, wrth gael ei archwilio, wedi perfformio yn erbyn risgiau allweddol a nodir ar ddechrau'r cylchred o adolygiadau. Dyfernir bod safonau 'wedi cael eu bodloni', 'heb gael eu bodloni' neu 'angen gwelliant'. Pan nad yw safon yn cael ei bodloni, cytunir ar gynllun gweithredu'n ffurfiol gyda'r AGLl, sy'n cael ei gyflawni o fewn amserlen y cytunir arni.

Cynhaliwyd adolygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth dros dridiau, ac ymwelwyd â'r gwasanaethau bydwreigiaeth canlynol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg: Ysbyty Singleton, Abertawe – Gwasanaethau Bydwreigiaeth – Ward 19 ac Uned o dan Arweiniad Bydwragedd; Clinig Ôl-enedigol ac Uned Asesu Dydd; Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr – Gwasanaethau Bydwreigiaeth – Ward 12
- Prifysgol Abertawe, Ysgol Bydwreigiaeth – sy'n darparu'r rhaglen paratoi goruchwylwyr bydwragedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Ysbyty Maelor Wrecsam – Gwasanaethau Bydwreigiaeth – Clinig Ôl-enedigol; Ward Cyn-geni ac Ôl-enedigol, Uned o dan Arweiniad Bydwragedd ac Adran Rhoi Genedigaeth
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys – Canolfan Geni'r Trallwng.

Cynlluniwyd yr ymweliadau ymarfer er mwyn galluogi'r tîm adolygu i samplu ardal ddaearyddol gymaint ag y bo modd, e.e. gogledd a de Cymru, ac i ymweld â darparwyr gwasanaethau bydwreigiaeth sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau gwledig a chymunedau trefol.  Mae gan dîm yr AGLl gynllun ar gyfer cynnal ymweliadau archwilio â phob ardal bwrdd iechyd yng Nghymru yn ystod 2015-2016, er mwyn dilyn yr argymhellion a wnaed yn ystod proses archwilio adolygwyr lleyg 2014-2015. Bydd yr ymweliadau archwilio'n monitro cydymffurfiad â'r dangosyddion perfformiad allweddol, ac yn rhoi sicrwydd pellach i'r byrddau iechyd bod safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu bodloni.

## 2.3 Crynodeb o amddiffyn y cyhoedd, cyd-destun a chanfyddiadau

Rôl strategol Awdurdod Goruchwylio Lleol AGIC yw pennu'r cyfeiriad ar gyfer goruchwylio bydwragedd yn unol â Rheolau a Safonau Bydwragedd (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2012). Mae canfyddiadau'r archwiliad yn dangos bod AGLl AGIC yn sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith ar gyfer monitro perfformiad y goruchwylwyr bydwragedd a bydwragedd sy'n ymarfer ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael ei amddiffyn. Roedd y broses adolygu'n mesur darpariaeth goruchwyliaeth yng Nghymru yn erbyn y saith rheol berthnasol yn Rheolau a Safonau Bydwragedd (2012). Yn ôl y tîm adolygu, roedd yr AGLl yng Nghymru yn bodloni pob un o'r saith rheol. Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella, a nodwyd dau faes yn unig ar gyfer adolygu yn y dyfodol, sef:

- Gweithredu parhaus o'r model Sicrhau Goruchwylio ar gyfer y Dyfodol ar draws Cymru

- Cynnal y gymhareb o oruchwylwyr bydwragedd i fydwragedd ar y gymhareb a argymhellir o 1:15 ar draws yr AGLl

Er canlyniad cryf proses adolygu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, roedd y Grŵp Monitro a Gwerthuso – a sefydlwyd er mwyn arolygu gwaith parhaus yr AGLl trwy'r model diwygiedig – yn teimlo bod y ffocws ar bersbectif y defnyddiwr gwasanaeth ers cyflwyno'r model newydd wedi bod yn gyfyng. Cytunwyd felly y byddai'r adolygwyr lleyg yn cynnal darn o waith archwilio diffwdan er mwyn ychwanegu at adolygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a sicrhau bod persbectif y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei ystyried. Mae canfyddiadau eu gwaith wedi'u cyflwyno yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol fel rhan o'r ddogfen hon (Atodiad 2).

## 2.4 Ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch

Ceir pedwar Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru (SAUau), ac mae pob un yn cynnig addysg bydwreigiaeth cyn ac ar ôl cofrestru.  Yn ystod y flwyddyn, bu goruchwylwyr bydwragedd wrthi'n ymgysylltu â phob SAU i sicrhau bod myfyrwyr yn gyfarwydd â'r syniad o oruchwyliaeth a'i phwysigrwydd wrth baratoi ar gyfer cofrestru fel bydwraig. Cynigiwyd nifer o gyfleoedd i fyfyrwyr brofi goruchwyliaeth ar waith, megis bod myfyrwyr trydedd flwyddyn yn cysgodi eu mentor pan oeddent yn cyfarfod â'u goruchwylydd bydwragedd a enwir am drafodaeth oruchwylio.

Mae dangosydd perfformiad allweddol (DPA) 6 yn y fanyleb wasanaeth yn canolbwyntio ar y cyswllt rhwng goruchwylwyr bydwragedd a myfyrwyr, gan fwy na bodloni'r gofynion yn Rheol 9 Rheolau a Safonau Bydwragedd 1.1.2.[13] Yn ôl DPA 6, mae'n ofynnol i 100% o fydwragedd sydd newydd gymhwyso gyfarfod â goruchwylydd bydwragedd o leiaf ddwywaith o fewn chwe mis a thair gwaith ymhen blwyddyn i gytuno ar raglen preceptoriaeth, a'i monitro. Mae'r cyswllt agosach hwn â bydwragedd dan hyfforddiant wedi galluogi goruchwylwyr bydwragedd i fonitro pryderon yn yr amgylchedd clinigol, a allai fel arall fod wedi cael effaith niweidiol ar raglen hyfforddi myfyrwyr.

Hysbyswyd yr AGLl am ddau bryder o'r fath a fynegwyd gan fyfyrwyr trwy'r goruchwylydd bydwragedd lleol, ac un pryder ychwanegol ynghylch niferoedd myfyrwyr yn y dyfodol a nodwyd gan y bydwragedd arweiniol ar gyfer addysg. Sbardunodd hyn swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl i gyfarfod â'r penaethiaid bydwreigiaeth ac i ysgrifennu'n ffurfiol i ofyn am gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon os canfyddir eu bod yn ddilys. Roedd

[13] Mae Rheol 9 o Reolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn nodi y dylai'r AGLl feddu ar fframwaith i gefnogi bydwragedd dan hyfforddiant er mwyn iddynt gael mynediad at oruchwylydd bydwragedd.

y penaethiaid bydwreigiaeth yn gallu rhoi sicrwydd digonol bod cynlluniau priodol ar waith lle bu problemau staffio o’r blaen er mwyn mynd i'r afael â hyn. Roeddent hefyd yn gallu dangos i'r AGLl pa gamau a gymerwyd, gydag enghreifftiau o adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr o ganlyniad. Hysbyswyd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth am y pryderon hyn trwy'r broses monitro ansawdd chwarterol a'r tîm Sicrhau Ansawdd. Gwnaed hyn cyn bod y fframwaith sicrhau ansawdd yn adolygu'r ymweliad, er mwyn rhoi cyfle iddynt ddilysu'r camau gweithredu a gymerwyd i unioni'r mater.

Mae’r AGLl mewn cysylltiad rheolaidd â bydwragedd arweiniol ar gyfer addysg ledled Cymru, sy’n cynnwys mynychu grŵp addysg penaethiaid bydwreigiaeth bob tri mis.  Mae cynrychiolaeth gan y bydwragedd arweiniol ar gyfer addysg, a'r uwch-ddarlithydd sy'n gyfrifol am baratoi goruchwylwyr bydwragedd dan hyfforddiant, yng ngrŵp monitro a gwerthuso'r AGLl.  Mae dogfennau adolygiadau goruchwylio blynyddol Cymru gyfan yn ei gwneud yn ofynnol i oruchwylwyr bydwragedd drafod gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer addysg â bydwragedd, a gwirio bod bydwragedd yn cydymffurfio â’r ‘statws cadarnhau mentor’. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gwbl gyfarwydd â’u swyddogaethau a’u cyfrifoldebau wrth fentora a chefnogi bydwragedd dan hyfforddiant neu fydwragedd sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn eu gwaith.

Darperir y rhaglen Paratoi Goruchwylwyr Bydwragedd gan Brifysgol Abertawe, a derbyniwyd sylwadau ac adborth cadarnhaol iawn gan y goruchwylwyr bydwragedd a fynychodd y rhaglen ddatblygu er mwyn ategu'r broses o bontio i'r model diwygiedig o oruchwylio. Mae'r rhaglen arfaethedig wedi'i sefydlu i gefnogi goruchwylwyr bydwragedd dan hyfforddiant a'r garfan o oruchwylwyr bydwragedd a ddaw nesaf, yn barod ar gyfer y broses o gamu arno/camu i ffwrdd sydd i fod i ddigwydd ym mis Awst 2015. Mae swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl wedi bod ynghlwm wrth y gwaith o gynllunio’r cwricwlwm ac wedi bod yn cyfrannu'n weithgar at ddarparu'r rhaglen.

Mae cynrychiolydd y sefydliadau addysg uwch yng ngrŵp monitro a gwerthuso'r AGLl wedi bod wrthi'n cefnogi'r AGLl i ddod o hyd i adnoddau er mwyn cynnal gwerthusiad ffurfiol o'r model diogelu goruchwyliaeth ar gyfer y dyfodol.   Cytunwyd â chynghorydd polisi Llywodraeth Cymru bod angen cynnal gwerthusiad trylwyr pellach o'r elfen goruchwylio grŵp, oherwydd gallai'r model hwn ddylanwadu ar y broses o ail-ddilysu holl gofrestriadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn y dyfodol. Mae AGIC wedi cytuno i ariannu gwerthusiad ar raddfa fach, a wneir gan yr Athro Susanne Darra o Brifysgol Abertawe, a fydd yn canolbwyntio ar oruchwyliaeth grŵp fel elfen benodol o'r model diogelu goruchwyliaeth ar gyfer y dyfodol.

# 3. Tueddiadau sy'n effeithio neu a allai effeithio ar arfer bydwragedd yn y dyfodol

## 3.1 Gofynion gweithlu bydwreigiaeth ac aciwtedd

Yn dilyn adroddiad Ymchwiliad Francis[14] ac Adolygiad Berwick[15] ar ddiogelwch cleifion, gofynnodd yr Adran Iechyd a'r GIG yn Lloegr i NICE lunio canllawiau ar gapasiti diogel a galluedd staffio'r GIG. Arweiniodd hyn at ymgynghoriad amlddisgyblaethol ar staffio bydwreigiaeth mewn lleoliadau mamolaeth o fis Chwefror i fis Mawrth 2014. Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd NICE y canllaw Safe midwifery staffing for maternity settings.[16] Mae'r argymhellion yn nodi:

- Cyfrifoldebau rheolwyr ysbytai a chamau gweithredu y dylai sefydliadau eu hystyried fel rhan o'r broses o gynllunio staff bydwreigiaeth
- Y broses barhaus y dylai uwch fydwragedd cofrestredig ei defnyddio i fesur a oes digon o staff ar gael i fodloni anghenion menywod a babanod
- Baneri coch sy'n rhybuddio pan fo angen gweithredu ar unwaith

Nid yw canllaw NICE (2015) yn cwmpasu'r broses o gynllunio gweithlu ar lefel genedlaethol na rhanbarthol, er y dylai'r cynnwys ddylanwadu ar y meysydd hyn. Mae gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru yn defnyddio Birthrate Plus,[17] fel sy'n ofynnol gan Gronfa Risg Cymru.[18] Er bod Birthrate Plus yn ceisio mynd i'r afael â chymhlethdod a modelau gofal gwasanaethau mamolaeth, mae'r modd o gyfrifo faint o fydwragedd sydd eu hangen yn gymhleth. Gyda chymhlethdodau cymdeithasol a meddygol cynyddol yng ngwasanaethau mamolaeth, ynghyd â'r angen i gynnal ansawdd, gall dull Birthrate Plus, sy'n ddeunaw oed bellach, danbrisio holl agweddau rôl y fydwraig (Tolofari, 2014).[19] Roedd disgyniad o 2% yn y gyfradd genedigaethau yng Nghymru yn 2013. Cwympodd y nifer o enedigaethau byw o 35,952 yn 2010 i 35,238 yn 2012 (Coleg Brenhinol y Bydwragedd, 2013a).[20] Er y cwymp hwn, mae'r pwysau ar wasanaethau mamolaeth yn cynyddu. Mae amryw o ffactorau sy'n peri

---

[14]Ymchwiliad Francis (2013) Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust *Public Enquiry.* http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20150407084003/http://www.midstaffspublicinquiry.com/report

[15]Berwick (2013) A promise to learn – a commitment to act: improving the safety of patients *in England.* Grŵp cynghori cenedlaethol ar ddiogelwch cleifion yn Lloegr https://www.gov.uk/government/publications/berwick-review-into-patient-safety

[16]NICE (2015) Safe midwifery staffing for maternity settings http://www.nice.org.uk/guidance/ng4

[17]Ball, J. A. Washbrook, M. (1996) Birthrate plus: A framework for workforce planning and decision making for midwifery services. Books for Midwives Press, Swydd Gaer.

[18] Gronfa Risg Cymru http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/955/page/52730

[19]Tolofari, M. (2014) *Counting midwives.* Midwives, 1, tud. 60 – 61.

[20]Coleg Brenhinol y Bydwragedd (2013a) *State of Maternity Services*

bod gofal yn mynd yn gynyddol gymhleth.  Rhwng 2001 a 2011 yng Nghymru, roedd cynnydd o 64% yn y nifer o fenywod a oedd dros 40 oed yn rhoi genedigaeth (Coleg Brenhinol y Bydwragedd, 2013a).    Mae'r cyfraddau cynyddol o ordewdra, beichiogrwydd lluosog a menywod sydd ag anhwylderau sy'n cyd-fodoli yn ychwanegu at alw a dwyster y gofal sy'n angenrheidiol (Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, 2013).[21]  Mae prinder tystiolaeth ynglŷn â pha ganlyniadau sy'n cael eu heffeithio gan Birthrate Plus, ac felly nid yw effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd Birthrate Plus yn hysbys (NICE, 2015). Nid yw'n hysbys ychwaith p'un a yw dulliau neu fethodolegau eraill ar gyfer mesur gofynion staffio yn well (neu'n waeth) na Birthrate Plus (NICE, 2015).

Gyda chyflwyno'r model goruchwylio diwygiedig yng Nghymru ym mis Awst 2014, roedd y mwyafrif o fydwragedd Cymru wedi derbyn eu Hadolygiad Goruchwylio Blynyddol mewn lleoliad grŵp. Mae hyn wedi rhoi mwy o gyfle i drafod gyda chymheiriaid a chael cymorth ganddynt.  Yn ddieithriad, pwnc sy'n cael ei leisio'n gyson gan fydwragedd ar draws Cymru yw pa mor aml y cânt eu hanfon o'u priod weithle i faes clinigol arall, am nad yw lefelau staffio'n ddigonol.  Dywed rhai bydwragedd y gall y symud hwn ddigwydd sawl gwaith yn ystod yr un sifft, gan arwain at ddarparu gofal gwasgarog sy'n cael ei gysylltu â risg glinigol uwch.  Adlewyrchir y darlun hwn yn arolwg Coleg Brenhinol y Bydwragedd o benaethiaid bydwreigiaeth (2013b)[22], fel a ganlyn:

- Dywedodd 94.5% o benaethiaid bydwreigiaeth fod yn rhaid iddynt ddefnyddio bydwragedd i gyflenwi gwasanaethau hanfodol.
- Dywedodd 38.5% o benaethiaid bydwreigiaeth fod bydwragedd cymunedol a bydwragedd sy'n darparu gofal ôl-enedigol yn cael eu symud o leiaf unwaith yr wythnos i ddarparu gofal intrapartwm yn yr ysbyty.
- Dywedodd 68.5% o benaethiaid bydwreigiaeth fod bydwragedd cymunedol sydd ar alwad yn gorfod cael eu galw i gyflenwi yn yr ystafell esgor.

Mae risg glinigol uwch a phosibilrwydd o gamgymeriadau pan fydd staff yn cael eu cyfeirio at feysydd clinigol lle nad ydynt yn teimlo'n hyderus neu'n gymwys i weithio.  Yn ôl arolwg

[21]Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (2013) *Reconfiguration of Women's Services in the UK.*  Good Practice rhif 15. Rhagfyr.
https://www.rcog.org.uk/globalassets/documents/guidelines/reconfiguration_good_practice_no.15_corrected_february_2014.pdf

[22] Coleg Brenhinol y Bydwragedd (2013) Cyflwyniad i gorff adolygu cyflogau'r GIG.
https://www.rcm.org.uk/content/unit-closures-restricted-services-and-falling-budgets-HYPERLINK

staff GIG Cymru (2013),[23] bydwragedd (23%) yw'r grŵp a ddywedodd amlaf eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cyfeirio heb fod hynny'n briodol.

Mae'r darlun a geir o bwysau cynyddol ar wasanaethau mamolaeth, a gweithlu symudol, yn cael ei adlewyrchu gan agwedd arall o arolwg staff GIG Cymru (2013), wrth i 67% o fydwragedd ddweud nad oedd digon o amser ganddynt i gyflawni eu gwaith i gyd. Yn ystod 2014-2015, mae goruchwyliaeth statudol wedi chwarae rôl bwysig wrth dynnu sylw bydwragedd at y modd mae cod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (cyflwynwyd 31 Mawrth 2015)[24] yn ei gwneud hi'n ofynnol i fydwragedd uwchgyfeirio unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â diogelwch cleifion, neu lefel y gofal a gaiff menywod/babanod yn eu gweithle.

Mae'r Cod diwygiedig wedi cael ei ddylanwadu gan ymchwiliadau pwysig i ddiogelwch cleifion, megis Adroddiad Francis ar ddiffygion gofal yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford, sy'n drosglwyddadwy i wasanaethau mamolaeth. Mae goruchwyliaeth yn chwarae rôl bwysig wrth gynyddu ymwybyddiaeth bydwragedd o God diwygiedig y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel offeryn i wella proffesiynoldeb, ac nid cyfrwng ar gyfer prosesau disgyblu yn unig.

## 3.2 1000 o Fywydau a Mwy

1000 o Fywydau a Mwy[25] yw'r rhaglen wella genedlaethol sy'n rhoi cymorth i sefydliadau ac unigolion i gyflenwi gofal iechyd diogel, o'r radd flaenaf, i bobl Cymru. Mae'r rhaglenni mamolaeth canlynol yn rhan o raglen wella 1000 o Fywydau a Mwy.

## 3.3 Rhwydwaith Mamolaeth Cymru Gyfan

Daeth Mân-raglen Gydweithredol Trawsnewid Gwasanaethau Mamolaeth[26], a oedd yn rhan o 1000 o Fywydau a Mwy, i ben ym mis Mawrth 2014. Nod gyffredinol y mân-raglen gydweithredol, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2011, oedd gwella profiad a chanlyniadau i fenywod, babanod a'u teuluoedd yng ngwasanaethau mamolaeth Cymru. Sefydlwyd

[23] Arolwg staff GIG Cymru 2013 – trosolwg cenedlaethol http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/survey/?skip=1&lang=cy

[24] Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2015) – Y Cod: Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd

[25] 1000 o Fywydau a Mwy http://www.1000ofywydauamwy.wales.nhs.uk/hafan

[26] Mân-raglen Gydweithredol Trawsnewid Gwasanaethau Mamolaeth http://www.1000ofywydauamwy.wales.nhs.uk/hafan

Rhwydwaith Mamolaeth Cymru Gyfan[27] (Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn 2014. Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys ystod eang o weithwyr gofal iechyd proffesiynol o ddisgyblaethau gwahanol, a grwpiau goruchwylwyr bydwragedd a defnyddwyr gwasanaeth. Amcanion cyffredin yng ngwasanaethau mamolaeth Cymru yw lleihau amrywiaeth mewn gofal, lleihau gwastraff adnoddau, a gwella canlyniadau i fenywod beichiog a'u babanod. Mae Rhwydwaith Mamolaeth Cymru Gyfan yn bwriadu elwa ar rwydwaith glinigol drwy:

- Addysg a rheoli'r dull o rannu gwybodaeth
- Rheoli risgiau'n well drwy weithio mewn partneriaeth
- Rhannu arferion da a gwersi a ddysgwyd
- Crynhoi gwybodaeth fel y gellir meincnodi a gosod amcanion gwella
- Gwella canlyniadau clinigol a chyflenwad y gwasanaeth
- Gofal integredig a safonedig ar draws Cymru sy'n cynorthwyo i leihau anghyfartaledd

## 3.4 Menter Cymru ar gyfer Lleihau Marw-enedigaethau

Nod Menter Cymru ar gyfer Lleihau Marw-enedigaethau[28] yw gweithredu Rhaglen Asesu Twf Cymru Gyfan ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Nod Rhaglen Asesu Twf Cymru Gyfan yw gwella adnabyddiaeth o broblemau gyda thwf y ffetws, gan wella'r siawns y bydd babanod yn cael eu geni mewn cyflwr da a lleihau marwolaethau ac afiachusrwydd amenedigol. O ganlyniad, bydd llai o achosion o farw-enedigaeth a marwolaethau newyddenedigol, a llai o achosion o barlys yr ymennydd yng Nghymru. Mae achosion o gyfyngu twf yn y groth, nad ydynt yn cael eu diagnosio, wedi'u cysylltu'n gryf â marwolaethau ac afiachusrwydd am oes. Mae byrddau iechyd yng Nghymru wedi bod yn prynu a gweithredu, mewn ysbeidiau yn ystod 2014, rhaglen asesu twf gan Sefydliad Amenedigol Birmingham yn Lloegr, fel yr argymhellir ym Menter Cymru ar gyfer Lleihau Marw-enedigaethau.

[27] Rhwydwaith Mamolaeth Cymru Gyfan http://gov.wales/topics/health/cmo/professionals/officechiefnursing/cno-publictions/maternity-network/?skip=1&lang=cy

[28] Menter Cymru ar gyfer Lleihau Marw-enedigaethau http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/maternity-services-stillbirth

## 3.5 Llwybr Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer Esgor Naturiol

Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o Lwybr Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer Esgor Naturiol[29] yn 2014, ar y cyd â hyfforddiant i fydwragedd yng ngwasanaethau mamolaeth y byrddau iechyd. Fodd bynnag, mae bydwragedd yn ansicr, i raddau amrywiol, ynghylch arferion a dogfennaeth Llwybr Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer Esgor Naturiol. Mae'r ansicrwydd hwn yn cael ei ddwysáu yn achos bydwragedd sy'n gweithio mewn lleoliadau risg isel yn ogystal â risg uchel. Un o'r ffactorau sydd wedi esgor ar hyn yw bod Llwybr Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer Esgor Naturiol yn ei gwneud hi'n ofynnol i fydwragedd gofnodi 'amrywiad' mewn cymhariaeth yn unig â 'stori lawn' yr esgor a geir yng nghofnod intrapartwm menywod risg uchel. Un o bynciau trafod sesiynau grŵp yr adolygiad goruchwylio blynyddol yw sut y dylai bydwragedd ddefnyddio Llwybr Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer Esgor Naturiol wrth ofalu am fenyw sy'n esgor yn arferol, a sicrhau ar yr un pryd bod y ddogfennaeth yn gywir.

## 3.6 Strategaethau a dangosyddion mamolaeth

Yn dilyn cyhoeddi dogfen Llywodraeth Cymru, Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (2011),[30] datblygwyd cyfres o ddangosyddion mamolaeth er mwyn monitro cynnydd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wrthi ar hyn o bryd yn casglu data priodol gan fyrddau iechyd i ategu'r dangosyddion hyn.[31] I ategu'r strategaeth famolaeth, datblygwyd dull dros dro o adrodd, gyda chyfarfodydd perfformiad bob chwe mis rhwng Llywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd i fonitro cynnydd eu gwasanaethau mamolaeth. Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu cyfres ddata genedlaethol ar famolaeth, i ddarparu data ar gyfer dull gwyliadwriaeth Cymru gyfan a fydd yn cynnwys adrodd i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Disgwylir i hyn gynnwys dangosyddion y strategaeth famolaeth ynghyd â chyfres o ddangosyddion y blynyddoedd cynnar a dreialwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

[29] Llwybr Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer Esgor Naturiol 2014. Fe'i datblygwyd i leihau ymyriadau diangen adeg esgor a geni.

[30] Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru. http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/maternity/?lang=cy

[31] Gwyliadwraeth y Blynyddoedd Cynnar, gwefan Rhaglen y Blynyddoedd Cynnar Iechyd Cyhoeddus Cymru: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/64316

## 3.7 Lleihau cyfraddau toriad Cesaraidd

Ceir pwyslais o hyd ar leihau ymyrraeth yn ystod yr esgor i gynyddu siawns menywod o gael genedigaeth normal.  Caiff y gwaith hwn ei ategu gan wasanaethau mamolaeth yng Nghymru gan ddefnyddio canfyddiadau'r astudiaeth genedlaethol o leoliadau genedigaeth (NPEU, 2011),[32] sy'n adrodd bod menywod risg isel sy'n rhoi genedigaeth mewn ward risg uchel yn profi ymyrraeth, gydag afiachusrwydd, yn fwy mynych.

Cynyddodd y ganran o enedigaethau ysbyty trwy doriad Cesaraidd o 24% yn 2004-05 i 27% yn 2013-14 (Llywodraeth Cymru, 2014).[33] Byddai amcangyfrif o gyfradd genedlaethol toriadau Cesaraidd yn cynnwys genedigaethau yn y cartref a genedigaethau eraill, a fyddai'n golygu mai 26% oedd y gyfradd yng Nghymru yn 2013-14, o gymharu â 27% yn 2012 (Llywodraeth Cymru, 2014).  Mae byrddau iechyd wedi bod yn cyfarfod â Llywodraeth Cymru bob chwe mis i drafod cynllun gweithredu eu gwasanaethau mamolaeth, a'u cynnydd wrth leihau'r gyfradd o doriadau Cesaraidd.

## 3.8 Polisïau lleol a chenedlaethol yn ymwneud â Goruchwyliaeth

### Yn genedlaethol

Yn ystod 2014, adolygwyd a diweddarwyd yr holl bolisïau a chanllawiau cenedlaethol gan Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU i adlewyrchu'r newidiadau a'r datblygiadau a nodir yn rheolau a safonau bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012).  Caiff polisïau a chanllawiau cenedlaethol eu llunio er mwyn cefnogi swyddogion bydwreigiaeth yr awdurdodau goruchwylio lleol a goruchwylwyr bydwragedd wrth eu gwaith. Rhoddir pwyslais yn y Deyrnas Unedig ar sicrhau tegwch a chysondeb, o ran proses a chanlyniadau, lle bynnag y cyflawnir y gweithgarwch goruchwylio. Cymeradwywyd y polisïau a chanllawiau cenedlaethol diweddaredig ym mis Ebrill 2013, ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU yn **www.lsamoforumuk.scot.nhs.uk**. Mae cynllun adolygu polisi ar waith i ddynodi pryd y bydd hi'n bryd cynnal adolygiad tair blynedd o'r polisïau a'r canllawiau perthnasol, neu'n dilyn diwygiadau sylweddol i statud neu safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

---

[32] Uned Genedlaethol Epidemioleg Amenedigol (2011) Astudiaeth o leoliadau genedigaeth https://www.npeu.ox.ac.uk/birthplace/birthplace-follow-on-study

[33] Gwefan arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/tudalen/75043

Bydd fforwm y DU yn adolygu holl ganllawiau Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r cod a gyflwynwyd yn ddiweddar (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2015).

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwelliannau pellach i'r dogfennau canllaw lleol sy'n ymwneud â goruchwyliaeth yng Nghymru.

## Yn lleol

Mae’r AGLl wedi sefydlu canllawiau ar ddefnyddio dogfen Adolygiadau Goruchwylio Blynyddol Cymru gyfan, ar ffurf cwestiwn ac ateb, i ategu’r defnydd o oruchwyliaeth grŵp. Diwygiwyd hwn yn 2014-15 i gymryd y Cod (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2015) i ystyriaeth, a roddwyd ar waith ym mis Mawrth 2015.

Datblygwyd gwefan AGIC i gynnwys y dogfennau canllaw lleol sy'n cyd-fynd â chyflwyno model goruchwylio bydwreigiaeth Cymru. Ymhlith y dogfennau mae'r Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Ar-alwad, y broses ar gyfer Adolygiadau Goruchwylio Blynyddol, a'r templedi lleol i gyd-fynd â pholisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU parthed y broses ymchwilio. Cofnodir pob cyswllt a wneir â'r goruchwylydd sydd ar alw ar gofnod galwadau ffôn SBAR (Sefyllfa, Cefndir, Gweithredu, Adolygu). Archwilir y galwadau hyn bob mis. Rhennir themâu a thueddiadau dros gyfnod o chwe mis gyda'r penaethiaid bydwreigiaeth a'r tîm goruchwylio, er mwyn iddynt gael eu hystyried wrth gynllunio'n sefydliadol ac i sicrhau bod yr holl gyfleoedd dysgu yn cael eu defnyddio cymaint â phosibl.

## 4. Sicrhau y cynhelir ymchwiliadau i ymarfer is-optimaidd

Hysbysir yr AGLl yn ffurfiol, trwy gronfa ddata genedlaethol yr AGLl, am ddigwyddiadau anffafriol difrifol lle gallai ymarfer bydwreigiaeth is-optimaidd fod wedi bod yn ffactor a gyfrannodd. Ceir canllawiau ar ba fath o ddigwyddiad y dylid ei hysbysu yn 'Rhestr Sbarduno Hysbysiad am Ddigwyddiad' yr AGLl, sy'n sicrhau mai dim ond y digwyddiadau hynny sy'n berthnasol i swyddogaeth yr AGLl sy'n cael eu hysbysu.

Mae pob digwyddiad clinigol difrifol yn destun adolygiad achos goruchwylydd bydwragedd, gan ddefnyddio offeryn penderfynu fforwm swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl. Os bydd yr offeryn yn dynodi y gallai gweithredoedd bydwraig fod wedi cyfrannu mewn ffordd negyddol at y digwyddiad clinigol, neu fod ei hymarfer yn groes i reolau a safonau bydwragedd neu God y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yna bydd goruchwylydd bydwragedd yn cynnal ymchwiliad goruchwylio llawn yn unol â chanllawiau Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl. Gellid sefydlu ymchwiliad goruchwylio hefyd yn dilyn archwiliad rheolaidd o gofnodion neu drwy'r dull cwynion lle caiff safonau ymarfer bydwreigiaeth eu cwestiynu.

Cafodd 42 o ymchwiliadau eu hysbysu'n ffurfiol a'u cychwyn o fewn yr AGLl yn 2014-15, o gymharu â 48 y flwyddyn gynt. Cynhaliwyd y 42 o ymchwiliadau yn unol â chanllawiau Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLl y DU.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd goruchwylwyr bydwragedd i'w chael hi'n anodd cwblhau ymchwiliadau o fewn y 45 diwrnod gwaith a argymhellir gan Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLl y DU, neu'n amserol, fel sy'n ofynnol dan reolau bydwragedd diwygiedig y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012). O'r 42 ymchwiliad a gynhaliwyd, roedd rhywfaint o dystiolaeth o welliant o ran amseroldeb yng nghanol y flwyddyn. Yn adroddiad y chwarter cyntaf (Ebrill – Mehefin) yn 2014, dim ond 20% (dau o'r deg) a gwblhawyd o fewn 45 diwrnod gwaith. Mae'r adroddiadau chwarterol sy'n weddill yn dynodi bod cyfran yr ymchwiliadau a gwblhawyd yn amserol fel a ganlyn: Chwarter 2 – 70%, Chwarter 3 – 75% a Chwarter 4 – 48%. At ei gilydd, cwblhawyd 49% o adroddiadau o fewn 45 diwrnod gwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae'r data uchod yn dangos yr her o gydymffurfio â'r amserlenni rhesymol a ddisgwylir, cyn bod system Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol yn cael ei chyflwyno. Yn ystod y flwyddyn, parhawyd i graffu'n ofalus ar yr amserlen ar gyfer ymchwiliadau goruchwylwyr bydwragedd, a pharhaodd yr AGLl i bwysleisio pwysigrwydd cynnal a chwblhau ymchwiliadau yn brydlon i gynorthwyo adferiad effeithiol pan fo angen.
Prif achos yr oedi oedd yr amser a gymerwyd rhwng cwblhau'r cyfweliadau a gorffen yr adroddiadau, oherwydd heriau amrywiol megis dychwelyd nodiadau wedi eu llofnodi, bydwragedd ddim ar gael (er enghraifft, o achos cyfnodau o salwch), a chyn Awst 2014,

cydbwyso ysgrifennu adroddiadau gyda gofynion y brif swydd.  Mae hyn yn amlwg yn annerbyniol gan ei fod yn arwain at ohirio ymarfer adferol i'r bydwragedd dan sylw, yn atal gwersi rhag cael eu dysgu cyn gynted â phosibl, ac yn gadael yr AGLl a'r byrddau iechyd yn agored i gael eu herio.  Er bod tystiolaeth o welliant sylweddol yng nghanol y flwyddyn, yn chwarteri 2 a 3, roedd y sefyllfa yn chwarter 4 yn dynodi bod angen i'r AGLl barhau i ganolbwyntio er mwyn rhoi blaenoriaeth i gwblhau adroddiadau.

Yn 2014-15, canlyniadau'r ymchwiliadau a gynhaliwyd oedd peidio cynnal achos pellach yn achos 27 bydwraig; gwnaeth 58 bydwraig Gynllun Gweithredu Lleol er mwyn myfyrio ar y materion hynny oedd yn peri pryder, neu gynnal datblygiad proffesiynol parhaus ynddynt; a chafodd deg rhaglen ymarfer AGLl eu hargymell.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, gwaharddwyd dwy fydwraig rhag ymarfer gan yr AGLl, ac fe'u hatgyweiriwyd at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o ganlyniad i ddiffygion sylweddol yn eu haddasrwydd i ymarfer. Gwnaed un atgyfeiriad i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar y cyd â hunangyfeiriad gan fydwraig am iddi sylwi na allai gwblhau rhaglen ymarfer AGLl, a argymhellwyd, oherwydd bod ganddi ormod o alwadau.

## 4.1 Gwella'r broses o gynnal ymchwiliadau goruchwylio

Mae'r AGLl yn defnyddio cronfa ddata Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU a llyfr gwaith lleol i fonitro ymchwiliadau a'u cynnydd hyd nes eu bod yn cael eu cwblhau. Fel y nodwyd yn gynharach, mae hwn yn faes arbennig o anodd i oruchwylwyr bydwragedd ar amryw o lefelau. Mae swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl yn darparu cyngor a chyfarwyddyd cychwynnol ar gwblhau adolygiad o gofnodion clinigol a defnyddio pecyn cymorth penderfyniadau i weld a yw'n ymddangos bod sail i gynnal ymchwiliad. Mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl yn rhoi cefnogaeth i oruchwylwyr bydwragedd i lunio amserlen cyfweliadau os oes angen. Mae swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl wedi datblygu a diwygio llyfr Adnoddau Ymchwilio sydd, ynghyd â gwefan yr AGLl, yn cynnwys templedi ac enghreifftiau o lythyrau, cynlluniau cyfweliadau, rhestr o gwestiynau ac ati, i gynorthwyo goruchwylwyr bydwragedd i baratoi ar gyfer yr ymchwiliad. Ceir adroddiadau enghreifftiol hefyd yn y llyfr adnoddau i oruchwylwyr bydwragedd eu dilyn cyn drafftio eu hadroddiad.

Mae swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl yn derbyn adroddiadau drafft gan oruchwylwyr bydwragedd i'w hadolygu, a dylai'r rhain gyrraedd yr AGLl o fewn 30 diwrnod. Caiff sylwadau neu newidiadau wedi'u tracio eu he-bostio yn ôl i oruchwylwyr bydwragedd. Cynhelir cyfarfodydd un i un mewn rhai achosion, pan fo'n amlwg bod angen rhagor o gymorth ar y goruchwylydd bydwragedd. Mae'r AGLl bellach yn monitro nifer y fersiynau o

adroddiadau a dderbynnir i helpu i nodi a yw hyfforddiant wedi bod yn effeithiol neu i nodi pan fo'n amlwg bod angen rhagor o hyfforddiant.

Pan fydd yr AGLl yn fodlon ar adroddiad a bod yr argymhelliad yn cael ei wneud, rhoddir caniatâd i'r goruchwylydd bydwragedd lanlwytho hwn i gronfa ddata'r AGLl, a nodir bod yr achos wedi dirwyn i ben. Nod yr AGLl yw i oruchwylwyr bydwragedd orffen ysgrifennu'r adroddiad a'i lanlwytho i gronfa ddata'r AGLl o fewn 45 diwrnod, fel yr argymhellir gan Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU. Mae'r goruchwylydd bydwragedd sy'n ymchwilio yn anfon ffurflen atgyfeirio at oruchwylydd bydwragedd enwebedig, a gofynnir iddo yntau gynorthwyo'r fydwraig gyda Chynllun Gweithredu Lleol o Fyfyrio neu gyda rhaglen addysg berthnasol mewn Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae hyn yn cynnwys dyddiad dychwelyd disgwyliedig. Nid yw llyfr gwaith yr AGLl yn ystyried bod achos ar ben nes bod y goruchwylydd bydwragedd yn adrodd yn ôl bod unrhyw adferiad a argymhellir wedi ei gwblhau'n llwyddiannus a hefyd wedi ei lanlwytho i gronfa ddata'r AGLl fel tystiolaeth o ddysgu. Ar ddiwedd y broses ymchwilio lawn, gofynnir i'r goruchwylydd bydwragedd sy'n ymchwilio, a'r bydwragedd sy'n rhan o ymchwiliad, gwblhau gwerthusiad o'r broses. Nod monitro gwerthusiadau yw cefnogi'r Awdurdod Goruchwylio Lleol i adolygu polisïau a phrosesau a darparu hyfforddiant neu ganllawiau pellach i oruchwylwyr bydwragedd yn ôl y gofyn.

Fel y nodir mewn mannau eraill o'r adroddiad hwn, mae ymchwiliadau wedi bod yn faes penodol o risg i'r AGLl yng Nghymru, ac mae hyn felly'n flaenoriaeth uchel o hyn ymlaen i'r model Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol. Mae pob goruchwylydd bydwragedd wedi derbyn, a byddant yn parhau i dderbyn, hyfforddiant pellach gan yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, gan gynnwys mentora a hyfforddi uniongyrchol, trwy gydol y broses ymchwilio, a chan arbenigwyr yn y maes, fel Bon Solon.

Fel ymateb i Adroddiadau Francis a'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd, ni fydd y goruchwylwyr bydwragedd sy'n gweithio yn y model Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru yn cynnal ymchwiliadau mwyach i ddigwyddiadau yn eu prif fan cyflogaeth. Nod hyn yw osgoi gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu dybiedig, ac mae'n dod â llygaid ffres i arsylwi ar arferion mewn sefydliad, yn dangos y gallu i fod yn agored a thryloyw mewn sefydliad dysgu, ac yn gwella'r modd o ddysgu o ddigwyddiadau yng Nghymru. Nodir y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, a nodwyd ym manyleb wasanaeth Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol, yn llawn yn adran olaf yr adroddiad hwn.

Mae'r Awdurdod Goruchwylio Lleol yn disgwyl y bydd yn adrodd cyfraddau cydymffurfio mwy cadarnhaol ym mhob cam o'r broses ymchwilio, ac ym mhob targed, o fewn y chwe mis nesaf. Ceir nifer o newidiadau yn y model Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol sydd â'r nod o wella ansawdd a phrydlondeb y broses ymchwilio. Y camau a restrir isod yw'r

rhai a nodwyd eisoes ac sydd ar waith, ond mae hon yn broses ddeinamig a fydd yn cael ei hadolygu'n barhaus:

- Ni fydd y goruchwylwyr bydwragedd yn cynnal ymchwiliad i unrhyw fater sydd wedi digwydd yn y bwrdd iechyd sy'n eu cyflogi. Mae hyn yn sicrhau sefyllfa fwy agored a thryloyw, yn osgoi gwrthdaro buddiannau, ac yn gwella'r cyfleoedd i ddysgu o ddigwyddiadau yng Nghymru. Bydd y goruchwylydd bydwragedd sy'n ymchwilio yn gweithio gyda goruchwylydd bydwragedd penodedig y bwrdd iechyd perthnasol i nodi cofnodion, creu cysylltiadau ag unrhyw ymchwiliad sy'n cael ei gynnal gan reolwyr ar yr un pryd, trefnu lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd, trefnu i rywun gymryd nodiadau, a chefnogi materion ymarferol eraill.

- Pan fo'n bosibl, bydd y goruchwylydd bydwragedd yn cynnal yr ymchwiliad goruchwylio ochr yn ochr ag unrhyw broses gan reolwyr, ond gan gynnal didueddrwydd y broses oruchwylio. Bydd goruchwylwyr bydwragedd gweithredol a goruchwylwyr bydwragedd preswyl y bwrdd iechyd yn cefnogi bydwragedd sy'n rhan o ddigwyddiad i adolygu eu gofal a'u gwaith cadw cofnodion fel eu bod yn cael eu paratoi'n gywir ar gyfer y cyfarfod ymchwilio ac yn cael eu cefnogi yn y cyfarfod hwnnw.

- Bydd yr adroddiad ymchwilio'n cael ei ddarllen gan 'gyfaill o oruchwylydd bydwragedd', y gallai fod yn oruchwylydd bydwragedd neilltuedig y bwrdd iechyd neu beidio, gyda phwyslais penodol ar brofi canfyddiadau'r ymchwiliad cyn ei gyflwyno i'r swyddog bydwreigiaeth perthnasol i'w adolygu. Gallai defnyddio goruchwylydd bydwragedd gweithredol neu oruchwylydd bydwragedd preswyl y bwrdd iechyd ar gyfer y gweithgaredd hwn fod o fantais wrth brofi unrhyw faterion penodol sy'n berthnasol yn y sefydliad hwnnw, ond mae'n rhaid cymryd gofal i gadw'r broses yn dryloyw. Bydd y system gyfeillio hon yn gwella ansawdd a chysondeb adroddiadau dros amser yn ogystal â gwella dysg goruchwylwyr bydwragedd a darparu cefnogaeth cymheiriaid.

- Yn dilyn ymchwiliad, os oes angen unrhyw ddysgu neu gamau adfer ar gyfer bydwragedd unigol, bydd goruchwylydd bydwragedd gweithredol y bwrdd iechyd, neu'r goruchwylydd bydwragedd preswyl, a'r fydwraig yn gweithio gyda'r goruchwylydd bydwragedd sy'n ymchwilio i dderbyn adborth ar yr adroddiad ymchwilio ac i lunio Cynlluniau Gweithredu Lleol, fel sy'n briodol. Bydd y goruchwylydd bydwragedd gweithredol neu'r goruchwylydd bydwragedd preswyl yn cefnogi a goruchwylio'r broses o gwblhau adferiad, gan adrodd yn ôl i'r goruchwylydd bydwragedd sy'n ymchwilio ar ddiwedd y broses er mwyn dod â mater gwersi a ddysgwyd i fwcwl. Bydd unrhyw wersi a ddysgwyd ac arfer da ehangach yn

cael eu trafod yng nghyfarfod misol goruchwylwyr bydwragedd yr AGLl, er mwyn sicrhau y rhennir hyn ar draws Cymru.

- Gofynnir i fydwragedd a’r goruchwylwyr bydwragedd sy'n ymchwilio gwblhau gwerthusiad o’r broses ar ôl pob ymchwiliad. Bydd tueddiadau a themâu a nodir gan y ddau barti yn y gwerthusiad hwn yn cael eu defnyddio i wneud gwelliannau i hyfforddiant goruchwylwyr bydwragedd neu i'r broses ymchwilio, neu i gynnig adborth i benaethiaid bydwreigiaeth os oedd materion sefydliadol a effeithiodd ar y broses ymchwilio ar unrhyw adeg.

- Bydd y goruchwylydd bydwragedd sy'n ymchwilio yn trefnu i gyflwyno’r adroddiad goruchwylio llawn i’r pennaeth bydwreigiaeth, gyda phwyslais penodol ar systemau a phryderon sy'n ymwneud â llywodraethu clinigol. Bydd hyn yn galluogi trafodaeth i gael ei chynnal ar yr adroddiad a’i argymhellion, ac yn fodd i sicrhau bod cynlluniau gweithredol dilynol yn rhoi sylw i faterion llywodraethu a systemau. Bydd y cynlluniau gweithredu sefydliadol yn cael eu hadolygu gyda'r penaethiaid bydwreigiaeth ym mhob bwrdd iechyd, a chyda'r goruchwylydd bydwragedd gweithredol a swyddog bydwreigiaeth yr AGLl yn y cyfarfodydd chwarterol. Bydd unrhyw anawsterau o ran gwella’r gwasanaeth yn cael eu huwchgyfeirio at y cyfarwyddwr nyrsio gan y pennaeth bydwreigiaeth a swyddog bydwreigiaeth yr AGLl mewn cyfarfodydd chwe-misol, neu ynghynt os bydd angen.

Nod DPA 9 yw casglu data meintiol ac ansoddol i ddangos a yw ymyrraeth leol ac adferiad bydwragedd yn effeithiol wrth eu cefnogi yn eu gwaith, ac wrth gynnal y broses o atgyfeirio’r bydwragedd hynny sy’n parhau i fod yn risg i’r corff rheoleiddio.  Nod DPA 9 yw monitro prydlondeb ac ansawdd yr holl broses ymchwilio. Dyma fydd y meincnodau:

- 30 diwrnod ar gyfer yr adroddiad drafft cyntaf i swyddog bydwreigiaeth yr AGLl
- 45 diwrnod ar gyfer cwblhau’r adroddiad, rhoi adborth i fydwragedd a nodi amcanion yn ôl y gofyn, a rhoi adborth i’r pennaeth bydwreigiaeth ar faterion sefydliadol
- Trwy gyfrwng Llyfr Gwaith a chronfa ddata’r AGLl, monitro mewn modd priodol bod amcanion a gwblhawyd wedi cael eu cymeradwyo a'u lanlwytho i gronfa ddata’r AGLl, a bod yr ymchwiliad wedi dirwyn i ben
- Nifer y fersiynau o adroddiadau a welwyd gan swyddog bydwreigiaeth yr AGLl cyn bod cytundeb terfynol, gan gynnwys cytuno ar ansawdd yr adroddiad a sancsiynau a argymhellir i’r AGLl Bydd hyn yn amlygu'r anghenion hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar oruchwylwyr bydwragedd unigol

- Gwelliant i adborth bydwragedd a goruchwylwyr bydwragedd ar y broses ymchwilio, yn enwedig i fydwragedd sy'n nodi bod yr ymchwiliad yn gynorthwyol a chadarnhaol yn hytrach na chosbol
- Gostyngiad yn y nifer o fydwragedd sydd angen cefnogaeth dro ar ôl tro ar gyfer materion ymarfer tebyg a/neu anghysylltiedig, gan gysylltu hyn â thrafodaethau'r adolygiadau goruchwylio blynyddol a goruchwyliaeth grŵp
- Niferoedd y bydwragedd sy'n destun Rhaglen Ymarfer yr AGLl ac sydd wedyn yn cael eu hatgyfeirio at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a'r rhesymau am yr atgyfeiriad
- Nifer y bydwragedd sydd, yn dilyn Rhaglen Ymarfer AGLl lwyddiannus, yn mynd yn eu blaenau i ddatblygu ymhellach o fewn y gwasanaeth.

## 4.2 Cwynion ynglŷn â chyflawni'r swyddogaeth oruchwylio

Ymdrinnir â chwynion yn erbyn yr AGLl a/neu swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl yn unol â gweithdrefnau cwynion Llywodraeth Cymru, neu drwy broses apelio'r AGLl, fel sy'n briodol. Disgrifir y broses o ymdrin â chwynion ac apeliadau ym mholisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU,[34] Cwynion yn erbyn goruchwylydd bydwragedd neu swyddog bydwreigiaeth yr AGLl.  Derbyniodd yr AGLl ddwy gŵyn ffurfiol yn 2014-15 yn ymwneud â gweithgareddau hanesyddol yr AGLl. Dechreuwyd adolygiad trylwyr o gyfres o gwynion a wnaed am weithredoedd yr AGLl yn 2011-2012, ac mae'n parhau o hyd.  Mae Uned Gwynion Llywodraeth Cymru'n parhau i gynorthwyo AGIC gyda'r achos hwn.

[22] Polisi Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth Awdurdodau Goruchwylio Lleol y DU ar gyfer cwynion yn erbyn goruchwylydd bydwragedd neu swyddog bydwreigiaeth yr AGLl
http://www.lsamoforumuk.scot.nhs.uk/policies-guidelines.aspx

## 4. Arfer nodedig ac arloesol

Canfuodd tîm adolygu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fod model newydd diogelu goruchwyliaeth ar gyfer y dyfodol yng Nghymru wedi'i gyflwyno mewn modd arloesol ac effeithiol. Roedd yn enghraifft o reoli newid ar ei orau meddent, ac yn cynnwys rhanddeiliaid perthnasol o wasanaethau mamolaeth, AGIC, a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth. Canfuodd y tîm fod goruchwyliaeth bydwragedd yn briodol a chanddi ddigon o adnoddau, a bod yr holl bosibiliadau wedi'u hystyried a'u hymdrin wrth gynllunio a chyflwyno'r newid. Nodwyd hefyd bod yr arloesedd wedi'i rannu'n eang eisoes drwy gyhoeddi papur yn y *British Journal of Midwifery* (Ebrill 2014), ond ystyrir ei fod yn haeddu cael ei ledaenu ymhellach yn ngoleuni ei lwyddiant cynnar.

Dan fodel Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodol, caiff arferion gwaith arloesol a nodedig eu cyfleu ledled Cymru wrth i fydwragedd gael mynediad at brosesau a modelau cyflenwi safonedig, gan gynnwys:

- Goruchwyliaeth grŵp, sy'n grŵp ffurfiol a chefnogol i sicrhau bod bydwragedd yn cwblhau dogfen yr adolygiad goruchwylio blynyddol. Mae goruchwylwyr bydwragedd yn rhoi addysg weithredol ar waith yn ystod trafodaethau strwythuredig, er mwyn i fydwragedd ddysgu wrth eraill ac wrth eu profiadau eu hunain.  Mae hwn yn gyfle i roi diweddariad i fydwragedd ynghylch themâu a thueddiadau lleol, a hefyd ynghylch canllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cod diweddaredig (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2015).

- Rhif ffôn Cymru gyfan i gael gafael ar oruchwylydd bydwragedd, ar alwad 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.  Caiff pob cyswllt ei recordio a chynhyrchir adroddiad misol i adlewyrchu'r holl gysylltiadau a fu ar draws Cymru, gan sicrhau bod galwadau anodd neu heriol yn gallu cael eu trafod yn y cyfarfod perfformiad misol, a hefyd yn lleol ym mhob bwrdd iechyd.

- Sesiynau grŵp ar gadw cofnodion a gyflwynir mewn awyrgylch te parti er mwyn i fydwragedd eu mynychu i ategu eu gofyniad i gwblhau archwiliad ar gadw cofnodion.  Yn ystod y sesiwn grŵp, mae bydwragedd yn gweithio mewn parau er mwyn edrych ar gyfres o nodiadau a chwblhau archwiliad o'r nodiadau hyn. Wedyn maent yn rhoi adborth i'r grŵp ac yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd.

- Ym mis Tachwedd 2014, cymerodd Prif Weithredwr AGIC ran mewn dadl panel a gynhaliwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yng nghynhadledd flynyddol Coleg Brenhinol y Bydwragedd, er mwyn trafod y model newydd o oruchwylio.

- Cyflwynodd dau oruchwylydd bydwragedd 'gyflwyniad poster' yng nghynhadledd y prif swyddog nyrsio, gan arddangos y partïon te er mwyn cadw cofnodion a goruchwyliaeth grŵp.

- Mae goruchwylwyr bydwragedd yn ysgrifennu erthygl mewn dwy ran ar gyfer y *British Journal of Midwifery* gan fyfyrio ar gysyniadau a chanlyniadau goruchwyliaeth grŵp.

## 5.1 Rhannu arfer da

Yn ystod y flwyddyn, bu nifer o achlysuron lle mae'r AGLl yng Nghymru wedi cynnwys Awdurdodau Goruchwylio Lleol eraill yn ei waith, megis:

- Mae swyddog bydwreigiaeth AGLl de-orllewin Lloegr wedi bod yn rhan o grŵp gweithredu Diogelu Goruchwyliaeth ar gyfer y Dyfodo.

- Cyflwynwyd y dull o weithredu'r model newydd, a'r dangosyddion cynnar, gan swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl yng nghynhadledd yr Awdurdodau Goruchwylio Lleol yn Llundain ym mis Hydref 2014

- Roedd goruchwylydd bydwragedd o Gymru yn bresennol yn fforwm bydwragedd yr Awdurdodau Goruchwylio Lleol ym mis Tachwedd 2014, i gyflwyno'r model i fydwragedd o'r DU gyfan

- Aeth swyddog bydwreigiaeth yr AGLl a goruchwylydd bydwragedd i gyfarfod o oruchwylwyr bydwragedd ym mis Chwefror 2015, gydag AGLl Ymddiriedolaeth Dyffryn Gwy yng ngorllewin canolbarth Lloegr, er mwyn trafod y model a gweithio traws-ffiniol gydag Awdurdodau Goruchwylio Lleol cyfagos

- Cyflwynodd swyddog bydwreigiaeth yr AGLl a goruchwylydd bydwragedd o Gymru yr achos dros newid, a chanlyniadau ar gyfer y model, yng Nghynhadledd Awdurdodau Goruchwylio Lleol yn ne-ddwyrain Lloegr ym mis Mawrth 2015

- Aeth swyddog bydwreigiaeth yr AGLl i weithdy yng Ngogledd Iwerddon ym mis Ebrill 2015, er mwyn cyfrannu at yr adolygiad o oruchwyliaeth bydwragedd yng Ngogledd Iwerddon

- Mae'r ddau swyddog bydwreigiaeth AGLl o Gymru wedi cynnal apeliadau i ddau AGLl arall a oedd yn gysylltiedig ag ymchwiliad i oruchwylydd bydwragedd a Rhaglen Ymarfer Awdurdod Goruchwylio Lleol a argymhellwyd. Ystyrir y cyfle i ystyried apeliadau fel cyfle ar gyfer dysgu a gwaith meincnodi gyda'r AGLl bob amser.

Yn ystod 2015-2016, mae’r AGLl wedi ymroddi i weithio gydag Awdurdodau Goruchwylio Lleol eraill fel a ganlyn:

- Bydd goruchwylydd bydwragedd llawn amser o Swydd Efrog a Glannau Humber yn cysgodi goruchwylydd bydwragedd llawn amser yng Nghymru (mis Gorffennaf 2015)

- Bydd goruchwylwyr bydwragedd yn cyflwyno goruchwyliaeth grŵp i'r pennaeth bydwreigiaeth a'r tîm o oruchwylwyr bydwragedd yn Rhydychen (mis Awst 2015)

- Bydd swyddog bydwreigiaeth yr AGLl a goruchwylydd bydwragedd yn rhannu'r model ar gyfer goruchwyliaeth grŵp, a thrafod y broses a'r ddogfennaeth â goruchwylwyr bydwragedd Ucheldiroedd yr Alban trwy gynhadledd fideo (mis Awst 2015)

- Bydd goruchwylydd bydwragedd o Gymru yn cyflwyno'r achos dros newid, a chanlyniadau ar gyfer y model yng Nghynhadledd Awdurdodau Goruchwylio Lleol Gogledd Iwerddon (mis Medi 2015)

## 5.2 Materion allweddol ar gyfer yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn 2014-2015 ac edrych i’r dyfodol

Heb os nac oni bai, yr her fwyaf ar gyfer darpariaeth goruchwyliaeth statudol ar draws y DU fydd cynnal y momentwm a'r ymroddiad i'r rôl, tra bod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn mynd i'r afael â'r newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen. Mae'r AGLl yng Nghymru yn credu ei fod mewn sefyllfa gryfach, er nad ydym yn hunanfodlon. Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid inni weithio'n galed er mwyn cadw goruchwylwyr bydwragedd yn y rôl, pan font yn cael cyfleoedd gwell. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod gennym dîm uchel ei ansawdd, a ymunodd â'r model oherwydd eu bod am wneud gwahaniaeth i fenywod a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru – yn ogystal ag i'w cydweithwyr ym maes bydwreigiaeth a all fod yn wynebu ailstrwythuro gwasanaeth sylweddol yn y misoedd nesaf.

Rôl goruchwylwyr bydwragedd yn y dyfodol fydd cynorthwyo bydwragedd wrth iddynt reoli newid, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaeth yn ddi-dor, ac yn cael ei chyflenwi gan weithlu bydwreigiaeth sy'n bodloni'r gofynion statudol a osodir yn Rheolau a Safonau Bydwragedd a Chod y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Dros y deuddeg mis nesaf, mae'r AGLl wedi ymroi i weithio'n agos gyda phenaethiaid bydwreigiaeth a chynrychiolwyr yn y gweithle ar draws Cymru, er mwyn symud proses ymchwilio  goruchwylwyr bydwragedd yn

agosach at y broses o lywodraethu a rheoli sefydliadol. Mae hwn yn gam yn y cyfeiriad cywir ar gyfer rhannu sgiliau ac arbenigedd proses ymchwilio goruchwylwyr bydwragedd. Bydd hyn hefyd yn cynorthwyo byrddau iechyd i baratoi ar gyfer gadael proses ymchwilio goruchwylwyr bydwragedd unwaith mae newidiadau deddfwriaethol wedi'u gwneud. Un flaenoriaeth allweddol fydd proses gadarn ar gyfer llywodraethu gwybodaeth er mwyn storio cofnodion goruchwylwyr bydwragedd mewn ffordd ddiogel – yn enwedig ar gyfer cofnodion y broses ymchwilio, sydd i gael i gadw am 25 mlynedd.

Bydd goruchwylwyr bydwragedd yn chwarae rôl allweddol wrth ymgorffori ailddilysiad yn arfer bydwragedd, ond yn bwysicach byth, byddant hefyd yn ceisio rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd â chydweithwyr nyrsio sydd wrthi'n dod i arfer â'r broses. Mae eisoes gan rai goruchwylwyr bydwragedd arbenigedd mewn trafodaeth broffesiynol ac elfennau cadarnhau'r broses ail-ddilysu – a dyma asgwrn cefn gwaith goruchwylwyr bydwragedd. Bydd yr adroddiad gwerthuso gan Brifysgol Abertawe, a llwyddiant goruchwyliaeth grŵp hyd yn hyn, yn amhrisiadwy wrth gynorthwyo disgyblaethau eraill i fynd i'r afael â'r angen i wella cydymffurfiad ac effeithiolrwydd y broses arfarnu flynyddol.

Mae'r AGLl yn edrych ymlaen at weithio gyda'n holl gydweithwyr tuag at y nod o wella proffesiynoldeb a gwella amddiffyniad y cyhoedd, a hoffai ddiolch i bawb am eu cefnogaeth hyd yn hyn.

# Atodiad 1 – Cymhareb gyfwerth â goruchwylydd bydwragedd yng Nghymru

### Y model traddodiadol

1,786 bydwraig = cymhareb o 1:15
--------
116 goruchwylydd bydwragedd

116 goruchwylydd bydwragedd x 10.5 awr y mis = 1,218 awr o oruchwyliaeth y mis

### Y model newydd

1,950 awr goruchwylwyr bydwragedd mewn blwyddyn o 52 wythnos – 26% wrth gefn = 1,443 awr o waith ar gyfer pob goruchwylydd bydwragedd cyfwerth ag amser llawn x 13.8 goruchwylydd bydwragedd cyfwerth ag amser llawn = 19,913 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 1,659 awr o oruchwyliaeth y mis

1,659 ÷ 10.5 awr = cyfwerth â 158 goruchwylydd bydwragedd

1,779 (+7 Ymwelwyr Iechyd a Bydwraig Annibynnol)
1,786 o fydwragedd ÷ 158 goruchwylydd bydwragedd = Cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:11

## Tabl 1 - Cyfrifiadau Penodol y Bwrdd Iechyd wedi'u Diweddaru – Chwarter 4 2014-15

| Bwrdd Iechyd | Bydwragedd | Goruchwylwyr bydwragedd cyfwerth ag amser llawn | Oriau goruchwylwyr bydwragedd y mis | Cymhareb wedi'i chymhwyso |
|---|---|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | 300 | 2.2 | 265 awr | 1:12 |
| Aneurin Bevan | 300 | 2.4 | 289 awr | 1:11 |
| Betsi Cadwaladr | 405 | 3.0 | 361 awr | 1:12 |
| Caerdydd a'r Fro | 282 | 2.2 | 265 awr | 1:11 |
| Cwm Taf | 210 | 1.6 | 192 awr | 1:12 |
| Hywel Dda | 205 | 1.8 | 216 awr | 1:10 |
| Powys | 43 | 0.4 | 48 awr | 1:11 |

### Abertawe Bro Morgannwg

144 awr x 2.2 cyfwerth ag amser llawn = 3,175 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 265 awr y mis
265 ÷ 10.5 = cyfwerth â 25 goruchwylydd bydwragedd
300 ÷ 25 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:12

### Aneurin Bevan

1,443 awr x 2.4 cyfwerth ag amser llawn = 3,463 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 289 awr y mis
289 ÷ 10.5 = cyfwerth â 28 goruchwylydd bydwragedd
300 ÷ 28 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:11

### Betsi Cadwaladr

1,443 awr x 3 cyfwerth ag amser llawn = 4,329 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 361 awr y mis
361 ÷ 10.5 = cyfwerth â 34 goruchwylydd bydwragedd
405 ÷ 34 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:12

### Caerdydd a'r Fro

1,443 awr x 2.2 cyfwerth ag amser llawn = 3,175 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 265 awr y mis
265 ÷ 10.5 = cyfwerth â 25 goruchwylydd bydwragedd
282 ÷ 25 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:11

### Cwm Taf

1,443 awr x 1.6 cyfwerth ag amser llawn = 2,309 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 192 awr y mis
192 ÷ 10.5 = cyfwerth â 18 goruchwylydd bydwragedd
210 ÷ 18 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:12

### Hywel Dda

1,443 awr x 1.8 cyfwerth ag amser llawn = 2,597 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 216 awr y mis
216 ÷ 10.5 = cyfwerth â 21 o oruchwylwyr bydwragedd
205 ÷ 21 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:10

### Powys

1,443 awr x 0.4 cyfwerth ag amser llawn = 577 awr y flwyddyn ÷ 12 mis = 48 awr y mis
48 ÷ 10.5 = cyfwerth â 4 goruchwylydd bydwragedd
43 ÷ 4 goruchwylydd bydwragedd = cymhareb wedi'i chymhwyso o 1:11

Atodiad 2 - Goruchwylio Bydwragedd yng Nghymru .. Error! Bookmark not defined.

Adroddiad Adolygwyr Lleyg yr AGLl - Ebrill 2015 ................ **Error! Bookmark not defined.**

Crynodeb Gweithredol ........................................................ Error! Bookmark not defined.

1. Rôl Adolygwyr Lleyg a Chynnig Archwilio ................. Error! Bookmark not defined.

1.1 Trosolwg o rôl adolygwyr lleyg yn ystod 2014-2015... **Error! Bookmark not defined.**

1.2 Cynnig ar gyfer model newydd goruchwyliaeth yng Nghymru ................. **Error! Bookmark not defined.**

2. Canlyniadau Archwiliad Adolygwyr Lleyg 2014-2015.......... Error! Bookmark not defined.

2.1 Gwerthusiad o brofiad defnyddwyr gwasanaeth............ **Error! Bookmark not defined.**

2.1.1 Amcanion........................................................ **Error! Bookmark not defined.**

2.1.2 Cwestiynau'r gwerthusiad ................................ **Error! Bookmark not defined.**

2.1.3 Dulliau ........................................................... **Error! Bookmark not defined.**

2.1.4 Cyfrinachedd.................................................. **Error! Bookmark not defined.**

2.1.5 Amcan 1: Canfyddiadau a thrafodaeth ......... **Error! Bookmark not defined.**

2.1.6 Amcan 2: Canfyddiadau a thrafodaeth ......... **Error! Bookmark not defined.**

2.1.7 Amcan 3: Canfyddiadau a thrafodaeth ......... **Error! Bookmark not defined.**

2.1.8 Casgliad ac argymhellion ................................ **Error! Bookmark not defined.**

2.2 Archwiliad o oruchwyliaeth grŵp a datblygiad proffesiynol parhaus ... **Error! Bookmark not defined.**

2.2.1 Amcan............................................................ **Error! Bookmark not defined.**

2.2.2 Cwestiynau'r archwiliad .................................. **Error! Bookmark not defined.**

2.2.3 Dulliau ........................................................... **Error! Bookmark not defined.**

2.2.4 Cyfrinachedd.................................................. **Error! Bookmark not defined.**

2.2.5 Canfyddiadau a thrafodaeth ........................... **Error! Bookmark not defined.**

2.2.6 Casgliadau ..................................................... **Error! Bookmark not defined.**

2.2.7 Argymhellion .................................................. **Error! Bookmark not defined.**

2.3 Gwerthuso pa mor hygyrch yw goruchwylwyr bydwragedd ..................... **Error! Bookmark not defined.**

2.3.1 Amcanion........................................................ **Error! Bookmark not defined.**

2.3.2 Dulliau ........................................................... **Error! Bookmark not defined.**

2.3.3 Canfyddiadau a thrafodaethau ........................ **Error! Bookmark not defined.**

Gwefannau byrddau iechyd – argymhellion ......... **Error! Bookmark not defined.**

Ffynonellau gwybodaeth eraill .................................. **Error! Bookmark not defined.**

2.3.4 Casgliad ac argymhellion ........................................... **Error! Bookmark not defined.**

# 1. Crynodeb Gweithredol

Mae adolygwyr lleyg yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) yn allweddol i broses archwilio'r AGLl gan eu bod yn gyfrifol am ofyn am safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth ac asesu eu hymwybyddiaeth o oruchwyliaeth o safbwynt annibynnol. Mae cyfraniad adolygwyr lleyg at oruchwyliaeth bydwragedd yng Nghymru yn ystod 2014-2015 wedi bod yn helaeth, ac mae wedi cynnwys cymryd rhan mewn cyfweld, monitro a gwerthuso, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth a chyfrannu at adolygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Datblygwyd y broses archwilio ar gyfer y flwyddyn hon gan yr adolygwyr lleyg, ac roedd yn cynnwys archwilio'r meysydd canlynol o oruchwyliaeth bydwragedd yng Nghymru:

- Profiad y defnyddiwr gwasanaeth
- Goruchwyliaeth grŵp a datblygiad proffesiynol parhaus
- Mynediad gan oruchwylwyr bydwragedd at fenywod a'u teuluoedd

Dywedodd pob defnyddiwr gwasanaeth ei fod yn fodlon ar ei oruchwylydd bydwragedd. Mae merched beichiog yn enwedig yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a ddarperir gan oruchwylwyr bydwragedd, gan gynnwys eu hymateb prydlon, eu nodweddion personol, a'u gallu i ddarparu cysur emosiynol. Nawr bod y model newydd wedi'i lawn sefydlu, byddai rhywfaint o ddiweddaru hyfforddiant ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd yn fuddiol. Hefyd, mae rhai mân welliannau sydd eu hangen ar y systemau a phrosesau wedi cael eu nodi.

Mae canfyddiadau cyffredinol yr archwiliad o oruchwyliaeth grŵp yn dangos bod hwn yn fecanwaith effeithiol i sicrhau bod arfer bydwragedd yn parhau i gael ei adolygu, ac o ganlyniad yn gwella amddiffyniad y cyhoedd. Mae hefyd yn caniatáu rhannu arfer da a dysgu ar y cyd. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar oruchwyliaeth grŵp ar gyfer pob bydwraig, bydd yn rhaid i oruchwylwyr bydwragedd a phenaethiaid bydwreigiaeth fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan, a nodwyd yn ystod y broses archwilio. Mae cynnwys adborth menywod yn y broses datblygu proffesiynol parhaus yn faes sydd angen rhywfaint o sylw, a bydd y mater hwn yn arbennig o bwysig o ystyried y gofynion ail-ddilysu newydd.

Cafodd archwiliad ffôn o fyrddau iechyd ganlyniadau da ynglŷn â chyfeirio pobl at y rhif ar-alwad cenedlaethol ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd. Fodd bynnag, roedd canlyniadau ar gyfer y gwasanaeth ar-lein yn gymysg, ac mae angen rhagor o waith er mwyn sicrhau cysondeb wrth gynnal y cyfryngau electronig yng Nghymru. Mae llawer o fyrddau iechyd yn darparu gwybodaeth ar gyfer menywod trwy gyfryngau argraffedig, hysbysfyrddau ac ati, er y gallai rhannu arfer da wella ansawdd a chysondeb y negeseuon.

# 1. Rôl Adolygwyr Lleyg a Chynnig Archwilio

## 1.1 Trosolwg o rôl adolygwyr lleyg yn ystod 2014-2015

Mae'r adolygwyr lleyg yn hanfodol i broses archwilio'r AGLl gan eu bod yn gyfrifol am ofyn am safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau mamolaeth ac asesu eu hymwybyddiaeth o oruchwyliaeth o safbwynt annibynnol. Mae'r pedwar adolygydd lleyg presennol bellach wedi bod yn y swydd ers 16 mis, ac maent wedi cyfrannu'n helaeth at weithgareddau'r AGLl yn ystod y flwyddyn wrth i'r model newydd gael ei weithredu.

Mae gan arolygwyr lleyg ffocws clir ar bersbectif y defnyddiwr gwasanaeth, yn unol â Rheol 7:2.3 Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012), sy'n argymell y dylid: 'cynnwys menywod sy'n defnyddio gwasanaethau bydwragedd i sicrhau effeithiolrwydd goruchwyliaeth bydwragedd'.

Mae cyfraniad adolygwyr lleyg at waith yr AGLl yng Nghymru yn 2014-2015 yn cynnwys:

- Cyfrannu at recriwtio goruchwylwyr bydwragedd ar gyfer y model newydd, arsylwi ar oruchwylwyr bydwragedd mewn amgylchedd gweithdy, ac eistedd ar y panel cyfweld. Roedd adolygwyr lleyg yn asesu agwedd y goruchwylwyr bydwragedd a'u hagwedd tuag at ddewisiadau menywod a gofal unigol
- Datblygu taflen ar gyfer esbonio'r model newydd ar gyfer goruchwylio yng Nghymru, ac yn fwy cyffredinol, codi ymwybyddiaeth defnyddwyr gwasanaeth o rôl goruchwylwyr
- Cyfrannu at Grŵp Monitro a Gwerthuso Cymru Gyfan yr AGLl, a sefydlwyd er mwyn monitro a gwerthuso'r dystiolaeth a geir gan y dangosyddion perfformiad allweddol, â'r nod o ddangos gwerth goruchwyliaeth. Fel rhan o'r aelodaeth hon, cynigiodd yr arolygwyr lleyg ehangu'r dangosydd perfformiad allweddol yn ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth. Cafodd hyn ei gymeradwyo a'i ehangu'n rhaglen archwilio arolygwyr lleyg, fel yr amlinellir yn Adran 1.2
- Mynychu cyfarfodydd misol goruchwylwyr bydwragedd er mwyn gwybod y diweddaraf am eu gweithgareddau, monitro cydymffurfiad â'r fanyleb wasanaeth ar gyfer goruchwyliaeth, ac adolygu cynnydd tuag at gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol
- Cyfrannu at y wybodaeth wedi'i diweddaru yn y model newydd ar gyfer goruchwyliaeth yng Nghymru, a fydd yn cael ei chynnwys yng nghofnodion cleifion llaw ar gyfer menywod beichiog
- Cymryd rhan yn adolygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ym mis Rhagfyr 2014, a oedd yn cynnwys gweithdy gyda thîm adolygu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth er

mwyn rhannu persbectif adolygwyr lleyg ar gynnydd goruchwyliaeth bydwragedd statudol yng Nghymru
- Cyfweld darpar oruchwylwyr bydwragedd a wnaeth gais i ymuno â'r model newydd ar gyfer goruchwylio bydwragedd a goruchwylwyr bydwragedd sydd wrthi'n gwneud cais i gymryd rhan yn rhaglen paratoi goruchwylwyr bydwragedd Prifysgol Abertawe. Roedd yr adolygwyr lleyg yn arsylwi ar y myfyrwyr a'r goruchwylwyr bydwragedd a'u hasesu yn y corlannau gwaith, ac roeddent yn rhan o'r panel cyfweld
- Cynorthwyo yn y broses ddethol ar gyfer rôl swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl.

## 1.2 Cynnig ar gyfer model newydd goruchwyliaeth yng Nghymru

Daeth archwiliad blynyddol yr AGLl ar gyfer 2013-2014 i ben trwy nodi:

Yn bwysicaf oll, hoffai'r AGLl ddangos bod goruchwylio bydwragedd wir yn ychwanegu gwerth at fydwragedd, menywod a hyd yn oed y goruchwylwyr bydwragedd eu hunain. Hefyd, nod y model fydd archwilio a dangos y gwerth ychwanegol mae goruchwylio yn ei gynnig i'r proffesiwn bydwreigiaeth a gwasanaethau mamolaeth, ar ben y fframwaith llywodraethu presennol, ac felly'n ehangu amddiffyniad y cyhoedd.

Yn ystod cyfarfod cynllunio'r adolygwyr lleyg â swyddogion bydwreigiaeth yr AGLl ym mis Ionawr 2015, cafodd y broses archwilio ei thrafod a'i hadolygu yng ngoleuni'r model newydd ar gyfer goruchwyliaeth yng Nghymru. Cyn gweithredu'r model newydd, roedd y broses archwilio flynyddol yn cynnwys hunanasesiad, yn ogystal ag ymweliadau archwilio gan dîm yr AGLl â phob un o'r saith bwrdd iechyd; roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd, cyflwyniadau a rowndiau arsylwi cyffredinol. Roedd y broses hon yn rhoi ciplun ar effeithiolrwydd goruchwyliaeth ym mhob rhanbarth.

O ganlyniad, roedd cynlluniau dros dro ar waith er mwyn sefydlu tîm adolygu allanol o rannau eraill o'r DU, wedi'i gynorthwyo gan adolygwyr lleyg yng Nghymru, er mwyn cynnal proses archwilio 2014-2015. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2014, cynhaliodd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth adolygiad cyflawn o oruchwyliaeth yng Nghymru. Roedd canlyniad yr adolygiad hwn yn hollol gadarnhaol – a heb yr un maes o bryder yn cael ei leisio. Cytunwyd felly na fyddai gwerth mewn dyblygu adolygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth – ond roedd yn bwysig nodi prif rannau'r model newydd na chraffwyd arnynt yn flaenorol.

Roedd amcanion cyffredinol cynnal yr archwiliad blynyddol yn parhau – hynny yw, cadarnhau bod goruchwyliaeth statudol yn cyfrannu at y mecanweithiau llywodraethu ar gyfer diogelu iechyd menywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru a'u teuluoedd. Mae'r archwiliad blynyddol hefyd yn sicrhau bod goruchwyliaeth bydwragedd yn cael ei harfer i safon ddigonol, yn unol â'r safonau a osodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Fel rhan o aelodaeth adolygwyr lleyg o Grŵp Monitro a Gwerthuso Cymru Gyfan, mae cynnig i estyn y DPA sy'n ymwneud â phrofiad y defnyddiwr gwasanaeth eisoes wedi cael ei ddrafftio, gan nodi rhannau'r model y gallai adolygwyr lleyg graffu arnynt.  Cafodd y ddogfen hon ei datblygu'n gynnig cadarn ar gyfer archwilio, a'i chyflwyno i'r AGLl er mwyn iddo ei chymeradwyo.

Mae'r tabl canlynol yn cynnig trosolwg byr o'r gwerthusiad a gynhaliwyd gan yr adolygwyr lleyg:

| Maes i'w Werthuso | Trosolwg |
|---|---|
| A1)<br>Profiad y defnyddiwr gwasanaeth | Mae'n hanfodol bod goruchwyliaeth bydwragedd yn darparu cyngor priodol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth (defnyddwyr sy'n fydwragedd a'r rhai nad ydynt yn fydwragedd), a bod defnyddwyr gwasanaeth yn fodlon ar y gwasanaeth maent wedi'i dderbyn.  Roedd yr agwedd hon ar yr archwiliad yn edrych ar y broses o ddarparu cyngor trwy'r system ar-alwad newydd, ac ar fodlonrwydd cyffredinol defnyddwyr gwasanaeth ar y cyngor a roddwyd gan oruchwylwyr bydwragedd. |
| A2)<br>Goruchwyliaeth Grŵp a Datblygiad Proffesiynol Parhaus | Mae adolygiadau un i un rhwng bydwragedd unigol a'u goruchwylwyr wedi cael eu disodli o dan y model newydd, i raddau helaeth, gan oruchwyliaeth grŵp sy'n defnyddio dull gweithredol o ddysgu.  Mae cynlluniau datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer bydwragedd yn cael eu datblygu o ganlyniad i oruchwyliaeth grŵp.  Roedd yr agwedd hon ar archwilio yn ystyried a yw ansawdd y prosesau newydd hyn yn ddigon uchel i wneud y canlynol:<br>▪ gwella amddiffyniad y cyhoedd (trwy ddilysu datblygiad proffesiynol parhaus bydwragedd)<br>▪ gwella ansawdd y gwasanaeth a gynigir i fenywod a'u teuluoedd |
| A3)<br>Mynediad hygyrch gan oruchwylwyr bydwragedd at fenywod a'u teuluoedd | Mae'r model newydd ar gyfer goruchwylio yng Nghymru yn cynnwys rhif ar-alwad cyffredinol er mwyn i fenywod a'u teuluoedd gysylltu â goruchwylydd bydwragedd.  Roedd yr agwedd hon ar archwilio'n ystyried a yw'r wybodaeth ynglŷn â goruchwylio bydwragedd yng Nghymru yn gyfredol ac yn hygyrch, ac a yw'n cyfeirio at y rhif ar alwad newydd yn deg. |

# 2. Canlyniadau Archwiliad Adolygwyr Lleyg 2014-2015

## 2.1 Gwerthusiad o brofiad defnyddwyr gwasanaeth

### 2.1.1 Amcanion

| | |
|---|---|
| Amcan 1 | Mesur boddhad defnyddwyr gwasanaeth gyda'u goruchwylydd bydwragedd. |
| Amcan 2 | Asesu ansawdd ac addasrwydd cyngor a chamau gweithredu goruchwylwyr bydwragedd mewn ymateb i gyfathrebiad â defnyddwyr gwasanaeth. |
| Amcan 3 | Sicrhau bod y system ar alwad newydd yn darparu platfform priodol ac effeithiol ar gyfer derbyn ac ymateb i geisiadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth am gymorth gan oruchwylydd bydwragedd. |

### 2.1.2 Cwestiynau'r gwerthusiad

Y cwestiynau allweddol i'w hateb oedd:

- Ydy pobl yn cysylltu â'r goruchwylwyr bydwragedd am y rhesymau iawn?
- Ydy defnyddwyr gwasanaeth yn deall swyddogaeth goruchwylwyr bydwragedd?
- Ydy'r broses o dderbyn a chofnodi cyfathrebiadau â goruchwylwyr bydwragedd yn gweithio'n effeithiol, o safbwynt cyfathrebiadau ar alwad a dim ar alwad?
- Ydy'r system hon yn pwysleisio amddiffyn y cyhoedd yn briodol?
- Ydy'r broses o atgyfeirio cyfathrebiadau o'r system ar alwad yn gweithio'n effeithiol?
- Ydy data'n cael eu croesgyfeirio, ac a oes cysylltiad rhwng y canlyniadau?
- Ydy themâu a thueddiadau mewn perthynas â chyfathrebiadau yn cael eu canfod ac yn cael sylw priodol?
- Oes yna unrhyw heriau gyda'r system ar alwad y mae angen mynd i'r afael â nhw?
- Ydy defnyddwyr yn adrodd eu bod yn fodlon ar y broses a'r cyngor maent yn ei dderbyn gan oruchwylwyr bydwragedd?

### 2.1.3 Dulliau

Cafodd y gwerthusiad ei gynnal mewn dwy ran fel a ganlyn:

- Adolygu'r system ar alwad gan gynnwys craffu ar ddogfennau cyfathrebu, cyflawni ymchwiliad dilynol pellach i sampl o gysylltiadau, a chynnal arolwg o'r goruchwylwyr bydwragedd

- Canfod defnyddwyr gwasanaeth (menywod a bydwragedd) a defnyddio holiadur i werthuso pa mor fodlon ydynt ar y gwasanaeth

Mae manylion llawn y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gael gan AGIC ar gais.

### 2.1.4 Cyfrinachedd

Rhoddwyd ffugenwau i'r rhai oedd yn cymryd rhan, a gwnaed unrhyw gyfeiriadau mewn dyfynodau at wybodaeth bersonol adnabyddadwy yn anhysbys. Roedd y defnyddwyr gwasanaeth wedi cydsynio i'w deunydd gael ei ddefnyddio, ond cawsant eu sicrhau y byddai'n parhau yn gyfrinachol. Cyfeirir atynt fel defnyddiwr gwasanaeth 1, 2, 3 ac ati.

### 2.1.5 Amcan 1: Canfyddiadau a thrafodaeth


**Amcan 1**: Mesur boddhad defnyddwyr gwasanaeth gyda'u goruchwylydd bydwragedd. Er mwyn ddadansoddi hyn, gwnaethom edrych ar y cwestiwn canlynol:

- Ydy defnyddwyr yn adrodd eu bod yn fodlon ar y broses a'r cyngor maent yn ei dderbyn gan oruchwylwyr bydwragedd?

Rydym wedi defnyddio dau gwestiwn yn yr ***Arolwg Defnyddwyr Gwasanaeth*** i roi sylw meintiol i hyn, fel y dangosir isod (gweler ffigur 1 a ffigur 2):

**Pe bai gan ffrind neu berthynas feichiog bryderon am y gofal roedd yn ei dderbyn gan ei bydwraig, byddwn:**

Atebwyd: 9 Heb ateb: 2





*Ffigur 1*

Ffigur 2

**Sut byddech chi'n disgrifio'r sgwrs a gawsoch gyda'r goruchwylydd bydwragedd?**
**Ticiwch faint bynnag o ddatganiadau sy'n berthnasol**

Atebwyd: 10 Heb ateb: 1




O ystyried bod yr holl ***Ddefnyddwyr Gwasanaeth*** wedi adrodd eu bod yn fodlon ar eu goruchwylydd bydwragedd, cytunwyd y byddai'r amcan hwn yn cael ei ymchwilio'n well trwy ddadansoddiad ansoddol sy'n rhoi sylw i ba elfennau o'u perthynas gyda'u goruchwylydd bydwragedd y mae defnyddwyr gwasanaeth yn eu gwerthfawrogi.

Dangosodd ein dadansoddiad manylach o sylwadau defnyddwyr gwasanaeth y themâu canlynol:

**Thema 1:** Mae menywod yn gwerthfawrogi **hygyrchedd** y gwasanaeth, yn arbennig **cyflymder yr ymateb**.Pan ofynnwyd sut y gellid gwella'r gwasanaeth, dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth:

**'Ni ellid ei wella.Gwnaed galwad ffôn ac o fewn yr awr roedd popeth wedi ei ddatrys :). Gwaith gwych'** ***(Menyw 4)***

Roedd menywod hefyd am i'r gwasanaeth fod yn fwy hygyrch nac y mae yn barod:

**'Dylid rhoi hwn fel rhif cyswllt y tro cyntaf y bydd menyw'n cysylltu â'r fydwraig. Rwyf wedi treulio'r rhan fwyaf o'm beichiogrwydd yn anfodlon nad yw fy mydwraig yn gwybod pwy i fynd atynt. Daeth fy mam o hyd i'r goruchwylydd bydwragedd ar y rhyngrwyd, ond nid oes gan bawb y mynediad na'r wybodaeth am yr hyn i chwilio amdano.'*****(Menyw 5)***

**Thema 2:** Mae menywod yn credu bod gan oruchwylwyr bydwragedd y **gallu i greu newid**, ac mae hyn yn werthfawr:

**'Roeddwn yn bryderus, yn ofnus o gael [manylion clinigol wedi eu hepgor].Ar ôl i mi wneud yr alwad, roeddwn yn dawelach fy meddwl. Cefais sicrwydd y byddwn yn cael fy ngweld ac y byddai'r goruchwylydd yn gwneud yr holl alwadau angenrheidiol. Cefais fy ngweld o fewn yr awr. Cymerwyd yr holl straen oddi arnaf. Gwasanaeth gwych.'** ***(Menyw 4)***

Mae'r defnyddiwr gwasanaeth uchod yn tynnu sylw at y ffaith bod ei goruchwylydd bydwragedd yn chwarae rhan hanfodol yn cael y gofal yr oedd yn gofyn amdano.

**Thema 3:** Gall cyfathrebu â goruchwylydd bydwragedd **gadw rheolaeth** ar broblemau, ac ymddengys fod defnyddio'r gwasanaeth goruchwylwyr bydwragedd yn rhwystro rhai materion rhag cael eu dilyn ymhellach neu rhag dod yn gŵyn. Mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn disgrifio derbyn canlyniad nad oedd hi ei eisiau, ond yn ddiweddarach mae'n dweud ei bod yn fodlon iawn ar gyngor y goruchwylydd bydwragedd, ac yn fodlon argymell y gwasanaeth i ffrind neu berthynas. Wrth ddisgrifio canlyniad ei galwad, dywed:

**'Gwnaeth i mi weld nad oedd unrhyw ffordd roeddwn i'n mynd i allu cael sgan y caniateir i weddill Prydain yn ei gael' [oherwydd rheolau gwahanol sy'n berthnasol i Gymru a eglurwyd iddi gan y goruchwylydd bydwragedd].** ***(Menyw 3)***

Fel y nodir uchod, er gwaethaf ei siom gyda chanlyniad y cyfathrebiad, roedd yn dal i nodi ei bod yn fodlon iawn ar yr alwad a'r gwasanaeth.

**Thema 4:** Mae **rhinweddau personol** y goruchwylydd bydwragedd wrth ryngweithio â'r defnyddiwr gwasanaeth o werth cadarnhaol:

**'Roedd y goruchwylydd bydwragedd yn groesawgar, ac fe wrandawodd ar fy mhryder.'** ***(Menyw 1)***

**'Roedd hi'n ddeallgar.'** ***(Menyw 3)***

**'Rydw i'n credu bod y goruchwylydd y gwnes i gysylltu â hi'n broffesiynol iawn, yn gefnogol heb fod yn nawddoglyd, ac roedd yn agored i unrhyw ddull o gyfathrebu oedd ar gael i mi. Roedd ei drws ar agor bob amser, ac roeddwn yn teimlo fy mod yn gallu rhannu fy mhryderon ac y byddai'n gwrando arnynt yn gydymdeimladol.'** ***(Bydwraig 3)***

**'Ateb prydlon, proffesiynol, priodol o gyfrinachol, cyfeirio da at gefnogaeth ychwanegol, hawdd iawn mynd ati.'** ***(Bydwraig 1)***

Daeth rhinweddau'r goruchwylydd bydwragedd oedd yn cael eu gwerthfawrogi gan y defnyddwyr gwasanaeth i'r amlwg ymron pob un o'r ymatebion mwy manwl. Roedd y rhain yn cynnwys sgiliau gwrando, cynhesrwydd a natur gefnogol.

**Thema 5:** Gwnaethom sylwi hefyd bod **gallu**'r goruchwylwyr bydwragedd **i rymuso** yn bwysig. Mae Bydwraig 3 uchod (wrth gyfeirio at y ffaith nad oedd yn teimlo bod y goruchwylydd yn nawddoglyd) a Menyw 2 isod (a oedd wedi teimlo ei bod yn erbyn gweithwyr iechyd proffesiynol) ill dwy yn dangos eu bod wedi teimlo eu bod wedi eu grymuso gan y cyfathrebiad.

Gwnaeth y cyngor rymuso'r defnyddiwr gwasanaeth lle'r oedd ei chyswllt gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill wedi bod yn anodd. Arweiniodd hyn at well canlyniad:

**'Dyma'r tro cyntaf i mi glywed fy mod yn gallu cysylltu â rhywun am unrhyw broblemau neu bryderon. Hyd yma, roeddwn yn teimlo fy mod yn sefyll ar ben fy hun yn erbyn staff iechyd.Mae angen rhoi gwybod i bob menyw feichiog bod ganddi'r opsiwn o siarad â rhywun, a bod rhywun yno i wrando arni.'** ***(Menyw 2)***

**Thema 6:** Wrth ddisgrifio eu hymwneud â nhw, dywedodd menywod fod y goruchwylydd bydwragedd yn darparu **sicrwydd** a chefnogaeth **emosiynol**, a bod hyn wedi bod o fudd cadarnhaol i'w beichiogrwydd a'u profiad o roi genedigaeth.

**'Dwi ddim yn credu bod unrhyw beth mwy y gellid bod wedi ei wneud. Hynod o hapus ar ôl siarad â goruchwylydd xxx.'** ***(Menyw 4)***

**'Roeddwn yn bryderus ac yn nerfus am enedigaeth y baban hwn oedd ar ddod oherwydd y ffordd y gwnaeth yr ysbyty ymdrin â phethau'r tro diwethaf.Gadawodd y goruchwylydd i mi siarad am yr holl broblemau, ac roedd yn gydymdeimladol iawn am fy mhryderon.b Nawr rwy'n teimlo y gallaf ymlacio ynghylch yr enedigaeth ac edrych ymlaen ati.'** ***(Menyw 2)***

**'Roeddwn yn teimlo fy mod yn cael mwy o gymorth, ac o ganlyniad roeddwn yn llawer hapusach gyda fy meichiogrwydd a'r profiad o roi genedigaeth.Rwyf wir yn credu ei bod hi wedi cyfrannu at fy lles, oherwydd yn ystod fy meichiogrwydd blaenorol, roeddwn wedi bod yn teimlo'n isel ac yn ofnus.'** ***(Menyw 7)***

**Thema 7:** Mae defnyddwyr gwasanaeth yn credu bod angen codi **ymwybyddiaeth** o'r gwasanaeth goruchwylydd bydwragedd. Nododd nifer o'r defnyddwyr gwasanaeth nad oeddent wedi cael gwybodaeth am oruchwylwyr bydwragedd yn gynnar yn ystod eu beichiogrwydd. Mae manylion am y gwasanaeth goruchwylydd bydwragedd yn awr yn cael

eu cynnwys yng nghofnod llaw'r fenyw, felly efallai bod hyn yn awgrymu y dylid cyfweld/archwilio barn ymhellach i ganfod pam nad yw defnyddwyr gwasanaeth yn ystyried bod yr wybodaeth hon yn hygyrch.

**'Dylid rhoi'r manylion cyfathrebu hyn pan fydd y fenyw'n dod i gysylltiad â'r fydwraig am y tro cyntaf. Rwyf wedi treulio rhan fwyaf fy meichiogrwydd yn anhapus am nad yw fy mydwraig yn gwybod pwy i gysylltu â nhw. Daeth fy mam o hyd i'r goruchwylydd bydwragedd ar y rhyngrwyd, ond nid oes gan bawb y mynediad na gwybodaeth am yr hyn y mae angen chwilio amdano.'** ***(Menyw 5)***

**'Dwi ddim yn siŵr bod unrhyw le i wella. Roedd yn wasanaeth gwych. Efallai rhoi'r rhif i bob menyw feichiog – arbed gwglo. Ond ar wahân i hynny – gwasanaeth ardderchog.'** ***(Menyw 4)***

### 2.1.6 Amcan 2: Canfyddiadau a thrafodaeth

**Amcan 2:** Asesu ansawdd ac addasrwydd cyngor a chamau gweithredu goruchwylwyr bydwragedd mewn ymateb i gyfathrebiad â defnyddwyr gwasanaeth. Er mwyn dadansoddi hyn, gwnaethom edrych ar y cwestiynau canlynol:

- Ydy'r broses o dderbyn a chofnodi cyfathrebiadau â goruchwylwyr bydwragedd yn gweithio'n effeithiol?
- Ydy'r system hon yn pwysleisio amddiffyn y cyhoedd yn briodol?
- Ydy'r broses o atgyfeirio cyfathrebiadau o'r system ar alwad yn gweithio'n effeithiol?
- Ydy data'n cael eu croesgyfeirio, ac a oes cysylltiad rhwng y canlyniadau?
- Ydy themâu a thueddiadau mewn perthynas â chyfathrebiadau'n cael eu canfod ac yn cael sylw priodol?


### Cyngor goruchwylydd bydwragedd

Canfuwyd y canlyniadau meintiol canlynol o'r ***Arolwg Cyfathrebiadau Defnyddwyr*** (gweler ffigur 3 a ffigur 4 isod):

*Ffigur 3*

**Sut byddech chi'n disgrifio'r sgwrs a gawsoch gyda'r goruchwylydd bydwragedd? Ticiwch faint bynnag o ddatganiadau sy'n berthnasol**


Atebwyd: 10 Heb ateb: 1




*Ffigur 4*

**Sut byddech chi'n graddio pa mor ddefnyddiol oedd y cyngor y gwnaethoch ei dderbyn gan y goruchwylydd bydwragedd?**

Atebwyd: 10 Heb ateb: 1



Fodd bynnag, efallai y bydd angen sesiwn ddiweddaru ar ffiniau'r cyngor y dylai goruchwylwyr bydwragedd fod yn ei ddarparu mewn sefyllfaoedd clinigol, yn arbennig gan y bydd hyn bellach yn cael ei gyflenwi mewn bwrdd iechyd sy'n anghyfarwydd i'r goruchwylydd bydwragedd ar alwad:

**'Dywedodd y goruchwylydd wrthyf ei bod yn brin iawn i fod yn [manylion clinigol wedi eu hepgor] ac y byddai'n gwneud galwad ffôn. Dwi'n credu mai yn sgil yr alwad hon y cafodd yr enedigaeth ei hysgogi'r diwrnod hwnnw :).'** ***(Menyw 4)***

Mae ansawdd y cyngor a ddarperir gan oruchwylwyr bydwragedd yn bwysig i sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael:

**'[Gwnaeth y goruchwylydd bydwragedd] wneud i mi weld nad oedd unrhyw ffordd i mi allu cael sgan y caniateir yng ngweddill Prydain Fawr.'** ***(Menyw 3)***

### Atgyfeirio cyfathrebiadau a chamau gweithredu goruchwylydd bydwragedd

Dangosodd trafodaethau â goruchwylwyr bydwragedd fel rhan o ***Gamau Dilynol SBAR*** (Sefyllfa, Cefndir, Gweithredu, Adolygu) fod cyfathrebiadau ar alwad yn cael eu hatgyfeirio at oruchwylydd bydwragedd lleol yn ôl yr angen. Canfuwyd y canlynol mewn perthynas â'r broses o atgyfeirio cyfathrebiadau ar alwad at barti arall a chamau dilynol wedi hynny:

- Mae atgyfeiriadau mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys e-byst, atodiadau e-byst, galwadau ffôn, dolen iShare (system gadw TG Llywodraeth Cymru) ac ati. Er ei bod yn gydnabyddedig yn ôl pob golwg mai'r ffordd gywir i atgyfeirio cyfathrebiad yw trwy ddarparu dolen i'r SBAR ar iShare mewn e-bost, efallai bydd angen i ymchwiliad pellach nodi pam nad yw'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio fel dull safonol.

- Nid oes unrhyw ddull ffurfiol ar gyfer camau dilynol ar ôl i gyfathrebiad ar alwad gael ei atgyfeirio at barti arall, a derbynnir ar goel y bydd y camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cymryd. Er na wnaethom ganfod unrhyw dystiolaeth benodol nad oedd camau dilynol yn cael eu cymryd, mae'r diffyg o ran cysylltu gweithredoedd y dyfodol gyda'r cyswllt gwreiddiol yn gwneud y broses o archwilio canlyniadau cysylltu trwy gyfrwng y system ar alwad yn anodd. Un ateb posibl fyddai defnyddio'r SBAR gwreiddiol i 'glymu'r ddolen' trwy gofnodi unrhyw gamau gweithredu i'w cymryd yn y dyfodol sy'n berthnasol i'r alwad wreiddiol ar yr un ddogfen. Ceir manylion pellach am hyn yn adran 2.1.8 isod. Byddai hyn yn gosod manylion y broses gyfan mewn un lle, a byddai'n galluogi croesgyfeirio a gwerthuso hawdd yn y dyfodol.

### Themâu a thueddiadau cyfathrebiadau

Cadarnhaodd adolygiad o ***Adroddiadau Tueddiadau Ar Alwad*** a phresenoldeb yn y ***Cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd Misol*** fod themâu a thueddiadau'n cael eu nodi a'u trafod.  Cydnabuwyd y gellid datblygu hyn ymhellach:

> **'Hoffwn greu llyfrgell gyfeirio ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd tra maent ar alwad, ond bydd hyn y cael ei ddatblygu dros amser pan fyddwn yn canfod cwestiynau a phatrymau cyffredin.'** **(*Goruchwylydd Bydwragedd 15)***

## 2.1.7 Amcan 3: Canfyddiadau a thrafodaeth

**Amcan 3:** Sicrhau bod y system ar alwad newydd yn darparu platfform priodol ac effeithiol ar gyfer derbyn ac ymateb i geisiadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth am gymorth gan oruchwylydd bydwragedd.


Er mwyn dadansoddi hyn, gwnaethom edrych ar y cwestiynau canlynol:

- Ydy pobl yn cysylltu â'r goruchwylwyr bydwragedd am y rhesymau iawn?
- Ydy defnyddwyr gwasanaeth yn deall swyddogaeth goruchwylwyr bydwragedd?
- Ydy'r broses o dderbyn a chofnodi cyfathrebiadau â goruchwylwyr bydwragedd yn gweithio'n effeithiol?
- Ydy'r system hon yn pwysleisio amddiffyn y cyhoedd yn briodol?
- Oes yna unrhyw heriau gyda'r system ar alwad y mae angen mynd i'r afael â nhw?

### Deall Swyddogaeth Goruchwylwyr Bydwragedd

Yn ystod y cyfnod a arolygwyd, roedd yr 84 o alwadau a gofnodwyd a gafodd eu hystyried fel rhan o'r ***Adolygiad SBAR*** o'r ffynonellau canlynol:

*Ffigur 5*





Dangosodd yr ***Arolwg System ar Alwad*** y canlyniadau meintiol canlynol mewn perthynas â pherthnasedd y galwadau a dderbyniwyd trwy gyfrwng y rhif ar alwad (gweler ffigur 6&7):

*Ffigur 6*

**Ydych chi'n teimlo bod y galwadau ffôn a dderbyniwyd gan fydwragedd (trwy'r rhif ar alwad NEWYDD) wedi bod yn berthnasol i'ch swyddogaeth fel goruchwylydd bydwragedd?**


Atebwyd: 15 Heb ateb: 0



*Ffigur 7*

**Ydych chi'n teimlo bod y galwadau ffôn a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd (trwy'r rhif ar alwad NEWYDD) wedi bod yn berthnasol i'ch swyddogaeth fel goruchwylydd bydwragedd?**

Atebwyd: 15 Heb ateb: 0




Adroddodd y goruchwylwyr bydwragedd fod y cyfathrebiadau gan fydwragedd ymron i gyd yn berthnasol i'w swyddogaeth, tra oedd ceisiadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth eraill yn llai perthnasol.

Fodd bynnag, mae rhai bydwragedd nad ydynt yn ymwybodol o'r system newydd:

**'derbyniwyd galwad ffôn gan xx, a oedd yn y tîm rheoli ar alwad ar gyfer ysbyty xx. Roedd xx wedi galw'r switsfwrdd yn ysbyty xx ac wedi gofyn i siarad â'r goruchwylydd bydwragedd ar alwad. Ar ddechrau'r alwad, roedd xx yn credu fy mod i'n bresennol yn yr ysbyty yn gweithio. Unwaith i mi esbonio'r model newydd ar gyfer goruchwylio, ac mai fi oedd ar alwad ar gyfer Cymru gyfan, ac nad oeddwn yn ymwybodol o'r cynllun cau yn xx, gofynnodd am gyngor mewn perthynas â'r angen i gau yn ysbyty xx.'** ***(Dyfyniad o SBAR)***

**'[mae galwadau gan fydwragedd] yn berthnasol ar y cyfan, ac eithrio galwadau am uwchgyfeirio.'** ***(Goruchwylydd Bydwragedd 1)***

Fodd bynnag, o fewn yr ***Adolygiad SBAR***, nododd y broses ostyngiad yn nifer y galwadau oedd yn ymwneud â materion uwchgyfeirio/staffio dros gyfnod yr adolygiad. Caiff hyn ei gadarnhau ymhellach gan yr ***Adroddiad Tueddiadau ar Alwad***, sydd felly'n awgrymu bod dealltwriaeth o swyddogaeth goruchwylwyr bydwragedd yn gwella ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol.

Roedd cynnydd hefyd yn nifer y galwadau gan fenywod beichiog yn ystod cyfnod yr adolygiad, er bod nifer o'r galwadau gan y menywod hyn yn ymddangos i fod yn llai perthnasol i swyddogaeth goruchwylwyr bydwragedd. Fe all hyn awgrymu bod ymwybyddiaeth o fodolaeth goruchwylwyr bydwragedd wedi cynyddu ymysg menywod

beichiog, ond nad yw eu dealltwriaeth o'u swyddogaeth wedi cynyddu o anghenraid. Mae hyn yn gyson â'r canfyddiadau yn ffigur 6 & 7 uchod.


**'Yn fy mhrofiad i, mae'n ymddangos bod galwadau gan y cyhoedd wedi eu camgyfeirio – yn gyffredinol, maen nhw'n chwilio am gyngor clinigol y tu allan i oriau neu'n ceisio cael gafael ar reolwr bydwreigiaeth.'** *(Goruchwylydd Bydwragedd 8)*

### Cofnodion cyfathrebiadau goruchwylwyr bydwragedd

Mae system ganolog iShare yn galluogi i'r holl gyfathrebiadau â goruchwylwyr bydwragedd a dderbynnir gael eu cipio a'u cadw mewn un lleoliad trwy gyfrwng y rhif ar alwad canolog, gan ganiatáu mynediad hawdd at yr holl gofnodion. Mae nifer o feysydd yn elwa ar hyn, gan gynnwys diogelu data, cyfeirio hawdd, monitro, ac archwilio. Er i ganran sylweddol o oruchwylwyr bydwragedd nodi yn yr ***Arolwg System ar Alwad*** iddynt dderbyn hyfforddiant mewn nifer o feysydd (gweler ffigur 8 isod), canfu ein ***Hadolygiad SBAR*** fod nifer o feysydd yn dal i fod lle y byddai diweddaru hyfforddiant yn fuddiol er mwyn galluogi gwelliannau yn y system, gan fod 60% o oruchwylwyr bydwragedd wedi nodi bod angen hyfforddiant pellach.

*Ffigur 8*

**Fel goruchwylydd bydwragedd, ydych chi wedi derbyn hyfforddiant/arweiniad ar y canlynol (ticiwch bob un sy'n berthnasol):**
Atebwyd: 15 Heb ateb: 0



Meysydd i'w datblygu a ganfuwyd o'r rhan hon o'r archwiliad:

- Lle mae’r alwad gan fenyw, mae'r manylion a gofnodir ar y ffurflenni SBAR yn rhan o nodiadau meddygol y fenyw; felly, dylai'r cynnwys gynrychioli ffeithiau ac osgoi iaith emosiynol.  Efallai y bydd angen hyfforddiant pellach ar gysondeb yr iaith mewn ffurflenni SBAR, yn arbennig o ran osgoi iaith a all achosi tramgwydd. Er enghraifft, y defnydd o'r geiriau 'dewis peidio' yn hytrach na 'gwrthod' wrth ddisgrifio dewis menyw.

- Mae angen gwella cysondeb o ran enwau ffeiliau SBAR, gan gynnwys osgoi defnyddio data personol yn rhan o enw ffeil, defnydd cyson o ddyddiadau, priflythrennau ac ati. Byddai cynnwys cyfeirnod unigryw ar gyfer pob ffurflen SBAR yn gwella cyfeirio ac archwilio yn y dyfodol, ynghyd â gwella cydymffurfiaeth ag egwyddorion Caldicott ar gyfer cadw cofnodion clinigol.

- Cysondeb wrth atgyfeirio cyfathrebiadau ar alwad (trwy gyfrwng dolen at y ddogfen SBAR ar iShare).  Er bod trafodaethau gyda goruchwylwyr bydwragedd yn awgrymu eu bod yn ymwybodol o hyn, efallai y bydd angen cynnal adolygiad pellach o anawsterau technoleg gwybodaeth er mwyn penderfynu ar yr hyn y gellir ei wneud i sicrhau bod y broses gywir yn cael ei dilyn.

- Mae angen gwella a chryfhau'r dull o 'gau' ffurflen SBAR.  Oni bai bod y broblem dan sylw wedi cael ei datrys yn gyfan gwbl yn ystod yr alwad ffôn, mae'n anodd iawn penderfynu a yw camau gweithredu argymelledig wedi eu cyflawni ac a yw'r broblem wedi ei datrys. Hefyd, mae ffurflenni SBAR dyblyg ar gyfer nifer o gyfathrebiadau.  Dylid osgoi dyblygu trwy gael tudalennau lluosog yn y ddogfen wreiddiol, a gellid sefydlu proses ychwanegol ar gyfer 'cau' pob ffurflen SBAR.  Gallai hyn gynnwys blwch gwirio 'cwblhawyd' yn y ffurflen SBAR, ac elfen ychwanegol i enw'r ffeil i ddangos bod y mater wedi ei derfynu.  Efallai y bydd angen gwerthusiad pellach o hyn o ran y buddiannau mewn perthynas â'r angen am adnoddau.

- Mae nifer o gyfathrebiadau gyda goruchwylwyr bydwragedd yn cael eu gwneud heb y rhif ar alwad.  Mae goruchwylwyr bydwragedd wedi dweud wrthym fod ffurflenni SBAR weithiau'n cael eu cynhyrchu ond eu bod yn cael eu cadw ar y system leol. Byddai o gymorth pe bai pob ffurflen SBAR (ar alwad ac nid ar alwad) yn cael ei chofnodi yn yr un man.

## Y system a phroblemau technegol

Codwyd nifer o broblemau technegol cychwynnol gyda'r model canolog yn ystod ein harchwiliad.  Er enghraifft, nododd 53% o oruchwylwyr bydwragedd yn yr ***Arolwg System ar Alwad*** iddynt brofi problemau wrth fewngofnodi i'r system.   Mae'r problemau technegol eraill a amlygwyd gan y goruchwylwyr bydwragedd yn yr ***Arolwg System ar Alwad*** y bydd angen mynd i'r afael â nhw ymhellach yn cynnwys:

- Ymarferoldeb y gliniaduron
- Mynediad at y system iShare gan gynnwys anawsterau mewngofnodi ac allgofnodi
- Signal ffôn symudol – er na ellir datrys hyn o anghenraid, fe all fod o gymorth i oruchwylwyr bydwragedd gydnabod y posibilrwydd o golli galwadau yn gynnar yn ystod sgwrs â defnyddiwr gwasanaeth, a chadarnhau'r weithdrefn (e.e. cymryd y rhif cyswllt yn syth a chadarnhau galwad yn ôl)
- Mae'r broblem uchod hefyd yn gysylltiedig â'r broblem o fethu â dychwelyd galwad pan fydd y signal yn cael ei golli, neges lle na adawyd rhif neu pan dderbynnir galwad a gollwyd.  Yn ystod y gwerthusiad, cadarnhaodd 27% o oruchwylwyr bydwragedd nad oeddent wedi gallu dychwelyd galwad a gollwyd oherwydd nad oedd rhif wedi ei gadw yn y ffôn:

**'methu â dychwelyd galwad gan nad yw'r ffôn yn cadw rhifau sy'n dod i mewn'**
***(Goruchwylydd Bydwragedd 1)***

**'Nid yw'r system peiriant ateb yn rhoi dewis i ddychwelyd galwad ac nid oes rhif yn cael ei gadw ar y rhestr galwadau.'** ***(Dyfyniad o SBAR)***

- Cadarnhaodd adran cymorth technegol AGIC fod y rhif ffôn ar alwad wedi derbyn cyfanswm o 1,245 o alwadau rhwng mis Awst 2014 a mis Mawrth 2015.
- Er mai dim ond tan Chwefror 2015 yr oedd y cyfnod gwerthuso, dim ond 84 adroddiad SBAR sydd wedi cael eu ffeilio ar y system iShare.  Mae hyn yn cyfateb i 9% o gyfanswm y galwadau.
- Mae gwybodaeth gan y goruchwylwyr bydwragedd yn dangos bod cyfran fawr o'r 91% o alwadau sy'n weddill yn wiriadau technegol, yn arbennig pan gafodd y system ei sefydlu i ddechrau, er mwyn sicrhau bod y goruchwylydd bydwragedd yn dal wedi mewngofnodi'n gywir neu wedi allgofnodi'n llwyddiannus. Mae hyn yn gwneud cyfanswm o oddeutu chwe galwad prawf ym mhob cyfnod 24 awr.
- Byddai hefyd yn ddefnyddiol gofyn am ddadansoddiad pellach o nifer y galwadau bob mis i asesu a oedd y profion technegol yn elfen amlwg o roi'r system ar waith i ddechrau ac a ydynt yn digwydd yn llawer llai aml erbyn hyn.   Os nad ydynt, fe all

fod yn werth ystyried a ellid rhoi dull arall o brofi effeithiolrwydd mewngofnodi ar waith, gan fod y drefn hon ar gyfer gwirio'r system yn cymryd llawer iawn o amser.

### 2.1.8 Casgliad ac argymhellion

Mae menywod beichiog yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth goruchwylwyr bydwragedd am y rhesymau canlynol: **cyflymder yr ymateb; y gallu i greu newid; rheoli problemau; rhinweddau personol; defnyddio pŵer; sicrwydd emosiynol.** Fodd bynnag, maent hefyd yn credu bod angen codi **ymwybyddiaeth** o'r gwasanaeth goruchwylydd bydwragedd.

Mae **ein hargymhellion yn dilyn yr archwiliad** mewn perthynas â boddhad defnyddwyr gwasanaeth fel a ganlyn:

- dylid cynnal gwerthusiad pellach i bennu pam nad yw menywod yn ymwybodol o fanylion goruchwylwyr bydwragedd o'u nodiadau llaw
- dylai mwy o gyhoeddusrwydd fod ar gael am rôl y goruchwylwyr bydwragedd mewn fformat hawdd ei ddeall
- gan fod yr arolwg ar-lein wedi cael ei greu bellach a bod defnyddwyr ychwanegol yn dal i'w gwblhau, byddem yn awgrymu fel rhan o'r cylch archwilio nesaf y gall adolygwyr lleyg barhau i ddadansoddi a rhoi adborth ar y data a themâu perthnasol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol

Mae goruchwylwyr bydwragedd yn darparu cyngor priodol o ansawdd da, ond dylid ystyried y canlynol ymhellach:

- dylid cynnig sesiwn ddiweddaru ar ffiniau'r cyngor y dylai goruchwylwyr bydwragedd ei ddarparu mewn sefyllfaoedd clinigol

Mae atgyfeirio cyfathrebiadau goruchwylwyr bydwragedd ar alwad yn briodol/effeithiol, ond awgrymir gwneud dau welliant:

- dylid rhannu pob atgyfeiriad trwy gyfrwng dolen at y SBAR ar iShare
- dylid gwella a ffurfioli'r dull ar gyfer 'cau' cyfathrebiad trwy gyfrwng y system SBAR iShare, a dylid ei roi ar waith

Mae themâu a thueddiadau o gyfathrebiadau goruchwylwyr bydwragedd yn cael eu canfod a'u trafod, ond argymhellir y canlynol:

- dylai'r rhain gael eu hadnabod a'u hadolygu ymhellach er mwyn helpu i rannu arfer gorau

Mae perthnasedd galwadau i'r rhif goruchwylydd bydwragedd gan fydwragedd yn uchel ar y cyfan, ond mae galwadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn aml yn llai perthnasol, ond maent yn cynyddu o ran nifer. Argymhellir y canlynol:

- bod codi ymwybyddiaeth ymysg defnyddwyr gwasanaeth yn parhau a'r effaith ar nifer y galwadau a dderbynir yn cael ei fonitro

Mae llawer o fuddiannau i gofnodi pob cyfathrebiad goruchwylydd bydwragedd ar alwad, ac argymhellir y canlynol:

- gweithredu rhai gwelliannau bach o ran cysondeb cofnodi a chadw data fel yr amlinellir dan 'gofnodion cyfathrebiadau goruchwylydd bydwragedd'

Mae nifer o elfennau buddiol i'r system ar alwad newydd i hwyluso cyflenwi'r gwasanaeth goruchwylydd bydwragedd, ond argymhellir y canlynol:

- mae angen datrys y problemau technegol a amlinellir dan 'y system a phroblemau technegol' uchod cyn gynted â phosibl

## 2.2 Archwiliad o oruchwyliaeth grŵp a datblygiad proffesiynol parhaus

### 2.2.1 Amcan

**Sicrhau bod goruchwyliaeth grŵp a phrosesau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) o ansawdd digonol i bwysleisio amddiffyn y cyhoedd trwy sicrhau bod bydwragedd yn parhau i fod yn addas i ymarfer, a thrwy hynny wella'r gwasanaeth a gynigir i fenywod a'u teuluoedd.**

### 2.2.2 Cwestiynau'r archwiliad

Y cwestiynau allweddol i'w hateb oedd:

- A yw'n bosib i fydwragedd 'guddio' mewn sesiwn goruchwyliaeth grŵp a thrwy hynny guddio rhag cael sylw ac osgoi mynd i'r afael â meysydd o bryder?
- Ydy bydwragedd yn teimlo eu bod yn gallu lleisio pryderon mewn sesiwn goruchwyliaeth grŵp?
- Sut mae'r fformat goruchwylio newydd yn hwyluso pryderon am arfer unigol – naill ai am arfer unigolion eu hunain neu am arfer eu cydweithwyr?
- A yw goruchwyliaeth grŵp yn hwyluso rhannu arferion gorau?
- Allwn ni ganfod unrhyw enghreifftiau sy'n dangos bod goruchwyliaeth grŵp wedi gwella diogelwch y cyhoedd neu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir?
- A oes tystiolaeth bod anghenion datblygu cytûn bydwragedd unigol yn adlewyrchu pryderon unigol neu ar y cyd a/neu adborth gan fenywod ar wella'r gwasanaeth?

### 2.2.3 Dulliau

Cafodd yr archwiliad ei gynnal mewn tri rhan:

- adolygiad o reoliadau a chanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar ofynion goruchwyliaeth a DPP i fydwragedd
- arsylwi ar sesiynau goruchwyliaeth grŵp
- cyfweliadau gyda bydwragedd a goruchwylwyr bydwragedd

Mae manylion llawn y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gael gan AGIC ar gais.

### 2.2.4 Cyfrinachedd

Diben yr archwiliad oedd edrych ar brosesau fel bod pob cyfweliad yn cael ei gynnal yn anhysbys a bod sylwadau'n cael eu nodi heb gyfeirio at yr unigolyn na'i rôl. Er bod y cynllun yn cynnwys adolygu cynlluniau DPP bydwragedd, ni ddigwyddodd hyn, er bod cyfweliadau wedi eu cynnal ar sut roeddent yn penderfynu ar eu blaenoriaethau DPP. Galluogodd hyn i ni wneud sylwadau ar y broses a'r dull, a dyna oedd y bwriad.

### 2.2.5 Canfyddiadau a thrafodaeth

#### Canfyddiadau meintiol

Mae maint y sampl yn fach, felly dylid ystyried y canlynol yn y cyd-destun hwnnw, ac ochr yn ochr â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd mewn perthynas ag adolygiadau goruchwylio blynyddol (Adroddiad Blynyddol Staff). Yn ystod yr archwiliad, cafwyd y data canlynol:

Mewn perthynas â rheol 9b rheolau a safonau bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth:

- Roedd gan 100% o fydwragedd y gwnaethom siarad â nhw Adroddiad Blynyddol Staff cyfredol
- Roedd 100% o'r bydwragedd wedi mynychu cyfarfod goruchwylio yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mewn perthynas â rheol 9 safon 1.5 rheolau a safonau bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth:

- Roedd 60% o oruchwylwyr bydwragedd a bydwragedd yn gyfarwydd â Chanllawiau Holi ac Ateb Adroddiad Blynyddol Staff.

Mewn perthynas â Chanllawiau'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar Adroddiad Blynyddol Staff Cymru (Holi ac Ateb) yn annog bydwragedd i werthuso a myfyrio ar eu harfer trwy ffynonellau lluosog fel menywod, cydweithwyr a'u cyflogwr:

- Roedd 20% o oruchwylwyr bydwragedd a bydwragedd yn gallu rhoi enghraifft o ble roedd adborth gan fenywod wedi llywio DPP.

Mewn perthynas â Chanllawiau'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar Adroddiad Blynyddol Staff Cymru (Holi ac Ateb) yn sicrhau bod bydwragedd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cofrestru, hysbysiad o fwriad i ymarfer ac adnewyddu cofrestriad:

- Nododd 83% o oruchwylwyr bydwragedd a bydwragedd ail-ddilysu fel pwnc yr ymdriniwyd ag ef mewn sesiynau goruchwyliaeth grŵp (ni chafodd hyn ei ofyn fel cwestiwn uniongyrchol).

### Canlyniadau a chanfyddiadau ansoddol

Darparodd y cyfweliadau lawer o wybodaeth ynghylch sut mae goruchwylwyr bydwragedd a bydwragedd yn profi realaeth goruchwyliaeth grŵp. O ystyried cylch gwaith yr archwiliad hwn, gwnaethom geisio canfod themâu oedd yn dod i'r amlwg ar sut mae goruchwyliaeth grŵp yn mynd i'r afael â:

- gwella amddiffyn y cyhoedd
- gwella ansawdd gwasanaeth
- ymgorffori adborth gan fenywod

Yn ogystal, gwnaethom edrych ar y buddiannau a'r heriau a ddaw wrth gyflenwi goruchwyliaeth grŵp.

Yr ail faes o ddiddordeb oedd DPP, ac eto nodwyd y themâu dan dri phennawd:

- swyddogaeth y goruchwylydd bydwragedd
- ymgorffori adborth gan fenywod
- effeithiolrwydd y broses

## Thema: Gwella Amddiffyn y Cyhoedd

Cyfeiriwyd yn fynych at y ffaith bod sesiynau goruchwyliaeth grŵp yn mynd i'r afael â'r mater o wella amddiffyn y cyhoedd fel pwnc ail-ddilysu a'r hyn mae hynny'n ei olygu:

**‘[Mewn] un i un, [rwyt] yn cael y buddsoddiad cymhwysedd Adolygiad o Ddatblygiad Proffesiynol, ond mewn sesiwn grŵp, [rwyt] yn cael llai o fanylder ac [rwyt] yn cael y cyfle i siarad am wybodaeth newydd fel y cod newydd.’**

**‘helpu i'w ddadansoddi ychydig [ail-ddilysu] a'i wneud ychydig yn haws i'w ddeall.’**

**‘gwell dealltwriaeth o ail-ddilysu.’**

Gwelwyd trafodaeth sylweddol a manwl am ail-ddilysu, oedd yn amlwg yn galluogi'r bydwragedd oedd yn bresennol i ddechrau meddwl am beth fyddai'r heriau iddynt wrth gwrdd â'r gofynion ail-ddilysu a'r hyn y gallant ei wneud yn awr i baratoi.

Rhoddwyd enghraifft benodol o hyn oedd yn dangos sut roedd y fformat grŵp wedi galluogi lleisio pryder yn ymwneud ag amddiffyn y cyhoedd a dilyn y mater i'r pen. Teimlwyd efallai nad oedd hyn wedi bod yn amlwg yn fformat un i un yr Adroddiad Blynyddol Staff, oherwydd unwaith i'r pwnc gael ei godi yn y sesiwn goruchwyliaeth grŵp, cafwyd enghreifftiau gan eraill a bod ymwneud y goruchwylwyr bydwragedd wedi sicrhau ei fod yn cael sylw.

Roedd nifer o'r unigolion y gwnaethom gyfweld â nhw'n teimlo bod y model goruchwyliaeth grŵp yn caniatáu i bobl fod yn fwy gonest ac yn annog holi cwestiynau.

**‘grŵp o dri ohonom – ond yn fwy agored a gonest – cyn hynny gweithiais gyda fy ngoruchwylydd bydwragedd, felly roedd yn anodd codi'r mater weithiau – [mewn goruchwyliaeth grŵp] roeddem yn gallu dweud ein cwyn heb boeni am wneud hynny.’**

Nodwyd y buddiannau o gael cefnogaeth gan eraill oedd yn profi'r un problemau.

**‘Hoffi goruchwyliaeth grŵp – well nag un i un – teimlo'n fwy rhydd i ddweud os oes rhywbeth yn eich poeni ac fel arfer mae gan rywun arall yr un problemau ac maent yn annog ei gilydd.’**

A chynnwys pawb yn y drafodaeth.

**‘Cyfrannodd pawb – ni fyddai wedi bod yn bosibl cuddio yn y sefyllfa honno.’**

Gwelwyd y diwylliant o fod yn agored wrth arsylwi ar sesiwn goruchwyliaeth grŵp, ac roedd yn arbennig o galonogol i glywed bydwragedd yn siarad am sut y maent yn ymwybodol o'r angen i holi am bethau nad ydynt yn eu gwybod a chydnabod po fwyaf o wybodaeth sydd ganddynt y mwyaf maen nhw'n sylweddoli bod pethau nad ydynt yn eu gwybod.

Mae arwyddion y gallai'r model o bosibl ddod yn un o nifer o ddulliau ar gyfer sicrhau nad yw diwylliannau niweidiol yn datblygu o fewn timau.

**'ceisio annog goruchwyliaeth grŵp trawsffiniol – da i weld sut mae cydweithwyr eraill yn gweithio – gellir herio diwylliannau trwy gymysgu a dysgu gan ein gilydd' 'torri trwy ddiwylliannau a cheisio cael yr holl wahanol fydwragedd i fod mewn cysylltiad gyda'i gilydd – cymysgu graddau.'**

Ni nodwyd unrhyw bryderon ynglŷn â goruchwyliaeth grŵp.

### Gwella ansawdd gwasanaeth

Nodwyd y posibilrwydd ar gyfer gwell darpariaeth gwasanaeth yn y cyfweliadau. Cyfeiriodd nifer o bobl at y cyfle i ddysgu gan ei gilydd, ac yn yr un modd y buddiannau o gwrdd â grŵp mwy amrywiol o fydwragedd. Mae hyn yn debygol o gyflenwi gwell gwasanaethau o ganlyniad i ddiwylliant o ddysgu:

**'Ie, dysgu gan eraill – defnyddiol o'r safbwynt hwnnw.'**

**'rhoi cyfle i ni i gyd ddod at ein gilydd, ac fe ddysgais rywbeth gan fydwraig X nawr'**

ynghyd â mwy o ymwybyddiaeth o swyddogaethau bydwragedd eraill:

**'X yn cael ei gweld fel [gwasanaeth] sinderela, a gyda goruchwyliaeth grŵp, ceir cyfle i gwrdd ag ystod ehangach o gydweithwyr a chael gwell dealltwriaeth o'n swyddogaethau ni a nhw.'**

Yn bennaf, roedd mwyafrif y rhai y gwnaethom gyfweld â nhw yn gallu nodi rhywbeth roeddent wedi ei ddysgu yn ystod sesiynau goruchwyliaeth grŵp y byddent yn ei ddefnyddio yn eu harfer:

**'Defnyddio SBAR yn fwy manwl ond heb fynd ormod ar goll – canolbwyntio ar y pethau priodol yn y sefyllfa honno – eglurder.'**

**'Nodi myfyrdodau mwy cyfoes ar sefyllfaoedd bob dydd yn ysgrifenedig – e.e. achos cymhleth mewn clinig cyn geni.'**

er nad oedd hwn yn brofiad cyffredinol:

**‘Dim byd penodol wedi ei drafod ynghylch arfer da y gellid ei fabwysiadu.’**

### Ymgorffori adborth gan fenywod

Mae'r ddogfen Holi ac Ateb y cyfeiriwyd ati yn y fethodoleg ar gyfer yr archwiliad hwn (Canllaw Adolygiad Goruchwylio Blynyddol Awdurdod Goruchwylio Lleol Cymru) yn nodi deg o werthoedd proffesiynol ar y tudalen blaen. Mae dau o'r rhain yn cyfeirio at gael adborth gan fenywod, ac mae un yn cyfeirio at gefnogi menywod i wneud dewisiadau ynglŷn â’u gofal. Nid oes sôn yng ngweddill yr adroddiad am swyddogaeth menywod yn natblygiad parhaus bydwragedd trwy Adolygiadau Goruchwylio Blynyddol. Er enghraifft, nid yw C8, sy’n rhestru'r hyn y gellir ei gyfrif yn DPP, na C10, sy’n awgrymu sut y gellir myfyrio, na C11, ynglŷn â gwerthuso cadw cofnodion, yn crybwyll cael adborth gan fenywod a myfyrio arno. Yn yr un modd, mae C17 yn mynd i'r afael â'r meysydd yr ymdrinnir â nhw mewn goruchwyliaeth grŵp, ond nid oes cyfeiriad at adborth gan fenywod.

Er y cydnabyddir nad yw cynnwys adborth gan fenywod yn ofynnol ar gyfer goruchwyliaeth ar hyn o bryd, caiff ei gynnwys yn nogfen Canllaw Adolygiad Goruchwylio Blynyddol AGLl Cymru, a bydd yn dod yn rhan o broses ail-ddilysu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Felly roeddem yn teimlo ei bod yn ddilys i edrych ar arfer presennol mewn perthynas â chynnwys adborth gan fenywod yn rhan o'r archwiliad hwn.

Roedd dau o bobl y gwnaethom gyfweld â nhw yn gallu rhoi enghreifftiau o pryd roedd adborth gan fenywod wedi cael ei drafod fel rhan o oruchwyliaeth grŵp. Roedd y cyntaf mewn ymateb i adborth gan fenyw a gafodd ei drafod yn y sesiwn, a dywedodd y fydwraig ar ddiwedd y sesiwn:

***‘Dwi'n falch iawn fy mod yn gwybod am hynny.’***

Roedd yr ail yn drafodaeth ynghylch defnyddio adborth, a arweiniodd wedyn at fyfyrio ar faes i geisio adborth amdano o bosibl:

**‘[Adborth] heb ei drafod o'r blaen yn y broses oruchwylio, trafodaeth ddefnyddiol (yng nghyd-destun ail-ddilysu) ar gael gwybodaeth gan fenywod.’ yna'n dilyn goruchwyliaeth grŵp, dywedodd y fydwraig ei bod yn ‘myfyrio ar y ffordd rydym yn cyfarch menywod.’**

Gwnaed y sylw diwethaf mewn sesiwn goruchwyliaeth grŵp yr arsylwyd arno gan adolygydd lleyg, ac fe all fod o ganlyniad i ymweliad yr adolygydd lleyg yr wythnos flaenorol pan ofynnwyd i fydwragedd sut y defnyddir adborth gan fenywod ac am y gofyniad ail-ddilysu yn

y dyfodol.  Cyn hyn, gwelwyd ar y cyfan bod diffyg dulliau clir i fydwragedd gasglu adborth. Yn ogystal, cafwyd ymatebion i'r cwestiynau am sut y trafodir adborth gan fenywod mewn sesiwn goruchwyliaeth grŵp oedd yn nodi nad yw'n cael ei drafod o gwbl:

**'Dwi ddim yn cofio adborth gan fenywod yn cael ei gynnwys.'**

**'Nid yw'n cael ei drafod ar hyn o bryd'.**

Roedd unrhyw drafodaethau am ddulliau adborth yn gyfyngedig i basio cwynion a chlod ymlaen, ac felly roedd yn ad hoc ac yn ddibynnol ar fenywod yn rhoi o'u hamser i roi adborth ac enwi bydwragedd. Ni nodwyd dull ar gyfer rhoi cefnogaeth systematig i fydwragedd i ddatblygu'n barhaus yn dilyn adborth gan fenywod, nac unrhyw ddulliau ar gyfer cynnwys menywod yn nodiadau gwerthusiadau.

### Y buddiannau a'r heriau wrth gyflenwi goruchwyliaeth grŵp

Mae gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cynnwys cyhoeddi canllawiau ar gyflenwi cysondeb yn y modd yr ymgymerir ag Adolygiadau Goruchwylio Blynyddol. Gwelsom ddisgrifiadau gan bobl a gafodd eu cyfweld oedd yn awgrymu bod cysondeb o ran dull, er bod rhai problemau ynghylch presenoldeb a drafodir isod.  Gwelodd hwyluswyr nad oedd ganddynt unrhyw hyfforddiant 'ffurfiol' wrth hwyluso goruchwyliaeth grŵp, er eu bod wedi derbyn hyfforddiant lefel MSc fel rhan o'r cwrs datblygu a gwblhawyd cyn iddynt ddechrau ar y rôl, a oedd yn cynnwys hwyluso camau gweithredu setiau dysgu.  Cydnabuwyd bod:

**'profiad gan Betsi Cadwaladr [wedi cael] ei basio ymlaen mewn ffordd gadarnhaol iawn.'**

**'hoffai goruchwyliaeth grŵp wybod sut mae pawb arall yn gwneud pethau, ac rwy'n credu bod fy safon yn dda ond a ydym ni i gyd yn gwneud yr un peth – dwi'n teimlo ein bod yn gwneud pethau mewn ffordd fwy safonedig yn awr.'**

Mae'n ymddangos mai'r her fwyaf wrth gyflenwi goruchwyliaeth grŵp yw sicrhau bod pob bydwraig yn gallu mynd at oruchwyliaeth grŵp. Wrth geisio annog presenoldeb mewn dau sesiwn goruchwylio grŵp, cafodd un ei chanslo oherwydd diffyg staff ac ni ddigwyddodd y llall oherwydd nad oedd y bydwragedd ar gael (er bod gofyn iddynt ymgymryd â'u Hadroddiad Blynyddol Staff fis yn gynnar). Roedd canfod bydwragedd i'w cyfweld hefyd yn anodd gan fod llawer ohonynt wedi mynychu sesiwn a gafodd ei sefydlu fel goruchwyliaeth grŵp i ddechrau, ond yn y diwedd y nhw oedd yr unig rai i fynychu'r sesiwn. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn rhai o'r sylwadau gan y rhai y gwnaethom gyfweld â nhw:

**'methu mynychu pan fyddaf ar ddyletswydd oherwydd diffyg staff.'**

**‘Adroddiad Blynyddol Staff ar sail un i un – doedd neb arall yn gallu mynychu.’**

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai y gwnaethom eu cyfweld yn gadarnhaol ynglŷn â goruchwyliaeth grŵp lle'r oedd nifer yn bresennol yn y sesiwn:

**‘Mae'n sicr yn gam cadarnhaol ac yn ymddangos i fod yn llawer gwell.’**

**‘Roedd yn well gyda mwy o bobl.’**

Dim ond un person nododd fod well ganddi'r fformat blaenorol:

**‘Byddai'n well gen i gael perthynas un i un gyda rhywun sy'n eich adnabod yn hytrach na rhywun nad ydych yn eu hadnabod yn dda iawn.’**

Mae'n bosibl, pe gellid datrys yr amserlen ar gyfer sesiynau goruchwyliaeth grŵp, y byddai bydwragedd yn ystyried mynychu mwy nag unwaith y flwyddyn:

**‘Byddaf yn ceisio mynychu dau neu dri'r flwyddyn.’**

## Themâu sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â Datblygiad Proffesiynol Parhaus

### Swyddogaeth y goruchwylydd bydwragedd

Canfyddiad cyffredinol y rhai y gwnaethom gyfweld â nhw oedd bod swyddogaeth y goruchwylydd bydwragedd yn cefnogi DPP wedi lleihau gyda chyflwyno goruchwyliaeth grŵp:

**‘Newydd drafod yr hyn rydym yn gobeithio ei gyflawni'r flwyddyn nesaf – beth yw ein cynlluniau.’**

**‘Roedd peidio â chael sgwrs un i un … yn negyddol braidd … peidio â chael sgwrs am ble'r oeddwn am fynd yn y dyfodol.’**

Neu eu bod wedi paratoi ar gyfer eu DPP heb unrhyw gyfraniad gan oruchwylydd bydwragedd:

**‘Ni wnaeth y goruchwylydd bydwragedd chwarae unrhyw ran eleni.’**

**‘Ni wnaeth goruchwyliaeth grŵp chwarae unrhyw ran – [roedd y] meddwl wedi cael ei wneud ymlaen llaw.’**

Er bod un o'r rhai y gwnaethom gyfweld â nhw'n teimlo bod y cyfraniad wedi cynyddu eleni:

**'Gwell cymorth gan y goruchwylydd bydwragedd gyda DPP y tro hwn.'**

Er mai'r canfyddiad cyffredinol oedd bod swyddogaeth y goruchwylydd bydwragedd wedi lleihau wrth gynllunio DPP, roedd yn amlwg bod goruchwylwyr bydwragedd yn chwarae rhan sylweddol yn hyrwyddo'r defnydd o bortffolio a gwella eu hansawdd:

**'Mae angen mwy o hwyluso a chanllaw ynghylch sut y dylai portffolio o gymorth/adeiladol edrych, a dyna ble mae goruchwylwyr bydwragedd yn ddefnyddiol gan ein bod yn cysylltu â phortffolio'r bwrdd iechyd.'**

**'Rhoi arweiniad ar amryw o gyfleoedd DPP [yn defnyddio] rhywbeth mewn bywyd bob dydd.'**

Arweiniodd hyn at y canlynol:

**'mwy parod i ysgrifennu nodiadau yn awr fel myfyrdod i'w gynnwys yn y portffolio. Bydd hyn yn arwain at fyfyrdod mwy cyfoes a phortffolio o ansawdd gwell.'**

Arsylwyd ar drafodaeth am arfer gorau mewn datblygu portffolio. Roedd templedi bwrdd iechyd ar gyfer portffolio'n cael eu rhannu, a dechreuodd y bydwragedd siarad am sut y gellid ysgrifennu rhywbeth oedd wedi digwydd ar sifft y bore hwnnw fel SBAR a myfyrdod. Gwnaethant siarad am ble y gallent gadw'r ffurflenni i hwyluso myfyrdodau rheolaidd a mwy prydlon ar ddigwyddiadau.

## Cynnwys adborth gan fenywod (ac adborth gan gydweithwyr/cymheiriaid)

Roedd y canfyddiadau ar gyfer DPP yn debyg iawn i'r rhai hynny ar gyfer goruchwyliaeth grŵp. Prin iawn yw'r defnydd o adborth fel rhan o'r broses ar hyn o bryd, ac yn absenoldeb enghreifftiau penodol i gyfeirio atynt, rhagdybiodd y rhai y gwnaethom gyfweld â nhw y byddent yn defnyddio adborth o gwynion pe baent wedi bod trwy'r broses hon.

**'Nid oes dulliau ar waith i gasglu adborth gan fenywod a chydweithwyr.'**

**'Methu meddwl ar unwaith pryd y defnyddiwyd adborth gan fenywod i lywio DPP.'**

**'Ceisio dilyn i'r pen os yw menyw wedi cwyno … pe bai rhywbeth efallai y gellid ei ddefnyddio mewn DPP.'**

## Effeithiolrwydd y broses

Ar hyn o bryd, y canfyddiad ynghylch ansawdd y broses yw bod lle sylweddol ar gyfer gwella yn ansawdd cynlluniau DPP:

**‘Mae ansawdd cynlluniau'n wael yn gyffredinol.’**

**‘Ansawdd DPP – cyffredin iawn – nid yw llawer o bobl yn cwblhau eu cynllun ar gyfer y dyfodol – dim ond gorfoleddu eu bod wedi cyflawni'r oriau angenrheidiol.’**

a'r ffordd y mae portffolios yn cael eu llunio:

**‘mae gan bobl ddrôr lle maent wedi taflu eu pethau’ (trafodaeth ynghylch portffolio)**

a'r hyn maent yn ei wneud i baratoi ar gyfer Adroddiad Blynyddol Staff:

**‘cael eich gorfodi i eistedd a gwybod bod eich adolygiad blynyddol ar ddod – a'r angen i roi rhywbeth yn y blwch hwn’**

Ymddengys bod yr agwedd hon tuag at DPP yn gyson â chanolbwyntio ar adnabod meysydd o ddiddordeb i'w datblygu:

**‘Roedd DPP yn canolbwyntio ar yr hyn sydd o ddiddordeb gwirioneddol iddynt.’**

**‘DPP yw'r hyn sy'n eich ysbrydoli ac yn eich cyffroi – uchelgais – ennyn eu diddordeb mewn maes penodol.’**

**‘Ystyried pa mor bell rwyf am gymhwyso, pa gyfeiriad rwyf am ei ddilyn, pa ddiddordebau sydd gen i, ystyried sut mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi mynd.’**

Er gall bydwragedd sydd newydd gymhwyso ganolbwyntio mwy ar ddatblygu cymhwysedd:

**‘Mae bydwragedd sydd newydd gymhwyso'n canolbwyntio mwy ar ddatblygu cymhwysedd.’**

Roedd yn anodd asesu effaith edrych ar DPP mewn grŵp oherwydd bod nifer o'r rhai y gwnaethom gyfweld â nhw wedi cael sesiynau un i un er mwyn cwblhau eu Hadolygiadau Staff Blynyddol, er bod rhywfaint o arwyddion y gallai'r sesiwn grŵp wella'r broses trwy:

Wneud bydwragedd yn fwy brwdfrydig i ymgymryd â DPP trwy rannu nodweddion cadarnhaol gyda'u cymheiriaid:

**‘Y sesiynau un i un [Adolygiad Staff Blynyddol] – dotio pob i a chroesi pob t yn hytrach na gwneud unrhyw beth adeiladol – bydd y grŵp yn eich helpu i fynd yn eich blaen.’**

**‘Rhy gynnar i weld a yw goruchwyliaeth grŵp wedi dylanwadu ar gynlluniau DPP – mae rhai bydwragedd yn rhagweithiol iawn a byddant wedi gwneud I-ddysgu Coleg Brenhinol y Bydwragedd ac nid fi sy'n pregethu – bydwragedd yn helpu ei gilydd i dyfu a datblygu, a bydd yn ddiddorol gweld sut bydd yn datblygu'r flwyddyn nesaf.’**

Efallai ei bod yn rhy gynnar i ragweld, ond roedd un o'r rhai y gwnaethom gyfweld â nhw'n teimlo bod pethau'n newid:

**‘Yr argraff gyntaf yw bod goruchwyliaeth grŵp yn newid sut mae bydwragedd yn meddwl am eu DPP.’**

ac yn galluogi gwahaniaethu mwy eglur rhwng swyddogaethau goruchwylio a'r broses DPP sefydliadol:

**‘Yn gyffredinol, byddai'r sefydliad yn adolygu pe bai wedi buddsoddi i gael rhywun i fynychu rhywbeth, a byddai’n rhannu dysgu, felly mwy trefniadol na goruchwyliaeth.’**

Roedd y broses drefniadol yn cynnwys rhywfaint o'r drafodaeth roedd un fydwraig yn teimlo oedd ar goll yn ei Hadroddiad Blynyddol Staff eleni:

**‘Cynlluniau Datblygu Personol ar wahân gyda rheolwyr – rwy'n gobeithio ochr yn ochr â'r hyn rwyf wedi ei wneud mai hwn fydd fy nghyfle i ddweud mai dyma sut rwyf am symud ymlaen gyda phethau.’**

### 2.2.6 Casgliadau

Casgliad cyffredinol ein harsylwadau yw bod goruchwyliaeth grŵp yn ddull effeithiol ar gyfer sicrhau bod arfer bydwragedd yn cael ei adolygu, ac felly bydd yn gwella amddiffyn y cyhoedd.  Mae arwyddion dechreuol efallai y bydd yn well dull na'r broses Adroddiad Blynyddol Staff blaenorol.

Ceisiodd ein gwerthusiad fynd i'r afael â chwe chwestiwn gwerthuso fel y nodwyd yn adran 2.2.2 uchod. Mae ein casgliadau ar bob un o'r cwestiynau fel a ganlyn:

- mae goruchwyliaeth grŵp yn galluogi bydwragedd i leisio pryderon ac nid oes tystiolaeth y gall bydwragedd ‘guddio’ o fewn y grŵp; i'r gwrthwyneb, mae ein data'n awgrymu efallai ei bod yn broses fwy agored a thryloyw na'i rhagflaenydd

- mae'n amlwg bod bydwragedd yn dal yn gallu mynd at oruchwylwyr bydwragedd ar sail un i un os ydynt am leisio pryderon am eu harfer eu hunain neu arfer cydweithwyr
- gwnaethom nodi dwy enghraifft benodol o rannu arfer gorau sy'n awgrymu bod goruchwyliaeth grŵp yn hwyluso hyn, ond nid oedd yn glir a yw hyn yn cael ei ymgorffori'n systematig yn y dull hwn o weithio
- roeddem yn gallu nodi nifer o enghreifftiau o sut y gallai goruchwyliaeth grŵp fod wedi gwella ansawdd gwasanaeth ac un lle'r oedd amddiffyn y cyhoedd wedi cael sylw o ganlyniad i sesiwn goruchwyliaeth grŵp. Mae'n bosib na fyddai hyn wedi bod yn amlwg dan yr hen fformat
- nid oeddem yn gallu cadarnhau a yw'r ffurflen unigol neu ar y cyd ar gyfer adborth gan fenywod yn cael ei defnyddio i lywio cynlluniau DPP, er i ni ganfod nad yw hyn yn cael ei gefnogi'n systematig ac mae nifer o gyfleoedd i wella'r agwedd hon, yn arbennig wrth baratoi ar gyfer cyflwyno ail-ddilysiad

### 2.2.7 Argymhellion

Parhau ac, os yn bosib, ehangu'r arfer da a ganfuwyd ac a argymhellwyd gennym:

- y gwaith maes diweddar a ymgymerwyd gan oruchwylwyr bydwragedd i edrych ar amrywiaeth ehangach o amseroedd ar gyfer sesiynau goruchwyliaeth grŵp er mwyn hwyluso mynediad i fydwragedd o bob adran
- annog amrywiaeth o fydwragedd yn ôl lleoliad a swyddogaeth i fynychu'r sesiynau goruchwyliaeth grŵp
- canolbwyntio ar ddatblygu portffolios o ansawdd gwell trwy hyrwyddo diweddaru portffolio'n rheolaidd ac amrywiaeth eang o ddigwyddiadau DPP

Gwnaethom hefyd nodi meysydd eraill y gellid eu gwella:

- er mwyn manteisio i'r eithaf ar fuddiannau goruchwyliaeth grŵp i bob bydwraig, mae angen i'r goruchwylwyr bydwragedd a phenaethiaid bydwreigiaeth fynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro bydwragedd rhag cymryd rhan (diffyg staff a methu cael eu rhyddhau o sifft oherwydd pwysau gwaith yn bennaf)
- gellid adolygu Holi ac Ateb yr Adroddiad Blynyddol Staff i weld a yw'n briodol i gyfeirio mwy at ddefnyddio adborth gan fenywod a ffynonellau eraill
- dylid ystyried a allai agweddau cyfredol at adborth gan fenywod roi cefnogaeth fwy systematig i fyfyrio a gwerthuso nodiadau gan fydwragedd. Byddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol o ystyried gofynion ail-ddilysiad
- Swyddogion Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol i hwyluso adolygiad gyda goruchwylwyr bydwragedd ar gysondeb y dull gweithio ledled Cymru ac i benderfynu a yw rhannu arfer gorau wedi ei ymgorffori yn y model. Os nad yw wedi ei ymgorffori

yn y model, dylid nodi sut y gellid gwneud hyn.

## 2.3 Gwerthuso pa mor hygyrch yw goruchwylwyr bydwragedd

### 2.3.1 Amcanion

| | |
|---|---|
| Amcan 1 | Sicrhau bod yr wybodaeth gywir am sut i gysylltu â goruchwylydd bydwragedd (yn arbennig y rhif ar alwad 24 awr newydd) a gwybodaeth am eu swyddogaeth ar gael ar wefannau byrddau iechyd a ffynonellau eraill o wybodaeth ar-lein. |
| Amcan 2 | Gwirio a ellir cael gafael ar yr wybodaeth gywir ar gyfer cysylltu â goruchwylwyr bydwragedd trwy ffonio switsfyrddau ysbytai. |
| Amcan 3 | Canfod a yw meddygfeydd meddygon teulu wedi derbyn y rhif ar alwad newydd. |
| Amcan 4 | Gwerthuso a yw'r rhif ar alwad yn effeithiol wrth gyfeirio galwadau'n syth at oruchwylydd bydwragedd. |
| Amcan 5 | Canfod pa ddeunydd darllen am oruchwylwyr bydwragedd sy'n cael ei roi i ddefnyddwyr gwasanaeth ar hysbysfyrddau mewn mannau cyhoeddus ac a yw wedi cael ei ddiweddaru gyda'r rhif ar alwad newydd. |

### 2.3.2 Dulliau

Er mwyn asesu pa mor hygyrch oedd goruchwylwyr bydwragedd i ddefnyddwyr gwasanaeth, gwnaethom werthuso'r ffynonellau gwybodaeth canlynol:

- adnoddau ar-lein (gan gynnwys gwefannau a chanlyniadau chwiliadau Google)
- adnoddau eraill (gan gynnwys hysbysfyrddau a thaflenni adrannau mamolaeth)
- ffôn (gan gynnwys switsfyrddau ysbytai a meddygfeydd meddygon teulu)

Gwnaethom hefyd gynnal archwiliad ffôn o'r rhif ar alwad trwy ei ffonio ar dair adeg wahanol o'r dydd.

Mae manylion llawn y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gael gan AGIC ar gais.

### 2.3.3 Canfyddiadau a thrafodaethau

#### Gwefannau byrddau iechyd

| Bwrdd Iechyd | Arferion Da | Meysydd i'w gwella |
|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Mae'r wybodaeth yn cael ei rhoi ar ffurf Holi ac Ateb ynghylch goruchwylwyr bydwragedd a'u swyddogaeth. Mae'r adran ar sut gall goruchwylwyr bydwragedd helpu menywod yn gywir a chynhwysfawr. Mae rhif ar gyfer cysylltu â Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl. | Mae dolen i lawrlwytho gwybodaeth ar gyfer cysylltu â goruchwylwyr bydwragedd. Nid yw'n rhestru'r rhif ar alwad cywir, ond yn hytrach mae'n rhoi gwybodaeth ar gyfer cysylltu â'r goruchwylydd ar gyfer y bwrdd iechyd, Grace Thomas, neu'r goruchwylydd cyswllt, Kerry Philips. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Mae'r wybodaeth am oruchwylwyr bydwragedd yn canolbwyntio ar sut y gallant gefnogi defnyddwyr gwasanaeth. Mae'n cynnwys lluniau o'r tri goruchwylydd bydwragedd, sy'n elfen bersonol dda. Darperir y rhif ar alwad cywir. | Nid oes rhif ar gyfer cysylltu â Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl. |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Darperir y rhif ar alwad cywir. | Mae un frawddeg o wybodaeth yn adran olaf y dudalen gwasanaethau mamolaeth nad yw'n crybwyll goruchwylio bydwragedd ond sy'n dweud bod y bydwragedd yn cynnig gwasanaeth ar alwad 24 awr, saith diwrnod yr wythnos ac yn rhoi rhif ar alwad i'w ffonio os oes angen gofal brys arnoch. Nid yw hyn yn rhoi unrhyw awgrym o fodolaeth goruchwylwyr bydwragedd na'u swyddogaeth, ac mae'n awgrymu mai dim ond mewn sefyllfaoedd brys y gellir ffonio. Ni roddir gwybodaeth ar gyfer cysylltu â Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl.<br><br>Mae bar ar wahân ar ochr y tudalen gwasanaethau mamolaeth sy'n benodol am oruchwyliaeth. Mae hwn yn cynnwys disgrifiad cryno iawn o swyddogaeth goruchwylwyr bydwragedd, nad yw'n disgrifio'n llawn y |

| | | |
|---|---|---|
| | | cymorth y gallant ei ddarparu i ddefnyddwyr gwasanaeth. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Ceir gwybodaeth gynhwysfawr am oruchwylwyr bydwragedd a sut y gallant gefnogi defnyddwyr gwasanaeth a dolen at y daflen 'Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?', sy'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer cysylltu â Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl. Ceir hefyd grynodeb mewn pwyntiau bwled o'r model newydd ar gyfer goruchwyliaeth. Darperir y rhif ar alwad cywir. | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Mae gwefan y bwrdd iechyd yn rhoi esboniad da o'r oruchwyliaeth, gan gynnwys sut gall goruchwylwyr bydwragedd helpu menywod. Ceir dolen amlwg at y daflen 'Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?' gyda manylion ar gyfer cysylltu â Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, a darperir y rhif ar alwad cywir. | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | | Mae'r rhifau ar dudalennau'r wefan ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth ym mhob ysbyty yn hytrach na'r rhif ar alwad.<br>Mae'r disgrifiad o oruchwyliaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar fydwragedd tan y frawddeg olaf, sy'n dweud os yw aelod o'r cyhoedd am gysylltu â goruchwylydd ffoniwch — Nid yw manylion Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl ar gael ar y wefan. |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Darperir y rhif ar alwad cywir. Ceir dolen at dudalen AGIC gyda manylion ar gyfer cysylltu â Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl a'r daflen 'Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?' | Mae'r wybodaeth a roddir am swyddogaeth y goruchwylwyr bydwragedd mewn perthynas â bydwragedd, nes y frawddeg olaf, sy'n dweud, 'Os yw aelod o'r cyhoedd am gysylltu â goruchwylydd, ffoniwch — |

## Gwefannau byrddau iechyd – argymhellion

- Dylid diweddaru gwefan pob bwrdd iechyd gyda'r rhif ar alwad cywir ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd a'r manylion cyswllt ar gyfer Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl.
- Dylid cael disgrifiad cyffredinol o swyddogaeth goruchwylwyr bydwragedd y gellir ei ddefnyddio ar wefan pob bwrdd iechyd yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae anghysondeb yn y disgrifiadau a ddefnyddir ac a ydynt yn canolbwyntio mwy ar fydwragedd neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Dylid canolbwyntio'n bennaf ar swyddogaeth goruchwylwyr bydwragedd wrth gefnogi defnyddwyr gwasanaeth. Dylai'r datganiad y cytunwyd arno gynwys yr wybodaeth o'r daflen 'Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?'
- Gan nad yw llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gwybod am oruchwylwyr a'r cymorth y gallant ei ddarparu, ni fyddent yn gwybod i edrych yn yr adran ar oruchwylio i ganfod gwybodaeth ynglŷn â phwy y dylid cysylltu â nhw mewn perthynas â phryderon am eu gofal. Efallai y gellid darparu'r wybodaeth dan bennawd gwahanol, fel: 'Beth i'w wneud os oes pryderon gennych am eich gofal mamolaeth'.
- Ar hyn o bryd, mae gwybodaeth am oruchwylwyr bydwragedd yn gyfyngedig i adrannau gwasanaethau mamolaeth y gwefannau.  Efallai y gellid darparu dolen at wybodaeth am oruchwylwyr bydwragedd hefyd ar adran 'sut i gwyno' gwefan pob bwrdd iechyd. Efallai mai dyma ble bydd defnyddwyr gwasanaeth yn edrych gyntaf wrth chwilio sut i leisio pryder am eu gofal mamolaeth.

## Chwiliadau Google

- Roedd chwiliadau am oruchwylwyr bydwragedd (yna enw pob bwrdd iechyd) yn arwain at ddolen uniongyrchol at dudalennau'r bwrdd iechyd oedd yn cynnwys gwybodaeth am oruchwylwyr bydwragedd yn y deg canlyniad uchaf, ac eithrio mewn achos Powys.
- Roedd yn nodedig bod y dudalen am oruchwylwyr bydwragedd ar wefan Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg wedi ei rhestru yn y deg canlyniad uchaf ar gyfer pump allan o'r deg chwiliad a wnaed.  Nid felly yr oedd hi ar gyfer y byrddau iechyd eraill, ac eithrio dan y chwiliad goruchwylwyr bydwragedd.
- Roedd mwyafrif y canlyniadau ar gyfer chwiliadau eraill yn arwain yn ôl at dudalennau mamolaeth gwefan y bwrdd iechyd neu at storïau newyddion am broblemau, neu adroddiadau'r Ombwdsmon.
- Arweiniodd chwiliadau cyffredinol heb enwi lleoliad at lawer o drafodaethau am brofiadau ar Mumsnet. Mae un neu ddau o gyfranogwyr yn crybwyll goruchwylwyr bydwragedd, ond nid yw mwyafrif helaeth y cyfranogwyr yn ymwybodol o'r rhan y

gallai goruchwylydd bydwragedd ei chwarae yn datrys y problemau mae merched yn eu profi.

- Daeth gwefan www.which.co.uk/birthchoices i'r amlwg sawl gwaith, ac mae'n cynnwys gwybodaeth glir a defnyddiol am sut i negodi eich gofal, gan gynnwys cysylltu â thudalen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a thaflen ar sut gall goruchwylwyr bydwragedd helpu menywod.
- Hyd yn oed pan oedd termau'r chwiliad yn cynnwys 'cwyno', prin oedd yr achlysuron pan oedd tudalen gwyno gwefan y bwrdd iechyd yn cael ei rhestru yn y canlyniadau chwilio.
- Ar gyfer Aneurin Bevan, dan y chwiliad 'Sut ydw i'n newid fy mydwraig?', mae dolen at dudalen gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd sy'n eich cyfarwyddo i gysylltu â goruchwylwyr bydwragedd ar rif y prif switsfwrdd, sef 01633 234 234, felly mae'n rhaid bod y dudalen yn hen.
- Arweiniodd sawl chwiliad at ddolenni at daflen 'Where can my baby be born' ar gyfer Aneurin Bevan a dolen at dudalen ar wefan Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg ynghylch dewisiadau geni, ond nid oedd yr un ohonynt yn cynnwys unrhyw wybodaeth am oruchwylwyr bydwragedd.

## Chwiliadau Google – argymhellion

- Codi proffil goruchwyliaeth yng Nghymru trwy sicrhau bod yr wybodaeth amdani'n ymddangos mewn chwiliadau Google perthnasol. Dylid gwneud rhywfaint o waith ar eirio gwybodaeth am oruchwylwyr bydwragedd ar wefannau byrddau iechyd. Er enghraifft, gellid dangos enghreifftiau o pryd y byddai defnyddiwr gwasanaeth am gysylltu â goruchwylydd bydwragedd.  Os defnyddir y geiriau allweddol cywir ar wefannau bwrdd iechyd, mae'r goruchwylwyr bydwragedd yn fwy tebygol o gael eu rhestru mewn canlyniadau chwiliad Google.
- Gellir cynnal gwerthusiad pellach o pam fod tudalen goruchwylwyr bydwragedd Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg yn ymddangos yn amlach nac eraill mewn chwiliadau Google.

## Mumsnet

- Ni ddaeth unrhyw ganlyniadau ar gyfer unrhyw un o'r ardaloedd bwrdd iechyd unigol i'r amlwg dan y term chwilio 'goruchwylio bydwragedd'.
- Yn defnyddio'r termau chwilio 'goruchwylydd bydwragedd Cymru' ar adran Mumsnet Talk, roedd dwy drafodaeth ar adeg cynnal y chwiliad lle'r oedd un fenyw yng Nghymru wedi ymholi am eu gofal yng Nghymru, ac fe'i cynghorwyd i siarad â goruchwylydd bydwragedd.  Nid oedd un o'r ymatebion yn yr achos hwn yn crybwyll rhif cyswllt ar gyfer y goruchwylydd bydwragedd.

- Nid oes unrhyw wybodaeth am oruchwylwyr bydwragedd ar dudalennau Mumsnet Local ar gyfer y gwahanol ardaloedd yng Nghymru.
- Yn adran beichiogrwydd gwefan Mumsnet, mae tudalen y gellir mynd ati trwy gyfrwng yr hafan beichiogrwydd o'r enw 'Eich Hawliau Cyfreithiol yn Ystod Beichiogrwydd a Geni Plentyn', sydd wedi ei chreu gan elusen Birthrights. Mae hyn yn nodi sawl enghraifft o pryd y byddai defnyddiwr gwasanaeth am gysylltu â goruchwylydd bydwragedd, ond nid yw'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer cysylltu.

## Mumsnet – argymhellion

- O ystyried pa mor boblogaidd yw Mumsnet fel adnodd ar-lein i rieni, byddai'n gyfrwng effeithiol iawn ar gyfer codi proffil goruchwyliaeth. Gan fod trafodaethau yn adran Mumsnet Talk yn ymddangos fel canlyniadau chwiliadau am oruchwyliaeth, efallai y gallai goruchwylydd bydwragedd naill ai ymateb i drafodaeth a ddechreuwyd gan ddefnyddiwr gwasanaeth yng Nghymru (os canfyddir un perthnasol) neu ddechrau trafodaeth, o bosibl yn dwyn y teitl: ‘Ydych chi'n pryderu am eich gofal/bydwraig yng Nghymru?’ neu ‘Ydych chi'n gwybod sut gall goruchwylwyr bydwragedd eich helpu yng Nghymru?’
  Gallai hwn fod ar y brif wefan neu yn yr adran Mumsnet Local.
- Mae tudalennau ar gyfer pob ardal o Gymru yn yr adran Mumsnet Local. Mae adran restru ar gyfer pob ardal, gydag adran beichiogrwydd ac ôl-enedigol benodol sy’n cynnwys gwybodaeth am ddosbarthiadau cyn-geni, dŵlas ac ati. Byddai hwn yn fan gwych i bostio gwybodaeth am oruchwylio bydwragedd gyda'r rhif ar alwad ar gyfer Cymru gyfan.

## Tudalennau Facebook ar gyfer byrddau iechyd a Phwyllgorau Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth

| | |
|---|---|
| Cwm Taf | Roedd tudalen Facebook ar gyfer y bwrdd iechyd cyfan, a chafwyd ymateb o fewn yr awr i neges breifat yn gofyn am y rhif ar alwad gyda manylion sut i gysylltu â'r Pennaeth Bydwreigiaeth. |
| Caerdydd a'r Fro | Mae grŵp Facebook ar gyfer Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth Caerdydd a'r Fro, ond ni chafwyd dim canlyniadau i chwiliad am oruchwylwyr bydwragedd. Nid oedd yn bosibl anfon neges. |
| Hywel Dda | Ni chanfuwyd tudalennau Facebook na thudalennau Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth. |
| Powys | Mae tudalen Facebook o'r enw 'Bump Talk' ar gyfer Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth Powys. Cafwyd ymateb o fewn awr i neges yn ymholi am y rhif ar alwad ar gyfer goruchwylydd bydwragedd gyda'r rhif cywir. |
| Aneurin Bevan | Mae gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan dudalen Facebook gwasanaethau mamolaeth.<br>Cafwyd ymateb o fewn pedwar diwrnod i ymholiad am y rhif ar alwad ar gyfer goruchwylydd bydwragedd gyda'r rhif ffôn cywir. |
| Betsi Cadwaladr | Mae tudalen Facebook ar gyfer y bwrdd iechyd. Anfonwyd neges ar 14 Mawrth yn gofyn am y rhif ar alwad ar gyfer goruchwylydd bydwragedd. Ni dderbyniwyd ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. |
| Abertawe Bro Morgannwg | Mae tudalen Facebook ar gyfer y bwrdd iechyd, ond nid oes unrhyw ffordd o gysylltu i ymholi am y goruchwylwyr bydwragedd na dim gwybodaeth berthnasol ar y dudalen. |

## Tudalennau Facebook ar gyfer Byrddau Iechyd a Phwyllgorau Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth – argymhellion

- Ymchwilio'r posibilrwydd o sefydlu tudalen Facebook goruchwyliaeth bydwragedd ar gyfer Cymru gyfan fel adnodd ar gyfer bydwragedd a defnyddwyr gwasanaeth. Pe bai hwn yn cael ei sefydlu, gallai defnyddwyr gwasanaeth gysylltu â goruchwylwyr bydwragedd trwy anfon negeseuon gydag unrhyw bryderon posib.

## Ffynonellau gwybodaeth eraill

### Cymru gyfan:

- Yn nodiadau llaw Cymru gyfan, mae paragraff am oruchwylio bydwragedd.
- Mae adran hefyd am oruchwylio bydwragedd yn y llyfryn 'Naw Mis a Mwy' yn yr adran ar ble i roi genedigaeth. Mae'n rhoi'r rhif ar alwad ar gyfer Cymru gyfan.
- Mae'r daflen 'Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?' am oruchwyliaeth yng Nghymru ar gael fel dolen ar wefannau rhai byrddau iechyd. Mae hefyd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth ei chodi mewn rhai clinigau cyn geni neu adrannau mamolaeth.

### Betsi Cadwaladr:

- Mae hysbysfwrdd yn y fynedfa i'r wardiau mamolaeth a phosteri ynglŷn â goruchwyliaeth yn cael eu harddangos ym mhob ardal gyda'r rhif ar alwad cywir.
- Darperir cardiau gwely ar y bwrdd ger gwely pob claf ynglŷn â goruchwyliaeth. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth gynhywsfawr am swyddogaeth y goruchwylydd bydwragedd.
- Yn y clinig cyn geni, mae sleidiau PowerPoint am oruchwylwyr bydwragedd yn cael eu dangos i'r cleifion sy'n aros i gael eu gweld.
- Mae'r goruchwylwyr bydwragedd hefyd wedi cael caniatâd i gael hysbysfwrdd penodol, mwy amlwg yn y clinig cyn geni.

### Cwm Taf: Ysbyty'r Tywysog Siarl

- Mae hysbysfyrddau penodol ar gyfer goruchwyliaeth yn y ward esgor, wardiau cyn geni ac ôl-enedigol, a'r clinig cyn geni. Mae pob un ohonynt yn dangos y rhif ar alwad cywir ar gyfer Cymru gyfan.

### Hywel Dda: Ysbyty Glangwili

- Mae hysbysfyrddau am oruchwyliaeth yn y ward esgor, yr uned sy'n cael ei arwain gan fydwragedd, a'r clinig cyn geni. Mae pob un ohonynt yn dangos y rhif ar alwad cywir.

## Abertawe Bro Morgannwg:

- Mae hysbysfyrddau am oruchwyliaeth yn holl adrannau mamolaeth Abertawe Bro Morgannwg. Mae'r hysbysfyrddau wedi cael eu diweddaru i ddangos y rhif ar alwad cywir. Maent hefyd yn dangos lluniau o'r goruchwylwyr ynghyd â'u rhifau ffôn gwaith uniongyrchol.
- Darperir taflenni 'Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?' yn y clinig cyn geni.

## Aneurin Bevan:

- Mae hysbysfyrddau am oruchwyliaeth yn y clinigau cyn geni ac ôl-enedigol ac ardaloedd ôl-enedigol Ysbyty Ystrad Fawr, Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall. Mae pob un ohonynt yn dangos y rhif ar alwad cywir.
- Nid yw menywod yn cael cynnig taflenni ar oruchwyliaeth fel mater o drefn eto ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

## Caerdydd a'r Fro:

- Mae pob ardal yng Nghaerdydd a'r Fro yn dangos hysbysfwrdd safonedig ynglŷn â goruchwyliaeth. Mae'r ardaloedd ble mae'r hysbysfyrddau'n cael eu harddangos yn cynnwys: yr ystafell esgor, ward ôl-enedigol a'r clinigau cyn geni yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau ac yn yr uned brysbennu 24 awr. Mae'r taflenni goruchwylydd bydwragedd yn cael eu gosod yn y ddau glinig.

## Powys:

- Mae hysbysfyrddau safonedig am oruchwyliaeth yng nghanolfannau geni Aberhonddu, Llandrindod, y Drenewydd, Llanidloes, a'r Trallwng. Mae nifer cyfyngedig o daflenni am oruchwyliaeth hefyd ar gael yn y canolfannau geni.

## Ffynonellau gwybodaeth eraill – argymhellion

- Dylai'r arfer da a fabwysiadwyd gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr gael ei rannu a'i fabwysiadu mewn ardaloedd eraill, yn arbennig y defnydd o gardiau gwybodaeth wrth y gwely a'r cyflwyniad PowerPoint am oruchwyliaeth yn yr ardal aros cyn geni. Mae'r defnydd o luniau o'r goruchwylwyr bydwragedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg hefyd yn arfer y gallai byrddau iechyd eraill ei fabwysiadu.

- Os yn bosibl, dylid cael cysondeb o ran pa wybodaeth sydd ar gael i fenywod ar bapur. Mae pob menyw'n cael y daflen 'Naw Mis a Mwy' a gwybodaeth yn nodiadau llaw Cymru gyfan. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r taflenni am oruchwyliaeth ar gael yn yr un modd ledled gwahanol ardaloedd.

## Archwiliad ffôn cyffredinol

| Bwrdd Iechyd | Ysbyty / Canolfan Eni / Meddygfa Meddyg Teulu | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| Aneurin Bevan | Ysbyty Brenhinol Gwent | Trosglwyddwyd i'r adran mamolaeth. Rhoddwyd y rhif cywir. |
| | Ysbyty Nevill Hall | Rhoddwyd y rhif cywir gan y switsfwrdd. |
| | Meddygfa Heol Henffordd, Y Fenni | Ddim yn gwybod am oruchwylwyr bydwragedd ac nid oeddent yn gallu darparu rhif cyswllt. |
| | | |
| Powys | Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu | Rhoddwyd y rhif cywir gan y switsfwrdd. |
| | Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod | Trosglwyddwyd i'r ganolfan eni. Rhoddwyd y rhif cywir. |
| | Ysbyty Coffa Victoria | Dywedwyd wrthym gan y switsfwrdd i ffonio 01874 622 443. |
| | Canolfan Iechyd y Trallwng, Y Trallwng | Rhoddwyd rhif ar gyfer canolfan eni y Trallwng. |
| | | |
| Betsi Cadwaladr | Ysbyty Maelor Wrecsam | Trosglwyddwyd i'r ward esgor. Rhoddwyd y rhif cywir. |
| | Glan Clwyd | Rhoddwyd y rhif cywir gan y switsfwrdd. |
| | Ysbyty Gwynedd | Trosglwyddwyd i'r ystafell esgor. Rhoddwyd y rhif cywir. |
| | Meddygfa Caritas, Wrecsam | Ddim yn gwybod am y swyddogaeth ac nid oeddent yn gallu darparu rhif. |
| | | |
| Abertawe Bro Morgannwg | Ysbyty Singleton | Trosglwyddwyd i'r ward esgor. Rhoddwyd y rhif cywir. |
| | Ysbyty Tywysoges Cymru | Rhoddwyd y rhif cywir gan y switsfwrdd. |
| | Ysbyty Castell-nedd Port Talbot | Rhoddwyd y rhif cywir gan y switsfwrdd. |
| | Canolfan Iechyd Brunswick, Abertawe | Rhoddwyd rhif y fydwraig gymunedol i’w ffonio am wybodaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| Cwm Taf | Ysbyty Brenhinol Morgannwg | Dywedodd gweithredydd y switsfwrdd nad oedd yn gallu rhoi'r rhif i ni oherwydd cyfrinachedd. Ymgynghorodd â goruchwylydd, a drosglwyddodd yr alwad i ward ôl-enedigol. Nid oedd ganddynt rif, felly trosglwyddwyd i'r ward esgor ble y rhoddwyd y rhif cywir. |
| | Ysbyty'r Tywysog Siarl | Rhoddwyd y rhif cywir gan y switsfwrdd. |
| | Practis Deintyddol Bro Taf, Pontypridd | Ni roddwyd rhif, a chynghorwyd i ffonio ward cyn geni. |
| | | |
| Caerdydd a'r Fro | Ysbyty Athrofaol Cymru | Rhoddwyd rhif lleol gan y switsfwrdd, a dywedwyd wrthym mai dyma'r rhif ar gyfer y goruchwylydd bydwragedd. |
| | Meddygfa Heol yr Orsaf, Penarth | Ddim yn gwybod am oruchwylwyr bydwragedd ac yn methu â rhoi rhif cyswllt. |
| | | |
| Hywel Dda | Ysbyty Cyffredinol Glangwili | Rhoddwyd y rhif cywir gan y switsfwrdd. |
| | Ysbyty Cyffredinol Bronglais | Trosglwyddwyd i'r fydwraig gymunedol, a roddodd y rhif cywir i ni. |
| | Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg | Rhoddwyd y rhif cywir gan y switsfwrdd. |
| | Y Feddygfa, Stryd Margaret, Rhydaman | Dywedodd y derbynnydd nad oedd yn gwybod a oedd yn cael rhoi'r rhif i ni, ac awgrymodd ffonio'r fydwraig yn Rhydaman yn lle. |

Cafwyd canlyniadau da o'r archwiliad ffôn o switsfyrddau ysbytai, gyda'r rhif cywir yn cael ei roi ym mhob achos ond un.  Fodd bynnag, ni wnaeth meddygfeydd meddygon teulu ddarparu'r rhif cywir.

## Archwiliad ffôn cyffredinol – argymhellion

- Fe all fod yn ddefnyddiol mewn archwiliad yn y dyfodol i werthuso pa ddeunydd darllen am oruchwyliaeth sydd ar gael mewn meddygfeydd meddygon teulu.  Byddai posteri neu'r daflen 'Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?' yn ffordd dda o gyfathrebu gyda menywod sy'n aros am apwyntiadau cyn geni neu mewn clinigau babanod neu apwyntiadau gydag ymwelwyr iechyd neu feddygon teulu.

## Archwiliad o'r rhif ar alwad

| | |
|---|---|
| Dydd Llun, 23 Mawrth am 9.40 p.m. | Atebwyd yr alwad yn syth gan oruchwylydd bydwragedd. |
| Dydd Gwener, 27 Mawrth am 9 a.m. | Atebwyd yr alwad yn syth gan oruchwylydd bydwragedd. |
| Dydd Llun, 30 Mawrth am 2.15 p.m. | Atebwyd yr alwad yn syth gan oruchwylydd bydwragedd. |

Atebwyd y galwadau yn syth gan oruchwylydd bydwragedd. Cynhaliwyd yr archwiliad yn defnyddio ffôn symudol, a chanfuwyd ym mhob achos nad oedd ton deialu yn ystod yr eiliad cyn i'r galwad gael ei hateb. Gallai hyn achosi dryswch i alwyr, a allai feddwl nad yw'r rhif wedi gweithio, ac fe allant roi'r gorau i'r alwad cyn iddi gael ei hateb.

### 2.3.4 Casgliad ac argymhellion

- Dylid gweithio i sicrhau bod gwybodaeth am oruchwylwyr bydwragedd yn gywir a chynhwysfawr ledled gwefannau byrddau iechyd yng Nghymru. Byddai agwedd fwy cyson o ran pa wybodaeth sydd ar gael yn ddefnyddiol. Byddai hefyd yn ddefnyddiol i gynnwys dolen at y daflen 'Ydyn ni'n esgor ar wasanaeth da?' o bob gwefan.
- Mae digon o wybodaeth ar gael ar hysbysfyrddau mewn ardaloedd cyhoeddus mewn ysbytai a chanolfannau geni, gyda'r rhif ar alwad yn cael ei arddangos i ddefnyddwyr gwasanaeth ei weld.
- O ran taflenni am oruchwyliaeth, nid oedd yn bosibl creu darlun cyflawn i weld a ydynt ar gael ym mhob ardal. Yn ddelfrydol, fe ddylent fod ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth ar wardiau ac mewn canolfannau geni a chlinigau cyn geni.
- Dangosodd yr archwiliad ffôn fod y rhif ar alwad yn llwyddiannus o ran trosglwyddo defnyddwyr gwasanaeth i oruchwylydd bydwragedd yn syth.
- Roeddem yn gallu cael y rhif ar alwad cywir gan bob switsfwrdd ysbyty ond un, sy'n dangos bod yr wybodaeth am y rhif ar alwad cywir wedi cael ei dosbarthu'n llwyddiannus. Nid oeddem yn gallu cael y rhif ar alwad trwy ffonio meddygfeydd meddygon teulu, felly efallai bod angen gweithio rhywfaint i gyfathrebu'r wybodaeth hon.
- Mae angen gweithio rhywfaint ar sut y gellir codi proffil goruchwyliaeth trwy gyfrwng cyfryngau cymdeithasol. Gallai hwn fod yn ddull defnyddiol iawn ar gyfer rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth am swyddogaeth y goruchwylydd bydwragedd, enghreifftiau o sut maent wedi helpu menywod, a gwybodaeth ar gyfer cysylltu â nhw.
- Gellid cynnal arolwg o ddefnyddwyr gwasanaeth i ganfod faint mewn gwirionedd sy'n gwybod am swyddogaeth y goruchwylydd bydwragedd a sut i gysylltu â goruchwylydd bydwragedd.
- Gellid gwerthuso hygyrchedd goruchwylwyr bydwragedd mewn rhannau eraill o'r wlad i weld a ellid defnyddio unrhyw arferion llwyddiannus yng Nghymru.

## 3. Casgliad cyffredinol

Cafodd y broses archwilio ar gyfer eleni ei datblygu gan adolygwyr lleyg, ac roedd yn cynnwys archwilio tri maes o oruchwyliaeth bydwragedd yng Nghymru, sef:

- profiad defnyddwyr gwasanaeth
- goruchwyliaeth grŵp a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- hygyrchedd goruchwylwyr bydwragedd i fenywod a'u teuluoedd

Canolbwyntiodd yr adolygwyr lleyg yn benodol ar safbwynt y defnyddiwr, yn unol â rheolau a safonau bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, fel maes nad oedd wedi cael ei archwilio yn drwyadl, trwy gyfrwng archwiliad Diogelwch ac Ansawdd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2014. Ymchwiliodd adolygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth feysydd statudol o oruchwyliaeth, yn arbennig yng ngoleuni'r model goruchwylio diwygiedig yng Nghymru, a gyflwynwyd ym mis Awst 2014. Roedd canfyddiadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn ddieithriad, yn gadarnhaol iawn ac yn rhoi sicrwydd mewn perthynas ag amddiffyn y cyhoedd, ac roedd yr adolygwyr lleyg yn falch o ganfod bod canfyddiadau eu harchwiliad, mewn perthynas â phrofiad defnyddwyr gwasanaeth a mynediad at oruchwyliaeth a goruchwylwyr bydwragedd, yn cytuno â chanfyddiadau tîm adolygu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Fel gydag unrhyw fodel newydd, mae lle i wella bob amser, ac amlygodd yr archwiliad rai meysydd o ddarpariaeth oedd wedi profi problemau o'r dechrau, y mae rhai ohonynt yn dal angen sylw. Canfu'r archwiliad hefyd feysydd eraill o'r broses oruchwylio a fyddai'n elwa ar ddatblygiad pellach a/neu ddiweddariad o'r hyfforddiant dechreuol a ddarparwyd i oruchwylwyr bydwragedd fel rhan o gynllun gweithredu'r model. Gwnaed argymhellion fel y bo'n briodol trwy gydol yr adroddiad hwn.

Mae'n amlwg bod menywod beichiog, eu teuluoedd a bydwragedd hefyd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r arweiniad a ddarperir gan oruchwylwyr bydwragedd, ac yn bwysicach yn hoffi eu didueddrwydd, sy'n golygu bod menywod a bydwragedd yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth fynd at oruchwylydd bydwragedd am gyngor. Yn amlwg, mae mwy o waith i'w wneud i godi proffil goruchwyliaeth a swyddogaeth y goruchwylydd bydwragedd gyda defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd, ond y cafeat i hyn yw'r angen i osgoi codi disgwyliad y cyhoedd pan fwriedir tynnu goruchwyliaeth.  Bydd yn bwysig felly i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ystyried y ffordd orau i sicrhau bod cefnogaeth ac arweiniad o'r fath yn parhau i fod ar gael ar ôl i swyddogaeth statudol goruchwylio ddod i ben yng Nghymru a ledled y DU.

Hoffai'r tîm adolygwyr lleyg ddiolch i'r holl fenywod, teuluoedd, bydwragedd a goruchwylwyr bydwragedd a gyfrannodd at y broses archwilio, a hoffem nodi cymaint rydym wedi mwynhau gweithio gyda phob un ohonoch.